Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

BIP Caerdydd a'r Fro

# Adroddiad Blynyddol

2024 – 2025

# Hygyrchedd

Os oes angen copïau ychwanegol o'r ddogfen hon arnoch, gellir eu lawrlwytho yn Gymraeg a Saesneg o'n gwefan. Fel arall, os oes angen y ddogfen arnoch mewn fformat arall, gallwn ddarparu crynodeb o'r ddogfen hon mewn gwahanol ieithoedd, print mwy neu Braille.  Cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod:

Adran Llywodraethu Corfforaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Pencadlys Corfforaethol
Tŷ Coetir Heol
Maes y Coed Y
Mynydd Bychan
Caerdydd CF14 4HH

Mae fersiwn PDF llawn ar gael ar ein gwefan.










# Cysylltu â Ni

Llywodraethu Corfforaethol
Tŷ Coetir Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Heol Maes y Coed
Caerdydd
CF14 4HH

**029 2074 7747**

news@wales.nhs.uk/

Corporate.Meetingcav@wales.nhs.uk

www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/

@CV_UHB

https://www.facebook.com/cardiffandvaleuhb

https://www.instagram.com/cv_uhb

# Cynnwys

**1. Croeso gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr** 6

**2. Proffil Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro** **10**
2.1 Amdanom Ni 10
2.2 Ein Cenhadaeth a'n Gweledigaeth 11
2.3 Ein Bwrdd 12
2.4 Ein Strwythur 14
2.5 Y Boblogaeth Rydyn Ni'n ei Gwasanaethu 15
2.5.1 Corff Llais y Dinesydd (Llais) 15
2.6 Egwyddorion Unioni 16
2.7 Ein Strategaeth 16
2.8 Ymchwil a Datblygu 18
2.9 Arloesi a Phartneriaethau 19

## Rhan 1 – Adroddiad Perfformiad

**3. Newidiadau Gwasanaeth Allweddol a gyflawnwyd yn 2024-2025** 22
3.1 Cyflwyniad 22
3.2 Datganiad gan y Prif Weithredwr 22
3.3 Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 23
3.4 Arfarniad ac Asesiad Perfformiad 25
3.5 Tueddiadau Perfformiad Ariannol 25
3.6 Dadansoddiad Darpariaeth a Pherfformiad 30
3.6.1 Dadansoddiad Perfformiad Gweithredol 30
3.7 Dadansoddiad Perfformiad Ansawdd 37
3.8 Profiad Cleifion 39
3.9 Adborth gan Gleifion 41
3.10 Datganiad Llesiant ac Adroddiad Blynyddol y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 44
3.11 Trefniadau Llywodraethu sy'n ymwneud â'r Ddeddf LlCD 44
3.12 Cynnydd yn Erbyn ein Hamcanion Lles 45
3.13 Astudiaethau Achos ar gyfer yr 'Hirdymor' ac 'Atal' 45
3.14 Rheoliadau'r Gymraeg 2018 46
3.15 Adroddiad Cynaliadwyedd 48

**4. Trefniadau Llywodraethu Ansawdd** **53**
4.1 Gwaith Ansawdd Digidol a Thrawsnewid 53

**5. Cyflawni mewn Partneriaeth** **56**
5.1 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro 56
5.2 Gwasanaethau Gofal Iechyd Rhanbarthol 58
5.3 Gwasanaethau Arbenigol a Thrydyddol 58

**6. Ein Pobl** **60**
6.1
6.2 Denu a Recriwtio 61
6.3 Cadw ein Pobl 62
6.4 Lles y Gweithlu 63
6.5 Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant 63
6.6 Cynllunio'r Gweithlu 64
6.7 Gweithlu Cynaliadwy a Fforddiadwy 65

**7. Casgliad ac Edrych Ymlaen** **66**

## Rhan 2 - Adroddiad Atebolrwydd

**8. Cwmpas yr Adroddiad Atebolrwydd** **69**
8.1 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol 69
8.2 Cyfansoddiad y Bwrdd 69
8.3 Datganiad o gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro 69
8.4 Datganiad o Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr Mewn Perthynas â'r Cyfrifon 70
8.5 Datganiad Buddiannau 71

**9. Datganiad Llywodraethu Blynyddol** **73**
9.1 Cwmpas Cyfrifoldeb 73
9.2 Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd 73
9.3 Rheolau Sefydlog Enghreifftiol a Chynllun Cadw'n Ôl a Dirprwyo 74
9.3.1 Amrywiad ar gyfer Rheolau Sefydlog 74
9.4 Y Bwrdd a'i Bwyllgorau 75
9.5 Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd 77
9.6 Cyfansoddiad y Bwrdd 78
9.7 Pwyllgorau 78
9.8 Grwpiau Cynghori a Chydbwyllgorau 83
9.9 Penodiadau Cyhoeddus 84
9.10 Datganiad Budd y Cyhoedd 85
9.11 Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd a Phwyllgorau 2024-2025 85

**10. Risg** **85**
10.1 Sicrwydd Archwilio ar Reoli Risg 87

**11. Datgeliadau Gorfodol** **87**
11.1 Safonau Iechyd a Gofal Diwygiedig 87
11.2 Parodrwydd am Argyfwng 88
11.3 Cyfarwyddydau Gweinidogol a Chylchlythyron Iechyd Cymru (CICau) 88
11.4 Adroddiadau Rheoleiddio ac Arolygu 88
11.5 Diogelwch Data a Llywodraethu Gwybodaeth 89
11.6 Cynllun Pensiwn y GIG 89
11.7 Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 90
11.8 Adolygiad o Effeithiolrwydd 90
11.9 Effeithiolrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau 91

**12. Archwilio** **91**
12.1 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol 92
12.2 Sicrwydd Cyfyngedig 94

**13. Archwilio Allanol – Archwilio Cymru** **94**
13.1 Adroddiad Archwilio Blynyddol 2024 94
13.2 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Asesiad Strwythuredig 95

**14. Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 - Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi** **96**

**15. Casgliad** **98**

**Atodiadau** **99**
Atodiad 1 - Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd a Phwyllgorau 2024-2025 99
Atodiad 2 - Cyfarwyddydau Gweinidogol a Chylchlythyron Iechyd Cymru 106

## Rhan 2b Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

**16. Rhan 2b Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff** **111**
16.1 Niferoedd Staff 111
16.2 Cyfansoddiad Staff 111
16.3 Data Absenoldeb Salwch 113
16.4 Polisïau Staff 113
16.5 Hawliau Cyflog a Phensiwn Uwch Reolwyr 2024-2025 115
16.6 Gwariant Ymgynghori 120
16.7 Sicrwydd Treth i Rai a Benodir Oddi Ar y Gyflogres 120

## Rhan 2c Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru

**17. Rhan 2c Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru** **122**
17.1 Rheoleidd-dra Gwariant 123
17.2 Cynlluniau Gwariant Hirdymor 2020-2025 123
17.3 Ffioedd a Thaliadau 129
17.4 Rheoli Arian Cyhoeddus 129
17.5 Rhwymedigaethau amodol annhebygol perthnasol 130
17.6 Tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd 130
17.7 Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn y Senedd 135

## Rhan 3 Datganiad Ariannol Archwiliedig (Cyfrifon Blynyddol)

**18. Rhan 3 Datganiad Ariannol Archwiliedig (Cyfrifon Blynyddol)** **144**
18. Datganiadau Ariannol 144

# 1. Croeso gan ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr

Rydym yn falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-2025 a diolch i chi am gymryd yr amser i'w ddarllen. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i ni rannu'r cynnydd a wnaed gan dîm y Bwrdd Iechyd gyda chefnogaeth ystod eang o randdeiliaid a'r gymuned rydym yn ei gwasanaethu, tuag at gyflawni ein Cynllun Blynyddol a'r Strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol. Mae hefyd yn caniatáu i ni fyfyrio ar rai heriau sy'n effeithio ar ein tîm a'r rhai sy'n dibynnu arnom i'w cefnogi a gofalu amdanynt, yn aml pan fyddant ar eu mwyaf bregus.

Rydym wedi ymrwymo i'n strategaeth 10 mlynedd, "Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol," sy'n ein tywys i 2035. Rydym wedi sefydlu Portffolios Strategol i sicrhau y cyflawnir ein cynlluniau yn effeithiol ac wedi cyd-gynhyrchu Newidiadau Strategol i lywio ein camau nesaf dros y tair blynedd nesaf.
Mae'r newidiadau hyn yn canolbwyntio ar bontio o salwch ac anaf i iechyd a lles teg, gan sicrhau ansawdd a chanlyniadau cyson, symud i amgylcheddau sy'n ddigidol-gysylltiedig, a chynllunio ar gyfer cynaliadwyedd. Bydd ein prif ymdrech ar gyfer 2025/2026, "Y Pethau Pwysig," yn cefnogi'r newidiadau hyn.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer 2035, gan ganolbwyntio ar gerrig milltir allweddol dros y pum a deng mlynedd nesaf. Ein gweledigaeth yw gwella bywydau fel bod gan bawb gyfle cyfartal o fyw bywyd iach erbyn 2035, waeth ble maen nhw'n byw neu pwy ydyn nhw. Ein nod yw mynd i'r afael â gwahaniaethau mewn mynediad gofal iechyd trwy hyrwyddo amgylchedd iach a bod yn lle gwych i hyfforddi, gweithio a byw. Rydym yn gwrando ar bobl ac yn eu grymuso i fyw bywydau iach, gan ddarparu gwasanaethau gofal teg, amserol a diogel lle mae pobl yn cael eu trin â charedigrwydd mewn cyfleusterau sy'n addas at y diben, yn hyblyg, ac yn hyrwyddo adferiad. Mae ein hymdrechion heddiw wedi'u cynllunio i sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol, ac mae'r ymdrechion amlochrog hyn yn hanfodol i wireddu ein huchelgeisiau a gwasanaethu ein cymunedau'n effeithiol.

Wrth i ni ddod at ddiwedd y flwyddyn ariannol ym mis Mawrth 2025, mae'n bwysig myfyrio ar gyflawniadau allweddol y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys diweddariad ar gyflawni'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni yn unol ag amcanion strategol y Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP).

## Rhoi Pobl yn Gyntaf

Eleni, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gefnogi'r Cynllun Pobl a Diwylliant fel rhan o'n hamcan Rhoi Pobl yn Gyntaf trwy ymdrechu i wella profiad pob cydweithiwr a lleihau gwahaniaethau ym mhrofiadau cydweithwyr o gymunedau amrywiol ethnig. Wedi ein tywys gan y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (CGCWH) a Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu (SCHG), rydym wedi canolbwyntio ar anghydraddoldebau systemig a chynhwysiant. Mae'r cydweithio â Llywodraeth Cymru wedi bod yn ffrwythlon, gydag adborth cadarnhaol ar ein dull gweithredu, ein gweledigaeth a'n cynnydd, yn enwedig o amgylch cynrychiolaeth a dilyniant ar gyfer cydweithwyr amrywiol ethnig.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i'n rôl fel rhieni corfforaethol ac wedi bod yn ehangu mynediad at leoliadau gwaith a gyrfaoedd yn BIP Caerdydd a'r Fro. Rydym yn cefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gyda lleoliadau ystyrlon a

chefnogaeth wedi'i theilwra, gan gofnodi eu profiadau trwy dempled Straeon Staff i siapio

cyfleoedd yn y dyfodol. Mae ein hymdrechion yn cynnwys partneriaethau gydag ysgolion ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol, a sefydliadau'n cefnogi unigolion digartref, ffoaduriaid, a chyn-droseddwyr, gan sicrhau ein bod yn cyrraedd y rhai sy'n wynebu rhwystrau cyflogaeth. Drwy'r
gwaith hwn, rydym yn creu llwybrau cynhwysol i'r GIG, gan helpu unigolion o bob cefndir i ddychmygu dyfodol yn ein gweithlu.

## Darparu Ansawdd Rhagorol

Rydym yn ymroddedig i gyflawni ein Dyletswydd Ansawdd a Gonestrwydd statudol wrth gyflawni ein hamcan strategol Darparu Ansawdd Rhagorol. Nod yr ymrwymiad hwn yw gwella ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau iechyd ar gyfer
y bobl yng Nghymru. Rydym yn parhau i hyrwyddo system gofal iechyd dryloyw, atebol sy'n canolbwyntio ar y claf sy'n ymdrechu'n gyson i wella gofal a chanlyniadau i'r boblogaeth.
Er mwyn helpu i gyflawni ein nod o Ddarparu Ansawdd Rhagorol, gweithredwyd y Llwybr Toriad Clun Cyflym ac mae wedi arwain at welliannau sylweddol yn nhaith y cleifion i'r fath raddau fel bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro bellach yn un o'r unedau torri clun sy'n perfformio orau yn y DU. Cyflwynwyd Cabanau eBrysbennu yn yr Uned Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru i wella profiad cleifion, cynyddu effeithlonrwydd, a chefnogi'r tîm brysbennu clinigol gyda blaenoriaethu'r
cleifion sydd fwyaf mewn angen.
Dyfarnwyd Achrediad Efydd yn y Rhaglen Achredu a Gwella Wardiau i bedair ward am eu hymroddiad i gyflawni safonau gofal uchel a defnyddio mewnwelediadau sy'n cael eu gyrru gan ddata i weithredu gwelliannau ystyrlon. Gwnaethom lansio Rhaglen Allgymorth CAVHIS sy'n enghraifft o ymrwymiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ddarparu

gofal cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y claf a mynd i'r afael ag anghenion unigryw'r gymuned. Trwy ganolbwyntio ar fesurau rhagweithiol ac ataliol, mae'r rhaglen yn ymdrechu i greu poblogaeth iachach, fwy gwydn.

## Cyflawni yn y Lle Cywir

Er mwyn sicrhau ein bod yn Cyflawni yn y Lleoedd Cywir, rydym wedi canolbwyntio ar gefnogi'r Map Ffordd Digidol, gyda'n mentrau a'n strategaethau allweddol yn anelu at wella'r gallu digidol i drawsnewid ein ffyrdd o weithio a gwella gofal cleifion.

Mae hyn yn cynnwys datblygu achos busnes rhaglen i fuddsoddi mewn seilwaith, gweithredu'r Cofnod Iechyd Electronig, a gwella aeddfedrwydd digidol. Rydym wedi mabwysiadu dull mwy cynhwysol trwy ymgorffori trwyddedau Microsoft 365 a chyfeiriadau e-bost ar gyfer pob cydweithiwr, ac ehangu mynediad i Microsoft 365 Copilot, offeryn deallusrwydd artiffisial (AI) sy'n awtomeiddio tasgau arferol fel cymryd nodiadau, cynhyrchu crynodebau, a rheoli tasgau. Yn ogystal, cawsom £4.4 miliwn o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i wella ein seilwaith digidol cyffredinol. Yn ein gwasanaethau cymunedol, cynhaliwyd digwyddiad Bywydau Iach yn ystod Ramadan yn Stadiwm Dinas Caerdydd, gan addysgu menywod o ffydd Islamaidd ar bwysigrwydd sgrinio'r fron, ceg y groth a'r coluddyn, yn ogystal â brechiadau plentyndod. Ehangwyd y gwasanaeth gofal sylfaenol Diogel yn y Cartref, gan gynnig dewis arall diogel i ofal ysbyty i unigolion hŷn a bregus yn eu cartref. At hynny, agorodd The Hangout Cardiff (Platfform) ail leoliad yn y Barri, gan ddarparu amgylchedd croesawgar i bobl ifanc 11-18 oed gael mynediad at gymorth iechyd meddwl a lles emosiynol. Rydym hefyd yn falch o gynhyrchu cyfres arall o Saving Lives in Cardiff ar BBC One, sydd bellach ar ei hail gyfres, gan

arddangos ymroddiad timau clinigol a gweithredol sy'n gweithio yn y Bwrdd Iechyd bob dydd.

## Gweithredu dros y Dyfodol

Trwy gydol 2024/25, gweithiodd cydweithwyr yn galed i leihau allyriadau carbon y Bwrdd Iechyd a diogelu'r amgylchedd, gan gefnogi ein hymdrech i gyflawni ein hamcan Gweithredu dros y Dyfodol. Arloesodd BIPCaF ddewis amgen ecogyfeillgar ar gyfer 'nwy ac aer', a ddefnyddir fel lleddfwr poen i fenywod sy’n esgor, gan leihau allyriadau niweidiol yma a thu hwnt.
Mae disgwyl i'r system Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau Electronig (ePMA) gael ei lansio erbyn diwedd y flwyddyn, sy'n anelu at wella presgripsiynu a gweinyddu meddyginiaethau. Mae Caerdydd yn arwain y ffordd yn ac i Gymru gyda dull gweithredu gwirioneddol gydweithredol, ac mae'n buddsoddi ymdrech i hysbysu a galluogi gwasanaethau i ddarparu triniaethau cyffrous ac arloesol i'n cleifion wrth i ni gefnogi treialon a therapïau clinigol therapi datblygedig wrth iddynt symud i safon gofal. Rydym wedi denu staff clinigol sy'n arwain y byd i gyflwyno treialon clinigol ar gyfer cleifion clefyd Huntington a sicrhau cefnogaeth Ymchwil Gofal Iechyd Cymru i'r Ganolfan Niwrotherapïau Datblygedig (ANTC).
Rydym hefyd wedi llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Partneriaeth Genomeg Cymru i hwyluso cydweithrediad technegol a gwyddonol mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Illumina, yn ogystal â Llywodraeth Cymru.

Mae mynd i'r afael ag effeithiau iechyd cyhoeddus yr argyfwng hinsawdd ar iechyd y boblogaeth yn gofyn am ddull cynhwysfawr sy'n cynnwys ymdrechion lliniaru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Gyda chreu ein llyfr ryseitiau carbon arloesol, rydym yn

gweithio i adeiladu'r effaith carbon i mewn i drefniadau gaffael ac ystadau yn ogystal â phrosesau clinigol. Yn ystod 2024-25 gwnaethom barhau i adeiladu ar y berthynas gref sydd gennym eisoes gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a chynnal ymarfer hunanasesu yn erbyn pum ffordd weithio'r Ddeddf i'n helpu i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach yn ein gwaith bob dydd.

## Heriau

Mae'r heriau sy'n parhau i effeithio'n sylweddol ar y sefydliad wedi'u hachosi gan boblogaeth sy'n heneiddio a'r galw cynyddol am wasanaethau gofal iechyd, sy'n rhoi straen ar adnoddau a seilwaith. Mae cyfyngiadau ariannol a'r angen i foderneiddio yn cymhlethu darpariaeth gofal amserol ac effeithiol ymhellach. Nid yw'r seilwaith sy'n heneiddio'n darparu'r amgylcheddau therapiwtig sydd eu hangen i gynnig gofal o safon ac mae adeiladu gwytnwch seilwaith ar draws y Bwrdd Iechyd wedi bod ac yn parhau i fod yn ffocws i'r bwrdd. Er bod heriau sylweddol o hyd, mae'r tîm Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau wedi dangos ymroddiad a chynnydd mawr wrth wella seilwaith a chefnogi anghenion y sefydliad.

Er bod mwy o ofal nag erioed yn cael ei ddarparu, mae llawer o bobl yn parhau i fod ar restrau aros, sy'n tynnu sylw at y ffaith fod meysydd i'w gwella o hyd.

Nod datrysiadau arloesol fel y gwasanaeth clodwiw Aros yn Iach yw gwella canlyniadau cleifion drwy sicrhau eu bod yn cael eu paratoi'n dda ac yn cael eu cefnogi wrth aros am eu triniaeth. Mae firysau'r gaeaf fel COVID-19, RSV, ffliw, a norofeirws hefyd yn creu heriau sylweddol i iechyd y cyhoedd a chynaliadwyedd ariannol

y GIG. I fynd i'r afael â hyn, mae rhaglen frechu reolaidd yn cael ei darparu yn y gweithle a thrwy’r gymuned, gyda'r nod o amddiffyn staff a chleifion wrth leihau'r galw am wasanaethau gofal iechyd.

Er gwaethaf yr heriau sylweddol sy'n ein hwynebu, mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn ymrwymedig i arwain newid.  Un o'r gwersi allweddol o'r flwyddyn ddiwethaf yw bod cyflawni cynllun effeithiol yn dibynnu'n gritigol ar aliniad strategol a pherchnogaeth ar draws y sefydliad cyfan. Mewn ymateb, rydym wedi addasu ein dull yn seiliedig ar y mewnwelediadau hyn a chynnal digwyddiad cynllunio cyflym i wella dealltwriaeth o'n gweledigaeth a chynyddu’r trefniadau ar gyfer cyd-gynhyrchu ein cynlluniau gyda'r uwch dîm arwain a'r sefydliad ehangach.

Hoffem ddiolch i’r gwirfoddolwyr yn ogystal

Rydym hefyd yn ddiolchgar i’r staff, rhanddeiliaid a phartneriaid sy'n ein galluogi i gynnig y gofal rydyn ni'n ei ddarparu.

â phobl Caerdydd a Bro Morgannwg am eu cefnogaeth a'u hadborth parhaus wrth i ni geisio dysgu a gwella ansawdd mynediad, gofal, triniaeth a phrofiad pawb yn barhaus. Mae gennym amseroedd heriol o'n blaenau, ond rydym yn hyderus y gallwn, drwy fynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'n gilydd, gefnogi pobl i fyw bywydau iachach a lleihau'r gwahaniaethau annheg o ran cyffredinrwydd salwch a chanlyniadau iechyd a welwn yn ein cymunedau heddiw.







**Suzanne Rankin**
Prif Weithredwr

**Yr Athro Charles Janczewski**
Cadeirydd BIP



# 2. Caerdydd a'r Fro Proffil y Bwrdd Iechyd

## 2.1 Amdanom Ni

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn un o'r sefydliadau GIG mwyaf yn Ewrop. Wedi'i sefydlu yn 2009, mae'n darparu ystod o wasanaethau iechyd a lles i'w boblogaeth. Gwnaethom wario tua £2.1 biliwn yn 24/25 ar ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau iechyd a lles i'n cymunedau, gan gynnwys:

- **Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol:** Meddygfeydd, Deintyddion, Fferylliaeth ac Optometreg a llu o wasanaethau therapi a arweinir gan y gymuned drwy dimau iechyd cymunedol. Rydym hefyd yn darparu gofal ysbyty cymunedol cam-i-lawr, camu-i-fyny o Ysbytai Dewi Sant a'r Barri.
- **Gwasanaethau acíwt drwy ein dau brif Ysbyty Athrofaol ac Ysbyty Plant:** yn darparu ystod eang o driniaethau ac ymyriadau meddygol a llawfeddygol.
- **Iechyd y Cyhoedd:** rydym yn cefnogi cymunedau Caerdydd a'r Fro gydag amrywiaeth o gyngor ac arweiniad iechyd cyhoeddus ac ataliol.
- **Canolfan drydyddol:** rydym hefyd yn gwasanaethu poblogaeth ehangach ledled Cymru ac yn aml y DU gyda thriniaeth arbenigol a gwasanaethau cymhleth fel niwrolawdriniaeth a gwasanaethau cardiaidd.

Mae'r diagram isod yn dangos y wasanaethau rydym yn eu darparu.

**Iechyd y Cyhoedd**

Gwella iechyd ein poblogaeth a lleihau anghydraddoldebau. Darparu gwybodaeth a chyngor gofal iechyd ataliol gan gynnwys mynediad at wasanaethau iechyd a lles.

**Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol**

Cynnig gwasanaethau iechyd rheng flaen megis meddygfeydd, deintyddion, optometryddion, fferyllwyr ac ystod o wasanaethau therapi a chymunedol sydd are gael mor agos at y cartref â phosibl.

**Gofal Acíwt a Thrydyddol**

Darparu gofal heb ei drefnu neu ofal brys. Gofal dewisol a gwasanaethau arbenigol i boblogaeth ehangach ledled Cymru, gan gynnwys gwasanaethau diagnosteg a therapiwtig.

**Gwasanaethau Corfforaethol**

Darparu'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen i redeg system iechyd integredig ledled Cymru a Chaerdydd gan sicrhau diogelwch cleifion, llywodraethu, sicrwydd ansawdd, perfformiad a darpariaeth ragorol o'r holl wasanaethau.

## 2.2 Ein Cenhadaeth a'n Gweledigaeth

Ein Gweledigaeth i'r bobl a wasanaethwn, drwy gydweithio, yw helpu i wella bywydau fel bod pobl, erbyn 2035, yn iachach a bod gwahaniaethau annheg mewn canlyniadau iechyd wedi'u lleihau. Bydd y gofal rydym yn ei ddarparu i bobl sydd angen ein gwasanaethau a'r rheini sy'n darparu'r gwasanaethau yn rhagorol, gyda chanlyniadau a phrofiadau i bawb sy'n cymharu'n dda â'r sefydliadau cymheiriaid sy'n perfformio orau. Dylai pawb gael y cyfle gorau posibl i fyw bywyd iach a boddhaus - lle mae'r gwahaniaethau annheg mewn canlyniadau iechyd, sy'n effeithio ar ddisgwyliad oes, yn cael eu lleihau. Byddwn yn cyflawni hyn drwy weithio gyda chymunedau lleol a phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fynd i'r afael â'r materion sy'n achosi salwch y gellir ei atal a marwolaethau cynamserol.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, rydym wedi datblygu ein hamcanion strategol – nodau llesiant y Bwrdd Iechyd - sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ymgorffori'r egwyddorion cynaliadwyedd a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd i'w cyflawni.

Rydym hefyd yn anelu at ddarparu gofal iechyd rhagorol, lle mae'r canlyniadau'n adlewyrchu ein bod yn Fwrdd Iechyd Prifysgol sy'n weithgar iawn o ran ymchwil ac yn debyg i sefydliadau cymheiriaid sy'n perfformio'n dda. Byddwn yn mesur ein perfformiad yn erbyn sefydliadau gofal iechyd sydd fel ni o ran maint a chymhlethdod gwasanaethau, addysgu ac ymchwil y Bwrdd Iechyd, ar lefel y DU ac yn rhyngwladol.


Our Plan 25/26
VISION
Working together, we will help improve lives so that by 2035 people are healthier and unfair differences in health outcomes are reduced. The care we provide for people who need our services and those delivering services will be outstanding, with outcomes and experience for all that compare with the highest performing peer organisations.
Our Mission-
Eradicating Avoidable Harm
Main Effort -
Brilliant Basics
Strategic Objectives
Putting People First
Providing Outstanding Quality
Delivering in the Right Places
Acting for the Future
Strategic Portfolios
Population Health and Places
Quality and Value
Clinical Services
Infastructure
Future Generations
Strategic Shifts
From illness and injury to equitable health and wellbeing
From variable quality of care to utterly consistent quality and outcomes
From analogue buildings to digitally connected people and places
From firefighting today to planning for a sustainable tomorrow

## 2.3 Ein Bwrdd

Mae ein Bwrdd yn cynnwys 21 o aelodau, gan gynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd a Phrif Weithredwr. Mae gan y Bwrdd Iechyd 11 Aelod Annibynnol, y mae pob un ohonynt yn cael eu penodi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a thri Aelod Cyswllt.

Mae'r Bwrdd yn darparu arweiniad a chyfarwyddyd i'r sefydliad ac mae'n gyfrifol am lywodraethu, craffu ac atebolrwydd cyhoeddus, gan sicrhau bod ei waith yn agored ac yn dryloyw trwy gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus.

Yn ogystal â'u cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau a nodir yn eu telerau ac amodau penodi, mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cyflawni nifer o rolau Pencampwr lle maent yn gweithredu fel llysgenhadon ar gyfer y materion hyn.

Cefnogir y Bwrdd gan nifer o Bwyllgorau, pob un yn cael ei gadeirio gan Aelod Annibynnol.

Mae ein cyfarfodydd pwyllgor wedi parhau i gael eu cynnal yn rhithwir yn ystod y flwyddyn.
Mae aelodau'r cyhoedd wedi gallu gweld recordiadau o'n cyfarfodydd Pwyllgor rhithwir ers mis Chwefror 2022 drwy ein gwefan. Mae'r Pwyllgorau, sy'n cyfarfod yn gyhoeddus, yn darparu eu cofnodion i bob cyfarfod Bwrdd i gyfrannu at ei asesiad o sicrwydd ac i graffu yn erbyn y gwaith o gyflawni amcanion.

Mae copïau o'r papurau a'r cofnodion ar gael gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol ac maent hefyd ar wefan y Bwrdd Iechyd (gweler y ddolen: https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/cyfarfodydd-bwrdd/).

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys crynodeb o gyfrifoldebau a Chylch Gorchwyl pob Pwyllgor. Mae'r holl gamau sy'n ofynnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgorau wedi'u cynnwys mewn Cofnod Gweithredu, ac ym mhob cyfarfod caiff cynnydd ei fonitro. Cyhoeddir y Cofnodion Gweithredu hyn hefyd ar wefan y Bwrdd Iechyd.

Mae pob Pwyllgor yn adolygu ei Gylch Gorchwyl a'i Gynlluniau Gwaith yn flynyddol i gefnogi busnes y Bwrdd, yn ogystal â llunio Adroddiad Blynyddol i ddangos cydymffurfiaeth â'i Gylch Gorchwyl priodol. Mae pwyllgorau hefyd yn gweithio gyda'i gilydd ar ran y Bwrdd i sicrhau bod gwaith yn cael ei gynllunio'n gydlynol ac yn canolbwyntio ar faterion o'r risg mwyaf a fyddai'n ein hatal rhag cyflawni ein cenhadaeth a'n hamcanion. Er mwyn sicrhau cysondeb a chysylltiadau rhwng Pwyllgorau, mae Cadeiryddion Pwyllgorau ac Arweinwyr Gweithredol yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion sy'n codi, gan sicrhau cydlyniant â busnesau ar lawr gwlad sy'n bwydo'r cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor perthnasol.

# Ein Haelodau Bwrdd

## *Aelodau Annibynnol*



**Yr Athro Charles Janczewski**
*Cadeirydd*



**Yr Athro Ceri Phillips**
*Is-gadeirydd*



**Susan Lloyd-Selby**
*Aelod Annibynnol - Awdurdod Lleol*



**David Edwards** *Aelod Annibynnol - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu*



**Akmal Hanuk** *Aelod Annibynnol - Cymuned Leol*



**Sara Moseley** *Aelod Annibynnol - Trydydd Sector (Gwirfoddol)*



**Dr Rhian Thomas**
*Aelod Annibynnol - Cyfalaf ac Ystadau*



**John Union** *Aelod Annibynnol - Cyllid*



**Mike Jones** *Aelod Annibynnol - Undeb Llafur*



**Steve Riley** *Aelod Annibynnol - Prifysgol*



**Dr Rachna Upadhya**
*Aelod Annibynnol - Cyffredinol*

## *Cyfarwyddwyr Gweithredol a Swyddog-Aelodau*



**Suzanne Rankin**
*Prif Weithredwr*



**David Fluck**
*Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol*



**Catherine Phillips**
*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid*



**Emma Cooke**
*Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Gwyddonwyr Iechyd a Datblygu Gwasanaethau Cymunedol*



**Claire Beynon**
*Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd*



**Jason Roberts**
*Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsys*



**Paul Bostock** *Prif Swyddog Gweithredu*



**Rachel Gidman**
*Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant*

## *Cyfarwyddwyr Eraill*



**Matt Phillips**
*Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol*



**David Thomas**
*Cyfarwyddwr Gwybodaeth Ddigidol ac Iechyd*

## 2.4 Ein Strwythur

Mae gennym weithlu o tua 18,400 o staff (15,489 cyfwerth ag amser llawn) sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn gyson i'n holl gleifion. Mae ein sefydliad wedi'i strwythuro a'i ddylunio i saith Bwrdd Clinigol a grëwyd ym mis Mehefin 2013 sydd wedi llwyddo i ddarparu arweinyddiaeth gref mewn meysydd clinigol ac arwain at gyflymu'r broses o wneud penderfyniadau gweithredol, gan wella'r canlyniadau i gleifion yn eu gofal yn fawr. Mae'r Byrddau Clinigol yn cael eu dwyn i gyfrif drwy'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.




Mae ein gwasanaethau corfforaethol a chynllunio yn rhan annatod o strwythur cyffredinol a rhediad esmwyth y Bwrdd Iechyd. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Strategaeth, Cynllunio a Chomisiynu
- Cyllid gan gynnwys Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau
- Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
- Gwybodaeth Ddigidol ac Iechyd
- Cyfathrebu, y Celfyddydau, Elusen Iechyd ac Ymgysylltu
- Llywodraethu Corfforaethol

- Ymchwil a Datblygu ac Arloesi a Gwella

Creffir ar y cyfarwyddiaethau Gwasanaethau Corfforaethol trwy gyfuniad o atebolrwydd llywodraethu, Cyfarwyddwr Gweithredol ac uwch reolwyr ac mae cynnydd yn cael ei fapio yn erbyn prosiectau allweddol yn eu meysydd arbenigedd.

## 2.5 Y Boblogaeth Rydyn Ni'n ei Gwasanaethu

Mae bron i 500,000 o bobl yn byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae tueddiadau blaenorol mewn twf poblogaeth yn ein hardal wedi arafu, gyda chynnydd rhagamcanol o 3%-4% dros y 10 mlynedd nesaf, neu tua 15,000-20,000 yn fwy o drigolion. Fodd bynnag, yng Nghaerdydd yn benodol, mae'r twf yn y boblogaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn gyflymach na'r disgwyl.  Mae hyn yn cael ei yrru'n bennaf gan fyfyrwyr ac oedolion ifanc yn chwilio am waith. Mae cyfran y bobl yn ein sy'n hŷn yn debygol o barhau i gynyddu. Mae newidiadau mewn polisïau cynllunio, tai neu fudo i gyd yn effeithio ar dwf poblogaeth.

Mae Caerdydd a'r Fro yn cynnwys rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, ochr yn ochr â rhai o'r ardaloedd cyfoethocaf.

Nododd dros dri chwarter yr oedolion (76%) yn ein hardal eu bod mewn iechyd da neu dda iawn, y ganran uchaf yng Nghymru. Dywedodd bron i draean (31%) o bobl eu bod wedi'u cyfyngu gan un neu fwy o afiechydon hirdymor, ond unwaith eto dyma'r gyfradd isaf yng Nghymru. Y disgwyliad oes i ddynion yn ein hardal ni yw bron 79, a bron 83 i fenywod. Mae'r ddau yn uwch na chyfartaledd Cymru, er ychydig yn is na chyfartaledd Lloegr.

Yng Nghaerdydd a'r Fro mae yna wahaniaeth mawr mewn disgwyliad oes pobl sy'n byw yn ein hardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a lleiaf. Os ydych chi'n byw yn un o'n hardaloedd â'r amddifadedd lleiaf, gallwch ddisgwyl byw 8.3 mlynedd yn hirach fel menyw neu 9.3 mlynedd yn hirach fel dyn, na rhywun yn ein hardaloedd â'r amddifadedd mwyaf.

Er gwaethaf ymdrech ar y cyd i leihau'r bwlch hwn dros y degawd diwethaf, mae'r bwlch wedi cynyddu. Mae cymdeithas sydd â gwahaniaethau mawr mewn iechyd a chanlyniadau iechyd yn ein gadael yn fwy agored i niwed ac yn llai gwydn i siociau'r dyfodol, fel pandemig arall neu effeithiau newid hinsawdd.

Mae nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor yn cynyddu, ynghyd â'r nifer sy'n byw gyda mwy nag un salwch. Rhagwelir y bydd nifer yr achosion newydd o ddiabetes math 2 yn cynyddu'n sylweddol yn y degawd nesaf. Amcangyfrifir bod dros un bob pum marwolaeth yng Nghymru a Lloegr yn rhai y gellid eu hosgoi, oherwydd cyflyrau y gellir eu hatal neu eu trin, ac y gellid atal neu oedi 40% o achosion o ddementia trwy newidiadau mewn ffactorau risg addasadwy.

Gellir atal llawer o'n clefydau mwyaf cyffredin trwy fabwysiadu rhai ymddygiadau allweddol: diet iach; gweithgarwch corfforol rheolaidd; cymeriant alcohol isel a pheidio ag ysmygu. Mae cadw'r wybodaeth ddiweddaraf am frechiadau yn ffordd ddiogel ac effeithiol o atal llawer o afiechydon a allai fel arall fod yn fygythiad i fywyd, gan gynnwys cyflyrau anadlol difrifol a rhai canserau.

Er y gall newidiadau mewn ymddygiad gael eu cyflawni trwy wybodaeth ac ewyllys yn unig weithiau, mewn llawer o achosion mae ymddygiadau iechyd yn cael eu dylanwadu gan ffactorau eraill fel yr amgylchedd, addysg a thai. Felly, er mwyn gwella iechyd ein preswylwyr, mae angen i ni hefyd fynd i'r afael â'r penderfynyddion ehangach hyn mewn partneriaeth ag eraill.

Mae gwybodaeth fanylach am iechyd ein poblogaeth nawr ac yn y dyfodol, a'n dull o wella iechyd, yng nghynllun iechyd cyhoeddus Caerdydd a’r Fro.

### 2.5.1 Corff Llais y Dinesydd (Llais)

Trwy gydol y flwyddyn hon rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Corff Llais y Dinesydd (Llais), y corff annibynnol cenedlaethol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym yn cydweithio â Llais i drafod y ffordd rydym yn darparu a datblygu'r gwasanaethau a ddarparwn, ac rydym yn croesawu adroddiadau ganddynt ac yn ddiolchgar am eu cyngor, eu her a'u cefnogaeth.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Llais Caerdydd, Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5DU
Ffôn: 02920 750112 E-bost: enquiries@llaiscymru.org

## 2.6 Egwyddorion Unioni

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi croesawu'r rheoliadau yn llawn sy'n llywio'r modd y mae'n ymdrin â phryderon ac yn ymateb iddynt (cwynion a digwyddiadau) a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2011. Yn ogystal, mae dull y Bwrdd Iechyd o ymdrin â phryderon yn adlewyrchu'n fawr yr 'Egwyddorion Unioni' a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

### a) Gwneud pethau'n iawn

- Rydym yn cydnabod pan fyddwn yn nodi pethau y gellid bod wedi'u gwella.
- Rydym yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol wrth benderfynu ar y rhwymedi priodol, gan sicrhau tegwch i'r achwynydd a, lle bo hynny'n briodol, i eraill sydd wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r un camweinyddu neu wasanaeth gwael.
- Rydym yn ymddiheuro ac yn esbonio'r camweinyddu neu'r gwasanaeth gwael.
- Rydym yn ceisio deall a rheoli disgwyliadau ac anghenion pobl.
- Rydym bob amser yn ceisio delio â phobl yn broffesiynol ac yn sensitif.

### b) Canolbwyntio ar gwsmeriaid

- Rydym yn cydnabod ac yn derbyn cyfrifoldeb am fethiant os a phryd y bydd yn digwydd.

- Rydym yn esbonio'n glir pam y digwyddodd y methiant ac yn mynegi edifeirwch diffuant am unrhyw anghyfiawnder neu galedi sy'n deillio o hynny.

### c) Bod yn agored ac yn atebol

- Rydym yn ceisio bod yn agored ac yn dryloyw.
- Rydym yn ymdrechu i drin pobl heb duedd, gwahaniaethu anghyfreithlon neu ragfarn.

### d) Gweithredu'n deg ac yn gymesur

- Rydym yn ystyried pob math o unioni (megis ymddiheuriad, esboniad, camau adferol neu iawndal ariannol).

### e) Gweithio i wella

- Rydym yn canolbwyntio ar ddefnyddio gwybodaeth am y canlyniad a'r themâu o bryderon i wella gwasanaethau.

### f) Chwilio am welliant parhaus

- Rydym yn ceisio cynnig ymchwiliad ac ymateb cymesur, rhesymol sy'n ceisio nodi'r cyfleoedd i wella gwasanaethau.

## 2.7 Ein Strategaeth

Ym mis Medi 2023 cymeradwywyd ein strategaeth newydd, Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol, gan y Bwrdd, a gellir cael copi ohoni drwy'r ddolen ganlynol: [Hafan - Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol]

Mae'r strategaeth hon yn rhoi disgrifiad lefel-uchel i ni o'r hyn yr ydym am ei gyflawni erbyn 2035, a'r amcanion strategol y byddwn yn canolbwyntio arnynt i'n tywys yno. Mae pob un o'r amcanion strategol yn cynnwys cerrig milltir allweddol y byddwn yn anelu at eu cyflawni dros y pum a'r deng mlynedd nesaf i gyflawni strategaeth y Bwrdd Iechyd.

Mae gennym amseroedd heriol o'n blaenau, ond rydym yn hyderus y gallwn, drwy fynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'n gilydd, gefnogi pobl i fyw bywydau iachach a lleihau'r gwahaniaethau annheg o ran cyffredinrwydd salwch a chanlyniadau iechyd a welwn yn ein cymunedau heddiw. Rydym yn anelu at roi gofal a thriniaeth ragorol i bobl pan fydd ei angen arnynt, ble mae ei angen arnynt; gofal sy'n cymharu'n dda â'r gorau yn y byd, ond i wneud hynny, mae angen i ni drawsnewid sut rydym yn darparu gwasanaethau dros y degawd nesaf a thu hwnt.

Rydym yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan werthoedd a bydd ein nodau'n cael eu gwireddu dim ond os yw ein gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn, wedi'u creu gan gydweithwyr, cleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

O fewn y Strategaeth ddiwygiedig, rydym wedi gosod pedwar amcan strategol, a bydd eu cyflawni yn ein galluogi i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer iechyd gwell a gofal rhagorol.

Y rhain yw:

Er mwyn cyflawni ein strategaeth byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n gyfranogol. Mae hyn yn golygu galluogi a grymuso pobl i fod yn rhan o lunio ein cynlluniau a chymryd rôl weithredol yn eu gofal a'u hiechyd fel partneriaid cyfartal.
fel partneriaid cyfartal. Bydd cydgynhyrchu wrth wraidd sut rydym yn gwella ein gwasanaethau a byddwn yn gweithredu ar adborth rheolaidd ac amserol gan y rhai sy'n defnyddio ac yn darparu ein gwasanaethau. Byddwn yn mynd ati i geisio cyfranogiad ein partneriaid wrth gynllunio a darparu gwasanaethau – mae hyn yn cynnwys pawb sy'n gweithio yn y Bwrdd Iechyd, partneriaid y GIG, awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector, a phartneriaid prifysgol. Byddwn yn cymryd rhan effeithiol yn y partneriaethau ffurfiol yr ydym yn aelodau ohonynt – Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) Caerdydd a Bro Morgannwg a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd a Bro Morgannwg, ein partneriaethau cynllunio a darparu gwasanaethau rhanbarthol (byrddau iechyd De-ddwyrain Cymru ac, ar gyfer gwasanaethau trydyddol ac arbenigol, ein partneriaeth




**Delwedd 3 – Amcanion Strategol BIPCaF**

â BIP Bae Abertawe), Prifysgol Caerdydd, a phartneriaethau comisiynu cydweithredol fel y Cydbwyllgor Comisiynu sydd wedi disodli Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC).

Bydd Atal wrth wraidd ein llwybrau gofal; atal salwch yn y lle cyntaf, ymyrryd yn gynnar a mynd i'r afael â dirywiad y gellir ei atal pan geir diagnosis o gyflwr iechyd. Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n rhagweld anghenion pobl, gan ddefnyddio data amser real integredig i gynllunio a darparu cynlluniau gofal iechyd a thriniaeth bersonol ar gyfer y teulu cyfan, a defnyddio deallusrwydd yn gywir i ddarogan newid yn y galw i'n helpu i gynllunio a rheoli ein gwasanaethau yn y dyfodol.

## 2.8 Ymchwil a Datblygu

Mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o'i ddynodiad statws Prifysgol hirsefydlog a'i hanes o ddarparu ymchwil a datblygu clinigol arloesol o ansawdd uchel. Mae hyn yn cadarnhau un o egwyddorion craidd strategaeth barhaus y GIG a'r Bwrdd Iechyd, sef i gofleidio ymchwil a datblygu ac arloesedd i gynhyrchu gwybodaeth newydd a sbarduno newid a thrawsnewid o fewn gofal iechyd.

Mae gan Gaerdydd a'r Fro y portffolio ymchwil mwyaf yng Nghymru, gan agor 198 o astudiaethau newydd 'a gynhelir' eleni. Mae ein perfformiad yn well o lawer na Byrddau Iechyd Prifysgol eraill yng Nghymru ac yn cyfrif am oddeutu 40% o'r holl recriwtio yng Nghymru. Fodd bynnag, credwn fod gennym fel sefydliad y potensial i gyflawni llawer mwy.

### Alinio â Blaenoriaethau Clinigol

Gan adeiladu ar ein partneriaeth gyda Therapïau Datblygedig Cymru (ThDC) a Chanolfannau Triniaeth Therapi Datblygedig (CTThD) Cymru a Chanolbarth Lloegr, mae Caerdydd a'r Fro yn parhau i feithrin y capasiti a'r gallu i gyflawni ymchwil yn y maes hwn, gan arwain y ffordd i sefydliadau eraill yng Nghymru. Arbenigedd lleol o fewn oncoleg a niwroleg oedd y prif sbardun ar gyfer y gwaith hwn, fodd bynnag, mae'r portffolio yn datblygu i feysydd fel ffibrosis systig, cardioleg a llawfeddygaeth.

Cyflwynodd y portffolio Niwro-lawdriniaeth dan arweiniad yr Athro Liam Gray dreial therapi genynnau AMT-130 mewn Clefyd Huntington. Fel yr unig ganolfan yn y DU, cafodd cyfanswm o 4 claf eu trin rhwng Mehefin 2022 a Medi 2024. Ar sail lwyddiannus y treial hwn, mae'r tîm wedi'i ddewis fel safle ar gyfer therapi genynnau ar gyfer clefyd Parkinson a dementia a fydd yn agor i gleifion yn ystod 2025/26.

Un cydweithrediad pwysig i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach yw'r un gyda Chanolfan Ymchwil Canser Caerdydd sy'n gydweithrediad rhwng BIPCaF, Canolfan Ganser Felindre a Phrifysgol Caerdydd. Mae cleifion wedi cael eu recriwtio a'u trin yn llwyddiannus mewn astudiaethau tiwmor solet a Haematoleg gyda nifer o dreialon yn cael eu sefydlu wrth i'r portffolio ymchwil adeiladu ar draws y 3 sefydliad gan ddarparu mynediad ehangach i dreialon cam cynnar risg ganolig ac uchel a therapïau celloedd datblygedig ond hefyd y cyfle i ddatblygu therapïau 'o'r fainc i'r gwely', gwrth-drosi a diagnosteg newydd.

### Cyfleoedd Diwydiant

Mae gan Gaerdydd a'r Fro lawer o gysylltiadau cryf â phartneriaid yn y diwydiant, yn cynhyrchu dros

£3 miliwn o incwm masnachol i'w ailfuddsoddi mewn cefnogi ymchwil.

Gan ddefnyddio buddsoddiad y diwydiant a'r bwrdd iechyd, mae BIP Caerdydd a'r Fro yn arwain ar raglen frechu i Gymru gyda chanolfan frechu wedi'i lleoli yn y Cyfleuster Ymchwil Glinigol. Cafodd y tîm eu canmol am gyflawni astudiaeth brechlyn Norofeirws Moderna, gyda sylw'n cael ei dynnu at yr astudiaeth effeithlon a sefydlwyd a'u cyflawniadau prydlon yn unol â'r targed.

### Ymchwil Arweiniol

Eleni mae ymchwilwyr Caerdydd a'r Fro wedi parhau i gyflawni llwyddiant wrth sicrhau grantiau mawr gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR) gyda Chanolfan Prifysgol Caerdydd ar gyfer Ymchwil Treialon, y dyfarnwyd Grant Asesu Technoleg Iechyd NIHR o £1.2 miliwn iddo i gynnal yr Astudiaeth EXCISE. Mae hyn yn cynnwys archwilio gwrthfiotigau ar gyfer toriadau llawdriniaeth canser y croen wlseraidd: hap-dreial rheoledig dylunio 'hydoedd' aml-gangen pragmatig. Bydd yr astudiaeth yn agor ar draws sawl safle yn y DU yn 2025.

Hefyd mae 9 prosiect ymchwil dan arweiniad ymchwilwyr wedi'u datblygu a'u sefydlu eleni gan staff Caerdydd a'r Fro. Y gobaith yw y bydd y llwyddiant yn parhau i dyfu gyda chefnogaeth y Swyddfa Ymchwil ar y Cyd a chydweithrediad gyda'n partneriaid academaidd.

## 2.9 Arloesi a Phartneriaethau

Mae'r straen ar wasanaethau gofal iechyd yn parhau'n ddwys a real iawn, gan roi ein cydweithwyr sy'n ymdrechu i ddarparu gwasanaethau dan bwysau parhaus, gan weithiau

gynyddu lefelau o ansicrwydd a phryder i'n cleifion a'u cylch cymorth, yn anffodus iawn.
Yng ngoleuni hyn, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Tîm Arloesi'r Bwrdd Iechyd wedi edrych nid yn unig i gyflawni prosiectau a mentrau presennol, ond hefyd i nodi cyfleoedd i ddatblygu cydweithrediadau a phartneriaethau newydd. Rhoddir enghreifftiau o'r rhain isod - mae rhai ohonynt yn brosiectau aml-flwyddyn gweithredol ac eraill ar gam mwy ffurfiannol.

## Partneriaethau Lleol a Chenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ddarparu cefnogaeth weithredol i weithgareddau sy'n canolbwyntio ar ofal iechyd, sy'n gysylltiedig ag arloesedd ac sy'n cyd-fynd â pholisi a chynlluniau gweithredu'r Llywodraeth.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer arloesi ynghyd ag offer a deunyddiau hyfforddi cysylltiedig sydd wedi bod ar gael ar wefan Arloesi Cymru Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru o fis Mawrth 2025.

Yn lleol, mae'r pwyslais wedi bod ar gyflawni prosiectau cyffrous ac mae timau wedi cyfathrebu a chysylltu â chydweithwyr sy'n ymwneud â chyflawni newid a thrawsnewid o fewn y sefydliad, gan gynnwys:

Yr Her Endosgopi, a ariannwyd gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, a oedd yn anelu at helpu i leihau rhestrau aros gwasanaethau endosgopi. Mae bellach wedi symud ymlaen i Gam 3 gydag Endosgopau IQ (IQE) yn dechrau'r cam cynhyrchu endosgop untro. Mae'r Ganolfan Gwerthuso Gofal Iechyd, Asesu Dyfeisiau, ac Ymchwil (CEDAR), a gynhelir gan y Bwrdd Iechyd, wedi bod yn gweithio gyda chlinigwyr a




*Llun 4 - Endosgopau IQ: Enillydd Gwobr 'Partneriaeth gyda'r GIG' MediWales*

thimau gwasanaeth i helpu i lywio datblygiad cynhyrchion. Maent wedi nodi meysydd a chymwysiadau a fyddai'n cyflawni
budd clir ac effaith gadarnhaol, fel gallu ymgymryd â gweithdrefnau endosgopig risg isel arferol y tu allan i ystafelloedd endosgopi pwrpasol, efallai hyd yn oed mewn lleoliad cymunedol, a thrwy hynny ategu'r systemau amldro.
Y gwaith hwn oedd enillydd y wobr 'Partneriaeth gyda'r GIG' yng Ngwobrau MediWales ym mis Rhagfyr 2024.

Enillodd y Bwrdd Iechyd hefyd 'Wobr Beirniaid y Diwydiant' am waith y tîm Iechyd Plant, mewn partneriaeth â Virtual Ward Technologies, am ddefnyddio offer gwisgadwy i helpu plant targedig â BMI uchel i gadw'n ymgysylltiedig a rheoli eu pwysau yn well.

Cymerodd y Bwrdd Iechyd ran mewn gwaith a ariannwyd gan SBRI Cymru i ddatblygu system i leihau effaith amgylcheddol nwy ocsid nitraidd ('nwy ac aer' sy'n cael ei ddefnyddio'n aml fel math o leddfwr poen, yn enwedig mewn ystafelloedd esgor mamolaeth). Roedd y prosiect, a gefnogwyd ac a reolwyd yn arbenigol gan dîm SBRI Cymru, yn llwyddiant gydag e-Breathe yn cynhyrchu system prototeip a brofwyd yng nghyfleusterau GIG Cymru, gan gynnwys mewn ystafell esgor yn y Ysbyty Athrofaol Cymru, gydag adborth cadarnhaol gan staff a mamau beichiog. Mae'r system bellach ar gael yn fasnachol.

## Edrych tua'r dyfodol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i archwilio cyfleoedd yn y maes gwyddor iechyd academaidd drwy raglen bartneriaeth newydd.

Y nod yw creu Ardal Arloesi Ranbarthol, o gwmpas calon Caerdydd, i ysgogi arloesedd, ymchwil ac addysg gydweithredol i wella canlyniadau cleifion a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

# Rhan 1
# **Adroddiad Perfformiad**

# 3. Newidiadau Gwasanaeth Allweddol a gyflawnwyd yn 2024-2025

## 3.1 Cyflwyniad

Amlinellodd y Bwrdd Iechyd ei uchelgeisiau perfformiad fel rhan o'n cynllun blynyddol a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2024. Yn unol â'n cyflwyniad yn y flwyddyn flaenorol, gwnaethom osod ein cynllun blynyddol o fewn cyd-destun tair blynedd wrth i ni geisio cryfhau ac adeiladu ar y sylfeini rydyn ni wedi'u gosod. Mae ein pwyslais wedi parhau i fod ar sicrhau bod ansawdd a gwerth yn sail i'n dull gweithredu ac er gwaethaf blwyddyn heriol rydym yn falch o'r perfformiad a'r gofal
rydym wedi'u darparu a'u cyflawni ar draws llawer o'n gwasanaethau. Mae'r adran trosolwg perfformiad yn manylu ar lawer o'n cyflawniadau, ochr yn ochr â'n heriau a'n risgiau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

## 3.2 Datganiad gan y Prif Weithredwr

Cafodd ein perfformiad sefydliadol yn ystod 2024-25 ei ategu gan ein dull o flaenoriaethu a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Trwy'r dull hwn mae'r cleifion hynny y mae angen gwasanaethau brys ac argyfwng arnynt yn cael eu blaenoriaethu. Ein hail faes ffocws blaenoriaethol yw'r cleifion hynny y mae angen gofal amser-gritigol arnynt, gan gynnwys triniaeth ar gyfer canser. Ein trydydd ffocws blaenoriaethol wedyn yw gwasanaethau wedi'u cynllunio a dewisol. Trwy gymhwyso parhaus a chyson, mae cleifion yng Nghaerdydd a'r Fro unwaith eto wedi aros llai o amser am ambiwlans ar gyfartaledd, wedi treulio llai o amser yn ein hadran achosion brys ac wedi derbyn triniaeth canser yn gyflymach nag mewn rhannau eraill o Gymru.

## Cymru Iachach - fel cyd-destun polisi cyffredinol

Mae Cymru Iachach yn nodi gweledigaeth hirdymor y dylai pawb yng Nghymru gael bywydau hirach, iachach a hapusach. Mae'n cynnig dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol sy'n deg, a lle mae gwasanaethau wedi'u cynllunio o amgylch unigolion a grwpiau yn seiliedig ar eu hanghenion unigryw a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â chanlyniadau ansawdd a diogelwch. Mae cyflwyno'r ethos hwn wedi parhau i fod yn rhan annatod o'n gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau ac mae wedi bod yn sail i greu ein strategaeth 'Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol hyd at 2035'.

## Iechyd y boblogaeth

Mae ein hymrwymiad i wella iechyd y boblogaeth wedi'i lunio o amgylch ein cynllun ‘Llunio Iechyd Ein Poblogaeth i'r Dyfodol’. Cyhoeddwyd y cynllun hwn ym mis Chwefror 2022, ac mae wedi ein helpu i nodi dull systemau o nodi a mynd i'r afael â materion iechyd y boblogaeth nawr ac yn y dyfodol, gwella iechyd, atal afiechyd, a lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd ymhlith preswylwyr a chymunedau yn ein hardal.

## Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol

Mae gwasanaethau Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol wedi gweld cynnydd sylweddol eto mewn atgyfeiriadau dros y flwyddyn ddiwethaf. Er gwaethaf hyn mae ein perfformiad yn erbyn y safonau craidd ar gyfer asesu a thriniaeth wedi gwella'n raddol trwy gydol y flwyddyn ar gyfer oedolion a phlant. Mae gwasanaethau niwroddatblygiad yn parhau i fod ag arosiadau hir am asesiad; mae hyn yn duedd a welir ledled y DU ac rydym wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn

GIG Cymru i ddatblygu cynlluniau ar gyfer dull mwy cynaliadwy wrth symud ymlaen.

### Cefnogi'r gweithlu iechyd a gofal

Mae iechyd a lles ein pobl yn parhau i fod o'r pwys mwyaf. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi a gwella lles ein pobl. Ein huchelgais o hyd yw gwneud y Bwrdd Iechyd yn lle gwych i weithio, dysgu a hyfforddi, ac rydym yn parhau i wneud cynnydd o ran ymgorffori'r uchelgeisiau a nodir yn ein Cynllun Pobl a Diwylliant a lansiwyd yn 2022.

### Cyllid y GIG a rheoli o fewn adnoddau

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi rheoli ei adnoddau ariannol yn ystod blwyddyn ariannol 2024/2025.

### Gweithio ochr yn ochr â Gofal Cymdeithasol

Dim ond drwy waith partneriaeth agos a chefnogol y gellir mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu ein system Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal ei drefniadau ar y cyd gyda'n hawdurdodau lleol partner ar draws lefelau gweithredol a strategol a'r Weithrediaeth. Mae aeddfedrwydd parhaus ein Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnig manteision ar draws ein system Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda llwyddiant penodol wrth ddatblygu ac ehangu cynlluniau i gefnogi preswylwyr ledled Caerdydd a'r Fro yn ystod misoedd y gaeaf.

## 3.3 Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI)

Yng Nghymru ac ar draws y DU, rydym yn gweithredu o fewn yr amgylchiadau mwyaf heriol y mae'r GIG wedi'u hwynebu ers ei sefydlu. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i etifeddiaeth Covid a Brexit, yr amgylchedd economaidd anwadal, effaith yr argyfwng costau byw ar ein staff a'n preswylwyr, a'r galw cynyddol ar ein gwasanaethau.

Roedd ein cynllun ar gyfer 2024/25 yn gynllun blynyddol a osodwyd mewn cyd-destun tair blynedd, oherwydd ni fu'n bosibl i ni gyflawni'r lefel o arbedion cylchol a nodwyd gennym yn ein cynllun ar gyfer 2023/2024 na lliniaru pwysau cost cynyddol.

Gosodwyd ein Cynllun Blynyddol 2024/2025 yng nghyd-destun ein Strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol ac fe'i haliniwyd hefyd â'r blaenoriaethau allweddol o fewn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, gan ganolbwyntio ar wella mynediad at wasanaethau sylfaenol a chymunedol, cyflawni gwelliannau i wasanaethau gofal brys ac argyfwng drwy'r rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, canolbwyntio ar wella amseroedd aros i'r rhai sydd angen gofal wedi'i gynllunio, a chanolbwyntio ar gyflawni gwelliannau iechyd meddwl.

Roedd y cynllun yn nodi ein cynlluniau wedi'u halinio â galluogwyr craidd fel gwaith rhanbarthol a phartneriaeth, trawsnewid digidol a gwelliannau seilwaith. Llywiwyd ein cynllun gan y Clwstwr Gofal Sylfaenol a'r Cynlluniau Traws-Glwstwr, ar y cyd ag asesiadau anghenion poblogaeth Caerdydd a

Bro Morgannwg ac asesiadau Lles y ddwy ardal awdurdod lleol i sicrhau ein bod yn cyflawni canlyniadau sy'n bwysig i'n poblogaeth. Mae'r rhain yn amlygu anghenion iechyd penodol ein poblogaeth ac yn cael eu hategu gan y proffiliau anghenion ar gyfer ein tair ardal leol. Wedi'i alinio â hyn, gwnaethom ddatblygu set o fwriadau comisiynu y mae ein cynllun yn ymateb iddynt.

Yn yr un modd, mae ein Cynllun Blynyddol yn ymateb i ofynion comisiynu ein byrddau iechyd cyfagos a'r Cydbwyllgor Comisiynu ar gyfer y gwasanaethau arbenigol a thrydyddol rydym yn eu darparu ar gyfer eu poblogaethau a'u cleifion.

Mewn ymateb i Gynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o Amodau Atebolrwydd sydd angen eu bodloni ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i egwyddorion datblygu cynaliadwy "Pum Ffordd o Weithio" Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (fel a ganlyn) fod yn ganolog i ddull gweithredu'r Bwrdd Iechyd.

## Pum Ffordd o Weithio




**Delwedd 5 – Yr Egwyddorion Pum Ffordd Gynaliadwy o Weithio**

## 3.4 Arfarniad Perfformiad ac Asesu

Nodweddwyd perfformiad cyffredinol y Bwrdd Iechyd gan nifer o welliannau mewn mynediad ac ansawdd mewn perthynas â llwybrau iechyd brys ac argyfwng, arbenigol a meddyliol ochr yn ochr â heriau parhaus mewn gwasanaethau gofal a gynllunnir. Mae cyflawni gwelliannau, er gwaethaf effaith cyfnodau parhaus a sylweddol o weithredu diwydiannol, yn rhoi sicrwydd bod y sefydliad yn symud ymlaen tuag at ei amcanion, er bod hynny ar gyfradd arafach na'r bwriad gwreiddiol. Mae heriau ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn enwedig mewn perthynas â phwysau ar y gweithlu a gostyngiad mewn capasiti gofal cymdeithasol, wedi bod yn anodd iawn eu goresgyn. Er mwyn lliniaru'r rhain cystal â phosibl, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio cadw ein ffocws ar ansawdd a gonestrwydd bob amser.

Er mwyn asesu ein perfformiad, rydym wedi adolygu ein cyflawniad yn erbyn Blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet eleni. Er bod perfformiad wedi bod yn unol â'n hymrwymiad mewn rhai meysydd, mae wedi syrthio y tu ôl mewn meysydd eraill, yn enwedig mewn perthynas â pherfformiad gofal wedi'i gynllunio, ac mae ein huchelgeisiau diwygiedig yn rhan ganolog o'n cynllun blynyddol ar gyfer 2025/26.

## 3.5 Perfformiad Ariannol Tueddiadau

Mae gan y Bwrdd Iechyd rwymedigaeth statudol i aros o fewn ei adnoddau ar fesur treigl tair blynedd.
Ni chyrhaeddwyd y targed yn 2022-23 wrth i'r cyllid pandemig Covid ostwng ar adeg pan roedd yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd ymdopi â phwysau chwyddiant a phwysau systemau, a achoswyd yn rhannol gan etifeddiaeth y pandemig Covid-19. Yn 2023-24, o ganlyniad i'r pwysau sylweddol a wynebodd y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn wrth iddo barhau i ddarparu gwasanaethau o ôl troed gweithredol a oedd yn dal i fod wedi'i gynllunio'n bennaf i fynd i'r afael â gofynion Covid a rheoli heintiau, ni chafodd y ddyletswydd ariannol ei bodloni.

Ni chafodd y Targed ei gyrraedd eto yn 2024-25 o ganlyniad i bwysau parhaus o fewn y Bwrdd Iechyd.

Mae datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru 2024-25.

Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y llawlyfr hwnnw yn dilyn Llawlyfr Adrodd Ariannol 2024-25 (FReM) yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006, i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r GIG yng Nghymru.

Mae'r Llawlyfr Cyfrifon yn ei gwneud yn glir y dylid paratoi cyfrifon ar sail busnes hyfyw lle rhagwelir y bydd gwasanaeth yn parhau yn y dyfodol. Mae'r dybiaeth wedi'i gwneud y bydd gwasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i weithredu. O ganlyniad, mae'r sail busnes hyfyw wedi'i mabwysiadu.

## Perfformiad yn erbyn y ddyletswydd meintoli ariannol 3 blynedd

| | Gwarged / (diffyg) sefyllfa diwedd blwyddyn £'m | Gwarged / (diffyg) dyletswydd mantoli 3 blynedd treigl £'m | Pasio neu fethu dyletswydd ariannol |
|---|---|---|---|
| 2014/15 | (21.364) | dd/b | dd/b |
| 2015/16 | 0.068 | dd/b | dd/b |
| 2016/17 | (29.243) | (50.539) | Methu |
| 2017/18 | (26.853) | (56.028) | Methu |
| 2018/19 | (9.872) | (65.968) | Methu |
| 2019/20 | 0.058 | (36.667) | Methu |
| 2020/21 | 0.090 | (9.724) | Methu |
| 2021/22 | 0.232 | 0.380 | Pasio |
| 2022/23 | (26.789) | (26.467) | Methu |
| 2023/24 | (16.404) | (42.961) | Methu |
| 2024/25 | (27.627) | (70.820) | Methu |

| | 2020-21 £'000 | 2021-22 £'000 | 2022-23 £000 | 2023-24 £000 | 2024-25 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Net operating costs for the year** | 1,220,369 | 1,228,135 | 1,309,705 | 1,388,556 | 1,536,764 |
| Less general ophthalmic services expenditure and other non-cash limited expenditure | (13,386) | (14,237) | (13,361) | (13,794) | (13,833) |
| Less unfunded revenue consequences of bringing PFI schemes onto SoFP | (1,028) | (222) | (222) | (222) | (222) |
| Total operating expenses | 1,205,955 | 1,213,676 | 1,296,122 | 1,374,540 | 1,522,709 |
| Revenue Resource Allocation | 1,206,045 | 1,213,908 | 1,269,333 | 1,358,136 | 1,495,082 |
| **Under/(over) spend against Allocation** | **90** | **232** | **(26,789)** | **(16,404)** | **(27,627)** |



## Terfyn Adnoddau Cyfalaf

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymdopi o fewn ei ddyraniad Adnoddau Cyfalaf blynyddol trwy reolaeth ragweithiol Grŵp Rheoli Cyfalaf y Bwrdd Iechyd sy'n goruchwylio cynigion cyfalaf a chynnydd ar brosiectau cyfalaf mawr i ystwytho cynlluniau gwariant yn briodol a defnyddio dyraniad cyfalaf bob blwyddyn yn effeithiol.

| | Capital Resource Limit | Actual year end position surplus / (deficit) £'000 | Rolling 3 year break even duty surplus / (deficit) £'000 | Pass or fail financial duty |
|---|---|---|---|---|
| 2022/23 | 55,410 | 88 | 233 | Pass |
| 2023/24 | 45,603 | 72 | 201 | Pass |
| 2024/25 | 59,156 | 248 | 408 | Pass |

## Perfformiad Taliadau'r Sector Cyhoeddus

Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei darged perfformiad sector cyhoeddus yn 2024-25 a pharhaodd i wella ei gydymffurfiad taliadau'r GIG o fewn y lefel gyffredinol hon o berfformiad.

| Public Sector Payment Performance | 2020-21 Number | 2021-22 Number | 2022-23 Number | 2023-24 Number | 2024-25 Number |
|---|---|---|---|---|---|
| **NHS** | | | | | |
| Total bills paid | 7,488 | 6,314 | 7,864 | 7,305 | 7,382 |
| Total bills paid within target | 6,169 | 5,072 | 6,684 | 6,353 | 6,587 |
| Percentage of bills paid within target | 82.4% | 80.3% | 85.0% | 87.0% | 89.2% |
| **Non-NHS** | | | | | |
| Total bills paid | 286,413 | 306,094 | 362,856 | 313,943 | 280,190 |
| Total bills paid within target | 275,422 | 284,850 | 345,405 | 303,193 | 271,808 |
| Percentage of bills paid within target | 96.2% | 93.1% | 95.2% | 96.6% | 97.0% |
| **Total** | | | | | |
| Total bills paid | **293,901** | **312,408** | **370,720** | **321,248** | **287,572** |
| Total bills paid within target | **281,591** | **289,922** | **352,089** | **309,546** | **278,395** |
| Percentage of bills paid within target | **95.8%** | **92.8%** | **95.0%** | **96.4%** | **96.8%** |

| Public Sector Payment Performance | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 | 2022-23 £000 | 2023-24 £000 | 2024-25 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **NHS** | | | | | |
| Total bills paid | 275,720 | 299,775 | 344,958 | 362,462 | 409,279 |
| Total bills paid within target | 265,247 | 286,700 | 336,633 | 351,782 | 402,149 |
| Percentage of bills paid within target | 96.2% | 95.6% | 97.6% | 97.1% | 98.3% |
| **Non-NHS** | | | | | |
| Total bills paid | 786,048 | 880,894 | 1,024,980 | 1,033,511 | 888,621 |
| Total bills paid within target | 758,016 | 842,548 | 980,609 | 994,919 | 856,160 |
| Percentage of bills paid within target | 96.4% | 95.6% | 95.7% | 96.3% | 96.3% |
| **Total** | | | | | |
| Total bills paid | **1,061,768** | **1,180,669** | **1,369,938** | **1,395,973** | **1,297,900** |
| Total bills paid within target | **1,023,263** | **1,129,248** | **1,317,242** | **1,346,701** | **1,258,309** |
| Percentage of bills paid within target | **96.4%** | **95.6%** | **96.2%** | **96.5%** | **96.9%** |


Public Sector Payment Performance No. of Invoices
100.0%
95.0%
90.0%
85.0%
80.0%
75.0%
70.0%
2020-21
2021-22
2022-23
2023-24
2024-25
NHS
Non-NHS
Total


Public Sector Payment Performance £'000
100.0%
99.0%
98.0%
97.0%
96.0%
95.0%
94.0%
93.0%
2020-21
2021-22
2022-23
2023-24
2024-25
NHS
Non-NHS
Total

**Delwedd 6 - Perfformiad yn erbyn Mesurau Blaenoriaeth Ysgrifennydd y Cabinet**

| Cabinet Secretary Priority | Measure | National Standard | C&V Commitment | Performance |
|---|---|---|---|---|
| Enhanced Community Care | Number of delayed transfers of care | Reduce vs. previous year | Reduce vs. previous year | March 2025 = 23% reduction ✅ |
| Primary and Community Care | GP practices achieving core access standards | 100% | 100% | Performance regularly met 100% ✅ |
| | General Dental Services % of contract value fulfilled | 100% | 100% | >99% achieved ✅ |
| Urgent and Emergency Care | 12 hour emergency department waits | 40% reduction (March 25) | 40% reduction | Increased vs. 23/24 ❌ |
| | 1-hour ambulance handover delays | 30% reduction (December 24) | 30% reduction | Increased vs. 23/24 ❌ |
| Mental Health | <28 day waits for intervention % (under 18s) | 80% | 80% | 99% ✅ |
| | <28-day waits for intervention (over 18s) | 80% | 80% | 100% ✅ |
| Planned Care and Cancer | >52 week new outpatient waits | 0 (March 25) | 15925 | 15725 – met C&V commitment, not national standard |
| | >104 week treatment waits | 0 (December 24) | 1326 (revised to 1800) | 1615 – met revised C&V commitment, not national standard |
| | 62-day single cancer pathway % | 70% (March 25) | 70% | 64.4% February 2025 ❌ |
| | >8 week diagnostic waits | >5% (December) | 14796 | 13825 – met C&V commitment, not national standard |

## 3.6 Dadansoddiad Cyflawni a Pherfformiad

### 3.6.1 Dadansoddiad Perfformiad Gweithredol

### Gofal Brys ac Argyfwng

Mae gwelliannau i'n llwybrau Gofal Brys ac Argyfwng wedi parhau i fod yn ganolog i'n hymdrechion eleni. Mae ein Rhaglen 6 Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng wedi trosglwyddo i strwythur rhaglen sy'n rhoi pwyslais cyfartal ar ein gwasanaethau y tu mewn a’r tu allan i'r ysbyty.

Mae timau gofal sylfaenol a chymunedol yn parhau i fod yn sylfaen i'n system gofal brys ac argyfwng. Yn ystod 2024/25 cyflawnodd y Bwrdd Iechyd dros 210,000 o ymweliadau nyrsio ardal sydd wedi helpu i gefnogi ein cleifion i gael gofal yn eu man preswyl arferol. Rydym wrth ein bodd bod ein model Diogel yn y Cartref newydd, a lansiwyd ar ddechrau 2024, wedi mynd o nerth i nerth ac amcangyfrifir bellach ei fod wedi osgoi dros 7000 o ddiwrnodau gwely trwy ddarparu cymorth amlddisgyblaethol i gleifion yn y gymuned.

Rydym wedi parhau i gefnogi gofal sylfaenol gyda Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys (CGSB) gan ddarparu capasiti ychwanegol gwerthfawr i helpu i wella mynediad i gleifion ac i leddfu'r pwysau ar feddygfeydd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC).

Mae gweithio gyda phartneriaid ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi parhau i fod o'r pwysigrwydd sefydliadol uchaf. Mae gweithio mewn partneriaeth wedi'i wreiddio drwy'r Bwrdd Iechyd ac mae'n cynnwys cyfarfodydd gweithredol dyddiol gyda'r Awdurdod Lleol a Gwasanaethau Rhyddhau Integredig.  Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gennym

163 o gleifion a oedd wedi gweld oedi wrth drosglwyddo o'r ysbyty, gostyngiad sylweddol ar y 221 yn y flwyddyn flaenorol.

Yn dilyn ad-drefnu ein hadrannau achosion brys a'n hunedau asesu yn llwyddiannus yn 2024/25, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i fod yn eithriad cadarnhaol yng Nghymru mewn perthynas â pherfformiad trosglwyddo ambiwlansys. Yn yr un modd, rydym yn parhau i weld cyfran is o gleifion yn aros dros 12 awr yn ein hadrannau brys. Er y perfformiad cymharol gadarnhaol hwn, gwelsom gynnydd yn rhai o'n hamseroedd aros wrth i alw ychwanegol ac aciwtedd uwch cleifion effeithio ar ein perfformiad.

Wrth i ni symud ymlaen ac edrych tuag at 25/26, bydd ein rhaglen 6 nod yn talu sylw ychwanegol i wella llif yn yr ysbyty a lleihau'r amser y mae cleifion yn ei dreulio yn yr ysbyty. Gan alinio â'r rhaglenni cenedlaethol, gan gynnwys y Fframwaith Llif Ysbyty Optimaidd, rydym wedi ymrwymo i leihau'r hyd arhosiad cyfartalog ar draws ein wardiau meddygaeth yn sylweddol.

Mae ein perfformiad yn rhai o'r llwybrau brys allweddol wedi bod yn amrywiol yn 2024/25 ac mae'n parhau i fod yn faes ffocws wrth symud ymlaen. Ar gyfer toriadau clun rydym wedi cynnal i raddau helaeth y cynnydd a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn perfformio'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn barhaus. Ar y llaw arall, o fewn ein llwybr strôc mae ein perfformiad yn erbyn mesurau fel y derbyniad 4 awr i wardiau wedi gostwng gyda rhywfaint o welliant tua diwedd y flwyddyn. Dechreuodd ein cynllun gwella strôc acíwt, gan gynnwys cynnydd yn y gweithlu meddygol a nyrsio, ym mis Ionawr 2025 a byddwn yn gweithio'n galed i wella perfformiad yn y maes hwn trwy'r flwyddyn i ddod.

**Delwedd 7 – Derbyn i Ward Strôc o fewn 4 awr**




**Delwedd 8 – Cleifion strôc sy'n cael sgan CT o fewn 1 awr**




Mae Delwedd 9 yn dangos y gwelliant sydd wedi'i gynnal i sicrhau bod cleifion sydd wedi torri eu clun yn cael eu derbyn i'r ward o fewn 4 awr. Mae'r graff yn dangos bod ein perfformiad bob mis wedi bod yn llawer gwell na'r cyfartaledd o blith yr ysbytai sy'n perfformio orau ledled y DU yn y mesur hwn.

**Delwedd 9 – Cleifion toriadau clun sy'n cael eu derbyn i ward o fewn 4 awr**



## Canser

Mae darparu gofal canser rhagorol ac amserol yn ffocws gweithredol allweddol ac rydym unwaith eto’n falch o fod y Bwrdd Iechyd sy'n perfformio orau, gyda'r nod o ddechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod ar ôl atgyfeiriad. Er nad ydym yn cwrdd â'n huchelgais eithaf i fod yn gyson uwch na 75%, rydym wedi bod o flaen ein targed am y rhan fwyaf o'r flwyddyn gan gyflawni dros 70% ym mis Medi a mis Hydref 2024. Ein ffocws wrth symud ymlaen yw sicrhau bod gan ein timau y gallu a'r llwybrau arfer gorau sydd eu hangen i gyflawni ein huchelgais yn gyson.

**Delwedd 10 – triniaeth cleifion canser o fewn 62 diwrnod**




## Gofal wedi'i Gynllunio a Diagnosteg

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar leihau amseroedd aros i gleifion ar draws gofal wedi'i gynllunio ac rydym yn falch, er y sefyllfa weithredol heriol, fod ein amseroedd rhestr aros bellach ar y pwynt isaf ers 2021. Er y gwelliant hwn rydym yn deall yn iawn fod cleifion yn dal i aros yn rhy hir ac mae angen i ni barhau â'n hymdrechion i sicrhau bod cleifion yng Nghaerdydd a'r Fro yn cael eu hasesu, eu diagnosio a'u trin mewn modd amserol.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2025 roedd 151,226 o gleifion ar restr aros Atgyfeirio am Driniaeth. Mae hwn yn gynnydd cyffredinol o oddeutu 4,000 o gleifion o gymharu â mis Mawrth 2024. Mae nifer y plant ar restr aros

Atgyfeirio am Driniaeth wedi cynyddu o 10,697 ym mis Mawrth 2024 i 11,108 ym mis Mawrth 2024. O ran y cleifion sy'n aros hiraf, gostyngodd y Bwrdd Iechyd nifer y cleifion sy'n aros dros 2 flynedd am driniaeth i 1,615 ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn is na'r 4,800 gwreiddiol yr oeddem yn ei ragweld yn wreiddiol wrth ddatblygu ein cynllun blynyddol ac yn is na'r 2,681 o gleifion a oedd wedi aros dros 2 flynedd ddiwedd mis Mawrth 2024.

Yn unol â’r rhagolwg, mae cynnydd yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na 52 wythnos am apwyntiad claf allanol newydd a bydd lleihau'r nifer hwn yn ffocws, ac yn her, i'n cynllun gofal arfaethedig ar gyfer 2025-26.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am ein perfformiad amseroedd aros yn nelweddau 11 a 12 isod.

**Delwedd 11 – nifer y cleifion sy'n aros mwy na 52 wythnos am apwyntiad claf allanol newydd**




**Delwedd 2 - nifer y cleifion â chyfanswm arhosiad o fwy na dwy flynedd**




Mae aros am brofion diagnostig yn un maes lle nad ydym wedi darparu'r gofal prydlon rydym yn anelu ato i'n cleifion. Er ein bod wedi rhagweld yr her hon, a bod ein perfformiad wedi bod o flaen ein targed, mae gennym ormod o gleifion yn aros dros 8 wythnos.
Mae rhai o'n harosiadau hiraf o fewn ein gwasanaeth uwchsain anobstetrig ac rydym yn falch o fod wedi datblygu cynllun i leihau'r rhain dros y flwyddyn nesaf. Mae endosgopi hefyd yn arbenigedd sy'n wynebu her sylweddol gyda'n capasiti yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cleifion gwyliadwriaeth canser, brys ac arhosiad hir. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid rhanbarthol ac ar y cyd â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i roi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn wrth symud ymlaen.

**Delwedd 13 – Arosiadau Diagnostig**




Mae Delwedd 14 yn dangos y gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na 14 wythnos am therapïau, sydd wedi gostwng o 1,337 ym mis Mawrth 2024 i 384 ym mis Mawrth 2025

**Delwedd 14 - Arosiadau therapi >14 wythnos**




## Iechyd Meddwl

Mae'r galw am Wasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion a Phlant wedi parhau i fod yn uchel, er enghraifft roedd nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau oedolion dros Ionawr-Mawrth 2025 yr uchaf erioed, mewn mis sydd yn draddodiadol yn gweld cyfraddau atgyfeirio is na'r cyfartaledd. Trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf gweithiodd ein timau'n galed i adfer perfformiad a oedd islaw'r safon o ran amseroedd asesu; roeddem yn falch iawn o ddychwelyd i'r safon ym mis Chwefror 2025, fodd bynnag, rydym yn rhagweld blwyddyn heriol arall oherwydd y galw.

O fewn Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant, gwnaethom osod llwybr i adfer ein perfformiad ymyrraeth 28 diwrnod, a chyflawnwyd hyn ym mis Medi 2024 ac mae wedi'i gynnal.

**Delwedd 15 – Safon asesu 28 diwrnod oedolion**




**Delwedd 16 – Perfformiad Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant**




Mae gwasanaethau niwroddatblygiadol yn darparu asesiad amlddisgyblaethol, ymyrraeth, gwybodaeth a chyngor i blant a phobl ifanc a allai fod ag anhwylder niwroddatblygiadol, a'u teuluoedd. Ers dechrau'r pandemig mae'r atgyfeiriadau at y gwasanaethau hyn wedi cynyddu'n sylweddol ac mae hyn wedi arwain at gleifion yn aros amser hir i gael eu hasesu. Mae ein timau wedi gweithredu nifer o welliannau yn 2024 ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r rhaglenni cenedlaethol, ond mae ein hamseroedd aros yn parhau i fod yn heriol.

**Delwedd 17 – Rhestr Aros a Symiau Niwroddatblygiad (Plant)**




Mae gwasanaethau Therapi Seicolegol wedi gweld sefydlogi yn nifer y cleifion ar eu rhestrau aros, a chynnydd yng nghyfran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos am apwyntiad.

**Delwedd 18 – Amseroedd Aros Therapi Seicolegol**




## Gofal Sylfaenol a Chymunedol wedi'i Gynllunio

Mae'r pwysau o fewn gofal sylfaenol a chymunedol wedi parhau yn unol â blynyddoedd blaenorol ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i flaenoriaethu darparu gwasanaethau yn y gymuned fel rhan o'n hymgyrch i ddarparu gofal yn agosach at y cartref i gleifion. Rydym yn falch o adrodd bod nifer y practisau meddygon teulu sy'n adrodd lefelau uchel o gynnydd wedi gostwng yn ystod y misoedd diwethaf ac rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr gofal sylfaenol i wella gofal i'n preswylwyr.

Mae rhai mesurau perfformiad allweddol yn cynnwys:

1. 100% o'r holl fferyllfeydd cymunedol cymwys yn darparu Gwasanaethau Fferylliaeth Gymunedol Glinigol
2. 100% o'r holl fferyllfeydd yn darparu Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol
3. 100% o feddygfeydd yn cyflawni'r safonau mynediad craidd (mewn oriau)
4. 99% o symiau contractau deintyddol yn cael eu cyflawni
5. Dros 40000 o ymweliadau nyrsys cymunedol

## 3.7 Dadansoddiad Perfformiad Ansawdd

Mae ansawdd wrth wraidd popeth a wnawn - rhaid i'n gwasanaethau fod yn ddiogel i'n cleifion a darparu profiad a chanlyniadau da i gleifion. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gennym bwyslais allweddol ar ansawdd yn y gwasanaethau a ddarparwn ac rydym yn creu diwylliant sy'n ymrwymedig i ddysgu a datblygiad sefydliadol parhaus drwy fesur arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gyflawni gwelliannau amlwg mewn gofal cleifion.

### Archwiliad Clinigol

Mae BIP Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i ddarparu archwiliad clinigol effeithiol yn yr holl wasanaethau clinigol y mae'n eu darparu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried archwilio clinigol yn hanfodol i esblygu, datblygu a chynnal gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf yn barhaus. Mae'r sefydliad wedi mabwysiadu polisi ar lywodraethu ac ymarfer archwilio clinigol sy'n berthnasol i bob aelod o staff. Bydd cyflawni'r amcanion a nodir yn y strategaeth hon yn sicrhau bod polisi'r BIP yn cael ei weithredu ac yn effeithiol, gan arwain at welliannau parhaus i ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion.

Yn 2022 cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd strategaeth archwilio clinigol tair blynedd. Nod y strategaeth hon yw defnyddio archwiliad clinigol fel proses i sicrhau ansawdd clinigol ar bob lefel o'r sefydliad dros y tair blynedd nesaf. Mae blaengynllun archwilio clinigol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys pob archwiliad clinigol cenedlaethol gorfodol yn ogystal ag archwiliadau clinigol Haen 2 a gynhelir i gefnogi sicrwydd a llywio gwelliant ansawdd sy'n ymwneud ag ansawdd a Diogelwch Cleifion. Mae Pwyllgor Effeithiolrwydd Clinigol y Bwrdd Iechyd yn goruchwylio perfformiad ar ddarparu a chanlyniadau archwiliadau clinigol cenedlaethol. Cyflwynir canlyniadau a gwaith meysydd i'w gwella i'r Pwyllgor.

## Mentrau Gwella Ansawdd

Mae gwella ansawdd parhaus yn elfen sylfaenol o weithrediad Dyletswydd Ansawdd yn y Bwrdd Iechyd. Mae mentrau gwella ansawdd yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys rhaglenni archwilio clinigol, hyfforddiant a datblygiad staff, mecanweithiau adborth cleifion, a phrosiectau ailgynllunio gwasanaeth sydd â'r nod o optimeiddio canlyniadau a phrofiadau cleifion.

Lansiodd y Bwrdd Iechyd y Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Ansawdd Llunio ein Dyfodol eleni i yrru rhaglenni gwella eang sy'n cynnwys atal a rheoli heintiau, datblygu system rheoli ansawdd, parhad y llwybr clinigol o atgyfeiriad i ryddhau, a chydnabod ac uwchgyfeirio’r claf sy'n dirywio.

Mae'r Pwyllgor Ansawdd yn derbyn adroddiadau Dangosyddion Ansawdd rheolaidd, sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Dyletswydd Ansawdd a Gofal Diogel. Mae'r adroddiadau hyn yn ymdrin ag adrodd ar ddigwyddiadau, marwolaethau, canlyniadau mamolaeth, rheoli heintiau, amseroedd trosglwyddo ambiwlansys, profiad cleifion, cydymffurfiaeth llwybr strôc, gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd, anghydraddoldebau iechyd, ac ystadegau pryderon ac adborth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu dangosyddion ansawdd pellach a all roi mewnwelediad i ansawdd y ddarpariaeth gofal ar draws pob safon ansawdd iechyd a gofal gyda'r nod o gynnwys mesurau profiad staff, tegwch darpariaeth a chanlyniadau gofal, a mesurau canlyniadau a phrofiad a adroddir gan gleifion.

Nodir rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'n mentrau gwella ansawdd yn ein Hadroddiad Ansawdd Blynyddol ar gyfer 2024-25. Mae hyn hefyd yn cynnwys adolygiad o Theatrau a gynhaliwyd yn 2024-25.

## Dysgu o Farwolaethau

Eleni rydym wedi gweithredu panel adolygu marwolaethau amlbroffesiynol i ystyried yr holl atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan yr Archwilydd Meddygol. Mae'r panel wedi nodi nifer o themâu, gan gynnwys yr angen am fwy o ymwybyddiaeth a defnydd o asesiadau galluedd meddyliol i gefnogi penderfyniadau gofal. Yn 2024-25 rydym wedi gorchymyn modiwl hyfforddi cydsyniad cenedlaethol ar gyfer pob gweithiwr iechyd proffesiynol o fewn y sefydliad i godi ymwybyddiaeth.  Bydd datblygu dangosfwrdd marwolaethau'r Bwrdd Iechyd eleni yn cefnogi pob un o'r Byrddau Clinigol i adolygu eu data marwolaethau, gan gysylltu marwolaethau â nifer o ddangosyddion eraill gan gynnwys ble mae cleifion yn cael gofal, yr amser a gymerir i dderbyn claf, a'r adegau o'r dydd maen nhw'n cael eu trosglwyddo rhwng wardiau.

## Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (PGMe)

Ym mis Mawrth 2025 bydd y wardiau cyntaf yn y Bwrdd Iechyd yn dechrau defnyddio PGMe.

Mae'r system wedi'i ffurfweddu i fewnosod mesurau diogelu i leihau'r risg mewn rhai meysydd presgripsiynu sy'n gysylltiedig â gwallau meddygaeth neu ar gyfer cyffuriau sydd â'r potensial i achosi'r niwed mwyaf. Mae enghreifftiau'n cynnwys safoni presgripsiynu cyffuriau penodol sy'n sicrhau cofnod o alergeddau i feddyginiaeth a negeseuon gweithredu a rhybuddion mewn perthynas â gweinyddu meddyginiaeth amser-gritigol.

## Cofnod Gofal Nyrsio Cymru

Mae gweithrediad eang y Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (CGNC) digidol yn caniatáu i'r Bwrdd Iechyd gael llawer mwy o sicrwydd ynghylch prydlondeb ac ansawdd asesiadau risg nyrsio. Mae rhaglen y Bwrdd Iechyd o hyfforddiant amlbroffesiynol i wella asesiadau risg a mesurau lliniaru cwympiadau wedi bod yn llwyddiannus wrth wella ansawdd asesu risg. Mae'r defnydd eang o CGNC bellach yn golygu bod data sy'n ymwneud ag asesu risg cwympiadau ar gael yn haws gan ganiatáu i'r rhaglen hyfforddi fod yn ymatebol.




**Delwedd 19 – Strwythur Grŵp Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad**

## 3.8 Profiad Cleifion

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ymroddedig i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn unol â'n hamcanion strategol, gyda ffocws cryf ar wella profiad cleifion. Er ein bod yn ymdrechu i wneud yr hyn sydd orau i'n cleifion, rydym yn cydnabod bod yna adegau pan rydyn ni wedi methu. Dyna pam mae gwrando ar adborth yn hanfodol ar gyfer dysgu a gwella'n barhaus.

Mae profiad y claf yn cwmpasu pob agwedd ar ofal clinigol ac anghlinigol gan gynnwys yr amgylchedd gofal, agwedd staff a chyfathrebu, gweithio mewn tîm, hygyrchedd, cymryd rhan mewn penderfyniadau am driniaeth, a'n gallu i fod yn ymatebol wrth ddatrys problemau. Mae hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i drin cleifion gyda gonestrwydd, urddas a pharch ar draws yr holl wasanaethau o fewn y Bwrdd Iechyd.

Yn 2025, bydd y Fframwaith Pobl a Chymunedau yn cael ei gyflwyno fel matrics aeddfedrwydd hunanasesu, gan alluogi sefydliadau i asesu eu sefyllfa bresennol a chreu cynllun gwella blaengar. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein sefydliad wedi bod yn gweithio i ddiffinio'r camau angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r fframwaith hwn.

Bydd y fframwaith hwn yn berthnasol i'r holl wasanaethau a ddarperir gan sefydliadau GIG Cymru, gan gynnwys gwasanaethau a gomisiynir. Rhaid ymgorffori dangosyddion ansawdd a phrofiad ym mhob cytundeb gwasanaeth a gomisiynir, gyda chasglu data yn chwarae rhan allweddol mewn monitro a chydymffurfiaeth gytundebol.



Mae'r Fframwaith Pobl a Chymunedau yn cyd-fynd â rheoliadau a deddfwriaeth allweddol, gan gynnwys:

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Dyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd)

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Gwneud Iawn) (Cymru) 2011

Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf Cydraddoldeb

Mae gwrando ar brofiadau pobl a dysgu ohonynt yn agwedd sylfaenol ar y rheoliadau hyn.

Mae profiad pobl yn cyfeirio at y canfyddiadau a ffurfiwyd wrth ryngweithio â gwasanaethau, swyddogaethau a rhaglenni GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys profiadau mewn wardiau ysbytai, clinigau cleifion allanol, rhaglenni sgrinio cenedlaethol, gwasanaethau gofal sylfaenol (fel meddyg teulu, optometreg, fferylliaeth, a gofal deintyddol), mentrau

hybu iechyd, a digwyddiadau a gynhelir gan sefydliadau GIG Cymru.

Mae integreiddio adborth profiad yn llwyddiannus yn dibynnu ar arbenigedd ac adnoddau lleol.

Dylid ystyried egwyddorion Profiad Pobl yn unol â'r Ddyletswydd Ansawdd.

O dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 (a elwir yn Gweithio i Wella neu 'GiW'), mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu sicrwydd a thystiolaeth i gymuned a rhanddeiliaid y sefydliad yr ydym yn parhau i ddelio â nhw a dysgu o bryderon.



**Cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd**
Cyfanswm = 3471
Ffurfiol = 2324
Datrysiad Cynnar = 1147

**Prif Themâu sy'n codi o Gwynion**




**Canran y Cwynion ffurfiol yr ymatebwyd iddynt o fewn 30 diwrnod gwaith (targed fframwaith Cyflawni'r GIG o 75%)** 74% wedi'u cau o fewn 30 diwrnod gwaith (gan gynnwys Datrysiad Cynnar)

**Digwyddiadau "Byth"**
12

**Digwyddiadau a Adroddir yn Genedlaethol**
187

**Hawliadau Cyfreithiol a Gofrestrwyd**
134 o hawliadau newydd (Esgeulustod Clinigol ac Anaf Personol)

**Canmoliaethau a dderbyniwyd**
593

## 3.9 Adborth Cleifion

### Adborth Cleifion

Rydym wedi parhau i gasglu adborth gan gleifion sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn ystod 2024-2025, gyda rhywfaint o weithgarwch allweddol wedi'i restru isod;

- ✓ Rydym yn defnyddio'r system Civica Cymru Gyfan a gall anfon hyd at 1000 o negeseuon SMS y dydd at bobl i gael eu hadborth. Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi anfon **175,146 SMS (arferol a phwrpasol),** a'r gyfradd gwblhau yw oddeutu 16%.

### Arolwg Dweud Wrthym Mewn 2

### Beth rydyn ni'n ei wneud?

- ✓ Mae posteri, sticeri ac arwyddion yn cael eu gosod o amgylch safleoedd ysbytai acwrth ar ochrau gwelyau sy'n arddangos cod QR, gan wahodd cleifion i rannu eu profiadau diweddar o'n gwasanaethau.
- ✓ Mae'r cod QR yn rhoi mynediad unigol i'r arolwg "Dweud Wrthym Mewn 2" - holiadur dienw 2-funud byr y gellir ei gwblhau yn Gymraeg neu'n Saesneg
- ✓ Rydym wedi datblygu arolygon mewn BSL ac ieithoedd eraill
- ✓ Rydym wedi datblygu arolygon animeiddiedig i blant
- ✓ Mae'r holiadur yn gofyn am farn agored a gonest am brofiadau cleifion fel y gall y Bwrdd Iechyd rannu canmoliaeth, arfer gorau neu awgrymiadau, i ddysgu o brofiadau a helpu i lunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.
- ✓ Mae'r cwmwl geiriau isod yn seiliedig ar y sylwadau a dderbyniwyd yn ein hadborth o'r arolwg Dweud Wrthym Mewn 2. Mae'r gwyrdd yn amlygu teimladau cadarnhaol a'r coch yn tynnu sylw at deimladau negyddol.



## Beth Ddwedoch Chi, Beth Wnaethom Ni, Mentrau ar gyfer 2024-2025

**YOU SAID:**

- St David's hospital staff highlighted the benefit of loaning the interactive touchable screen for their patients.

**WE DID:**

- We worked with clinical engineering to transport a device to the hospital, set it up and it is being loaned and used by 3 wards at that site, including mental health matters with their group sessions.





**Delwedd 20 - Sgrin gyffwrdd ryngweithiol i gleifion yn Ysbyty Dewi Sant**

**YOU SAID:**

- Following an information meeting with LPOP (Liaison Psychiatry for Older People) about Voluntary Services, it was discussed that LPOP staff can visit patients who may not have family living nearby or who do not have family able to visit and would benefit from a volunteer companion.

**WE DID:**

- LPOP are now able to 'refer' a patient-to-Patient Experience, and we can assign this to a volunteer who will then prioritise a visit during their shift.



**YOU SAID:**

- Bring the library trolley back to University Hospital Llandough.

**WE DID:**

- Recruited volunteers to support the library trolley – three volunteers started in November 2024.





**Delwedd 21 - Troli Llyfrgell yn Ysbyty Prifysgol Llandochau**

**O safbwynt staff:**

Cysylltodd llawer o aelodau o staff â'r Arweinydd Straeon Digidol yn gofyn am Hyfforddiant Straeon Digidol, ac yn dilyn y sgyrsiau hyn dyfeisiwyd pecyn hyfforddi o ddwy lefel o hyfforddiant—sylfaenol ac uwch (gan gynnwys sgiliau golygu fideo)—gyda'r cwrs cyntaf yn cael ei gyflwyno
ym mis Hydref 2024 gydag un arall wedi'i drefnu ar gyfer 21 Ionawr. Bydd hyn yn galluogi adborth amser real i gael ei gasglu gan gleifion yn ystod eu hymweliadau â chlinig, gan ddarparu mewnwelediadau ar unwaith i'w profiadau.  Mae "profiad byw" yn cyfeirio at y safbwyntiau unigryw a phersonol y mae unigolion yn eu cael trwy gyfranogiad uniongyrchol mewn sefyllfaoedd penodol. Mae'n cwmpasu profiadau bywyd go iawn, emosiynau, heriau, a gwersi a ddysgwyd, wedi'u siapio gan gefndir, diwylliant, credoau ac amgylchiadau personol person.  Mewn meysydd fel gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, ac eiriolaeth, mae profiad byw'n cael ei ystyried yn bwysig iawn oherwydd
ei ddilysrwydd a'i allu i ddarparu mewnwelediadau ystyrlon sy'n llywio penderfyniadau.



## 3.10 Datganiad Llesiant ac Adroddiad Blynyddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD) (Cymru)

Fel rhan o'n cylch cynllunio blynyddol arferol yn ystod 2024-25, gwnaethom adolygu amcanion lles ein sefydliad, gan gadarnhau nad oes unrhyw newid i'r amcanion ar gyfer y flwyddyn. Ein hamcanion o hyd yw'r pedwar amcan strategol lefel uchel yn ein strategaeth hirdymor, Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol.

Cyflawni ein strategaeth trwy ein cynlluniau CTCI a/neu flynyddol a monitro trwy strwythurau perfformiad presennol yw ein mecanwaith ar gyfer cyflawni ein hamcanion lles.

Datblygwyd y strategaeth a'r amcanion yn dilyn ymgynghoriad helaeth ac adborth gan drigolion lleol, sefydliadau partner, a'n staff. Mae'r strategaeth ei hun yn seiliedig ar egwyddorion atal a chyfranogi, ac rydym wedi gosod cerrig milltir clir hyd at 2035 ar gyfer gwella iechyd, lleihau anghydraddoldebau, a symud mwy o'n gwariant i fyny'r gadwyn tuag at atal.

## 3.11 Trefniadau Llywodraethu sy'n ymwneud â'r Ddeddf LlCD

Mae gweithredu'r Ddeddf yn y Bwrdd Iechyd yn eistedd o fewn y strwythur llywodraethu ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol, gyda phob un o'r byrddau portffolio wedi'u sefydlu i gyflawni ar eu rhaglen strategol briodol sy'n gyfrifol am weithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy a gweithio tuag at nodau LlCD. Er y bydd pob portffolio yn cyfrannu ar draws nifer o nodau, dangosir y prif nodau a gwmpesir gan bob portffolio isod. Mae ein hamcanion hefyd yn cyd-fynd ag amcanion y ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yr ydym yn eistedd arnynt.

| Amcan lles/ rhaglen strategol | Portffolio(s) strategol | Nod(au) LlCD y mae'n gyfrifol amdanynt |
|---|---|---|
| Rhoi pobl yn gyntaf | Pobl a diwylliant | Cymru lewyrchus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu |
| Darparu ansawdd rhagorol | Iechyd y boblogaeth a lleoedd<br>Ansawdd a gwerth<br>Gwasanaethau clinigol | Cymru iachach<br>Cymru fwy cyfartal |
| Cyflawni yn y lleoedd cywir | Seilwaith | Cymru o gymunedau cydlynol |
| Gweithredu dros y dyfodol | Cenedlaethau'r dyfodol | Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang Cymru gydnerth Cymru lewyrchus |

Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd yn parhau'n brif swyddog Gweithredol ar gyfer y Ddeddf LlCD, ac rydym yn parhau i gysylltu'n agos â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn ardal y bartneriaeth, rydym yn cyfrannu at yr Asesiadau Lles a'r Cynlluniau Lles statudol (un ar gyfer Caerdydd; un ar gyfer y Fro) drwy gymryd rhan yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a chyflawni camau allweddol yn y cynlluniau, yn unigol ac ar y cyd â sefydliadau partner. Wrth ddatblygu ein CTCI neu gynllun blynyddol, rydym yn plethu gofynion y Ddeddf drwy'r cynllun, ac mae ein prosesau gwneud penderfyniadau yn gofyn i ni ystyried goblygiadau'r ddeddfwriaeth wrth wneud ein penderfyniadau.

Mae atal wedi'i ymgorffori trwy gydol ein gwaith, gan gynnwys ein cynllun iechyd cyhoeddus hirdymor a chynlluniau iechyd cyhoeddus blynyddol.

## 3.12 Cynnydd yn Erbyn ein Hamcanion Lles

Gan mai ein hamcanion corfforaethol yw ein hamcanion lles, dangosir cynnydd yn erbyn ein hamcanion lles trwy ein hadroddiadau perfformiad arferol yn erbyn ein CTCI neu gynllun blynyddol, a'r strategaeth deng mlynedd. Gallwch ddarganfod mwy am ein perfformiad, a lle mae'n cael ei adrodd, yn adran Perfformiad yr adroddiad hwn.

## 3.13 Astudiaethau achos ar gyfer 'Hirdymor' ac 'Atal'

Digwyddiad atal ysmygu a fêpio

Cynhaliodd Tîm Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro ddigwyddiad **Atal Ysmygu a Fêpio** i blant a phobl ifanc yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar 26 Tachwedd 2024. Nod y digwyddiad oedd cefnogi ysgolion uwchradd a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc trwy ddarparu'r strategaethau, yr adnoddau a'r ymchwil ddiweddaraf iddynt i fynd i'r afael ag ysmygu a fêpio mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol.

**Trafodwyd pynciau allweddol yn cynnwys y canlynol:**

- Diweddariadau ar ddatblygiadau cyfreithiol a pholisi
- Y tueddiadau sy’n dod i’r amlwg a'r ymchwil ar ysmygu a fêpio ymhlith pobl ifanc
- Strategaethau atal ysmygu a fêpio effeithiol
- Adnoddau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth
- Gwasanaethau cymorth i helpu pobl ifanc i roi'r gorau i ysmygu a fêpio

Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr, gyda dros 65 o fynychwyr, gan gynnwys athrawon ysgol, swyddogion yr heddlu, gweithwyr gwasanaeth ieuenctid, a nyrsys ysgol. Sefydlwyd marchnad hefyd gyda chwe stondin yn arddangos gwasanaethau cymorth sydd ar gael i helpu plant a phobl ifanc gyda chyngor ar ysmygu a fêpio. Roedd y rhain yn cynnwys nyrsys ysgol Caerdydd a'r Fro, Helpa Fi i Stopio, y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, fferyllfa gymunedol, ASH Cymru, a'r heddlu.

## Ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth o Hepatitis C

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i geisio dileu hepatitis C fel bygythiad cyhoeddus erbyn 2030. Mae meddyginiaethau newydd wedi chwyldroi triniaeth hepatitis C fel bod modd ei wella mewn dros 98% o bobl bellach.

Fodd bynnag, mae stigma o amgylch y cyflwr yn parhau. Mewn ymateb, gweithiodd y Tîm Cyfathrebu gyda chlinigwyr sy'n arbenigo mewn firysau a gludir yn y gwaed (BBV) i ddod o hyd i astudiaeth achos addas i geisio hyrwyddo'r profiad o fyw'n llwyddiannus gyda'r cyflwr. Cafodd unigolyn hepatitis C yn ddiarwybod iddo ar ôl cael tatŵ ar ei fraich tua 20 mlynedd yn ôl. Cafodd sirosis yr afu a gallai fod

wedi marw. Gyda chymorth nyrs glinigol arbenigol mewn firysau a gludir yn y gwaed, crëwyd darn ysgrifenedig a fideo i helpu i dynnu sylw at symptomau allweddol hepatitis C a phwysigrwydd cael prawf.

Bydd y dull llywodraethu diwygiedig hwn yn cael ei weithredu o Ch1 2024-25, gydag arweinyddiaeth barhaus gan Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, a chyswllt â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol; y ddau yn rhan annatod o'n dull gweithredu.

## 3.14 Rheoliadau'r Gymraeg 2018

Mae Safonau'r Gymraeg wedi rhoi'r cyfle i'r sefydliad wella lefel y gwasanaethau Cymraeg rydym yn eu darparu ar gyfer ein cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r boblogaeth ehangach.

Yn 2024/2025, gwnaethom barhau i weithio gyda nhw i wella a chryfhau ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r holl Safonau wedi cael eu hadolygu gan y Bwrdd Iechyd sy'n defnyddio meddalwedd Microsoft List i fonitro gweithrediad a chynnydd ein gweithredoedd i fodloni Safonau'r Gymraeg. Mae'r Tîm Tegwch a Chynhwysiant yn adrodd ar faterion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant sydd yn ei dro yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfiaeth a pha gamau y byddant yn eu cymryd i sicrhau gwell cydymffurfiaeth â'r Safonau.

Mae'r Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant wedi adolygu lefel cydymffurfio'r sefydliad a chyflwyno system asesu newydd i werthuso ein cydymffurfiaeth â phob un o'r 121 o safonau'r Gymraeg. Mae'r system hon yn cynnig tair lefel o sicrwydd: isel, canolig, neu uchel.  Mae'r asesiad hwn yn defnyddio system raddio CMG (Coch, Melyn, Gwyrdd) i nodi lefel y sicrwydd:

- Gwyrdd: Lefel uchel o sicrwydd.
- Melyn:  Lefel ganolig o sicrwydd.
- Coch:  Lefel isel o sicrwydd.
- Mae'r tîm Pobl a Diwylliant yn gweithio gyda phob maes i sicrhau y gall y sefydliad gynnig lefel uwch o sicrwydd mewn perthynas â chydymffurfiaeth â'r Safonau yn ystod 2025/2026.

Mae'r gweithgareddau allweddol a gynhaliwyd yn 2024-25 yn cynnwys:

- Cofrestru sgiliau Cymraeg ein staff yn well.
- Gweithio gyda sefydliadau lleol (e.e. ysgolion a chynghorau) i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa o fewn y Bwrdd Iechyd a'r Gymraeg yn y gweithlu.
- Prif ffrydio'r Gymraeg i'r broses recriwtio.
- Codi ymwybyddiaeth staff o bwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal iechyd.
- Gwell cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth ddefnyddio eu dewis iaith trwy weithredu prosesau, monitro a rhannu arfer da.
- Annog aelodau staff i gofrestru ar gyfer cyfleoedd dysgu Cymraeg eraill sydd ar gael.
- Parhau i ddatblygu Rhwydiaith, rhwydwaith staff ar gyfer defnyddwyr y Gymraeg o bob lefel ledled y Bwrdd Iechyd.
- Gweithio gyda Byrddau Clinigol i wella'r gwasanaeth Cymraeg y maent yn ei ddarparu ar gyfer y cleifion a'r defnyddwyr gwasanaeth.
- Mae'r Tîm Cyfieithu wedi parhau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu effeithiol i'r Bwrdd Iechyd, gan gyfieithu dros 1m o eiriau'r llynedd.
- Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod 2024/2025 gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio'n agos gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i ddatrys materion nad ydynt wedi'u datrys o flynyddoedd blaenorol.

**Sgiliau Iaith Gymraeg a gofrestrwyd gan y Gweithlu 2024-2025**

| Cyfanswm y swyddi gwag a hysbysebwyd yn 2024-2025 fel: | |
|---|---|
| Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol | 0 |
| Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol | 2005 |
| Mae angen dysgu sgiliau Cymraeg yn dilyn penodiad i'r swydd | 0 |
| Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol | 35 |
| **Cyfanswm y swyddi gwag a hysbysebwyd 01/04/2024 - 31/03/2025** | **2040** |

## 3.15 Adroddiad Cynaliadwyedd

### Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae cyflawni ein cyfrifoldebau i leihau ein hôl troed carbon wedi bod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd ers cydnabod yr argyfwng hinsawdd ym mis Ionawr 2019.

Mae effeithiau newid hinsawdd eisoes yn cael eu gweld ledled y byd, gan gynnwys digwyddiadau tywydd eithafol, codiadau yn lefel y môr, colli rhywogaethau a digwyddiadau difodiant. Bydd yr effeithiau hyn yn cael effeithiau dramatig yng Nghymru a'r DU gan effeithio ar seilwaith, argaeledd bwyd, iechyd a mudo. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cydnabod bod angen mesurau brys i ddiogelu ein planed a sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Mae'r angen i ddiogelu ein planed hefyd yn cael ei gydnabod o dan ein Strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol ddiwygiedig, Strategaeth 2023-2035: Byw'n Dda, Gofalu'n Dda, Gweithio Gyda'n Gilydd, ac mae wedi gosod uchelgais i leihau allyriadau sydd o fewn ein rheolaeth gan 40% erbyn 2027, 68% erbyn 2035 a dod yn garbon niwtral hefyd erbyn 2035.

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddigonedd o staff talentog ac ymroddedig sy'n ymdrechu i wella cynaliadwyedd amgylcheddol eu hadrannau a'r sefydliad.  Sefydlwyd Grŵp Gwyrdd Caerdydd a'r Fro sy'n cyfarfod yn rheolaidd i hyrwyddo gwaith a chynhyrchu syniadau a mentrau i wella cynaliadwyedd amgylcheddol ar draws y Bwrdd Iechyd cyfan.

Fel y cyfeirir ato isod, mae gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Gweithredu Datgarboneiddio ar gyfer 2024-2025 sy'n nodi cynlluniau

cyflawni lleihau carbon, gyda meysydd allweddol o ffocws o amgylch cyfleusterau, digidol, ystadau, cyfalaf, a gweithgareddau corfforaethol. Mae'r rhain wedi deillio o asesiadau risg yn unol â pharodrwydd am argyfyngau a gofynion argyfyngau sifil o dan y Ddeddf Newid Hinsawdd.

Ym mis Mawrth 2024, cymeradwyodd ein Bwrdd ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio 2024/25. Mae hwn yn mynd ymhellach nag erioed o'r blaen wrth gydnabod y liferi y mae angen eu tynnu i reoli a lleihau ein hallyriadau carbon. Mae wedi bod yn arfer diweddaru ein cynlluniau datgarboneiddio yn flynyddol, fodd bynnag, gan fod yr un sydd gennym ar y fath lefel o soffistigedigrwydd ac wrth i'r realiti o sut i gyrraedd sero net erbyn 2035 gael ei ystyried, penderfynwyd parhau â'r cynllun tan yn ddiweddarach yn 2025, ac ar ôl hynny penderfynir a fydd cynllun newydd yn cael ei greu.

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg, ynghyd â phartneriaid yn y Sector Cyhoeddus ym Mro Morgannwg, wedi mynegi ymrwymiad ffurfiol i fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy gytuno ar Siarter Newid Hinsawdd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro (https://www.valepsb.wales/Documents/Climate-Change/Climate-Emergency-Charter-English-Final.pdf). Mae'r Siarter yn cofrestru partneriaid i set o egwyddorion gan gynnwys arwain drwy esiampl, cymryd camau cadarnhaol a lleihau ein heffaith, tra'n cydnabod hefyd y gallai dulliau gweithredu a chynlluniau i'w gweithredu o fewn Sefydliadau unigol amrywio. Yn yr un modd, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghaerdydd wedi nodi bod lleihau carbon yn flaenoriaeth allweddol ac mae rhaglen bartneriaeth wedi'i datblygu, dan arweiniad y Cyngor. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfranogwr gweithredol at y gwaith hwn.

## Effaith Bwrdd Iechyd Caerdydd a’r Fro

Mae Elusen Iechyd y Bwrdd Iechyd yn cefnogi rhaglen glodwiw i wella ein hamgylchedd, sy'n gysylltiedig â'n Cynllun Bioamrywiaeth.  Mae datblygiad y Berllan a Gardd Horatio yn Ysbyty Athrofaol Llandochau, a phrosiect y ddôl yn YAC yn enghreifftiau o'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud i ddefnyddio ein mannau gwyrdd allanol ar gyfer iechyd a lles ein cleifion, ein staff a'n hymwelwyr.

## Cynnydd a Llwyddiannau yn 2024/25

- Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweld mwy o ymgysylltiad gan staff clinigol ar yr agenda datgarboneiddio, lle mae aelodaeth o'n Grŵp Gwyrdd Caerdydd a'r Fro wedi tyfu, mae gennym arweinwyr wedi’u penodi yn y meysydd Nyrsio, Therapi a Chlinigol, yn ogystal â nifer o hyrwyddwyr ar draws y sefydliad.
- Rydym hefyd wedi gweld grwpiau gwyrdd adrannol yn cael eu gweithredu, gan gynnwys yn yr Uned Gofal Dwys, yr Uned Achosion Brys, Deintyddol, Diagnosteg a Therapïau Clinigol, y proffesiwn Therapïau ac Anaestheteg, ond i enwi rhai. Mae gan Therapïau, sefydliad o tua 900 o bobl, eu cynllun gweithredu eu hunain.
- Mae nifer o brosiectau yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus o fewn adrannau.  Dyma enghreifftiau nodedig:

  - ✓ Yn ein Huned Gofal Dwys (ICU), maen nhw wedi llunio cofnod cynhwysfawr o’u heffaith carbon ac yn araf yn gweithio trwy gyfleoedd i arbed carbon. Mae llyfr ryseitiau wedi'i greu ar y cyd â’r Gyfadran Meddygaeth Gofal Dwys, Cynghrair Nyrsio Gofal Critigol y DU a Phrifysgol Brighton i roi gwybodaeth i adrannau gofal critigol ledled y DU am eu hôl troed carbon.
  - ✓ Mae ein tîm Gofal Iechyd ar Sail Gwerthoedd parhau i ymgorffori datgarboneiddio yn eu rhaglen a disgwylir i nifer o brosiectau ddwyn ffrwyth yn y flwyddyn i ddod.
  - ✓ Mae'r rôl y gall atal ei chwarae wrth ostwng carbon wedi'i chydnabod a'i chynnwys yn y cynllun gweithredu ar gyfer 24/25. Mae cam gweithredu o amgylch y carbon y gellid ei arbed drwy atal diabetes (ymhlith pethau eraill) yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

## Cynllunio Camau Gweithredu

Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd yw bod yn esiampl o ran darparu gofal iechyd cynaliadwy, gan osod y cyflymder y bydd eraill yn ei ddilyn ac yn dysgu ohono.  Bydd effaith amgylcheddol isel yn ystyriaeth ‘busnes fel arfer’ lle bydd ein cydweithwyr i gyd yn cael eu hannog i wneud newidiadau i arferion gwaith a fydd yn gweld ein hallyriadau carbon yn lleihau o un fenter i’r nesaf.

Mae cynllun gweithredu diweddaraf yn adeiladu ar ein profiad ers 2020, yn enwedig sut y gellir gwneud newid sylweddol wrth osgoi allyriadau newydd a lleihau allyriadau presennol.
Bydd cynllun ymaddasu i newid hinsawdd ar wahân yn cael ei gyhoeddi i reoli'r risgiau newid hinsawdd sydd eisoes yn cael eu profi.

O’n profiad ni, mae mentrau i leihau ein hallyriadau carbon yn tueddu i gyflawni canlyniadau bach. Er enghraifft, byddai hyd yn oed gostyngiad o 50% yn ein defnydd o drydan yn lleihau ein hallyriadau gan

ddim ond 2%. Felly, mae angen
gweithgarwch ar draws ystod eang

o feysydd gan nifer fawr o bobl er mwyn cael yr effaith angenrheidiol. Felly, mae angen newid diwylliannol fel bod pob un o'n 16,000 o gydweithwyr yn deall y cyfrifoldeb i weithredu a gwneud nifer o gyfraniadau bach ond aml sy'n gwneud gwahaniaeth. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd greu'r amgylchedd o'r brig a fydd yn arfogi ac yn annog ein cydweithwyr i wneud gwahaniaeth.

Bydd mesur effaith facro gyffredinol y cynllun hwn yn dod trwy'r adroddiadau blynyddol sy'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru bob mis Medi, lle gellir gwneud cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn.

Mae crynodeb o'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun yn cynnwys:

- Olrhain y potensial arbed carbon drwy raglen atal diabetes
- Byddwn yn monitro dulliau osgoi/arbed carbon o'n rhaglenni gweithredol blaenoriaeth uchel fel y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
- Byddwn yn cyhoeddi cynllun ymaddasu i newid hinsawdd
- Byddwn yn parhau i adeiladu datgarboneiddio i mewn i'n penderfyniadau allweddol.
- Byddwn yn parhau i ofyn i'n tîm Gweithredol ysgwyddo amcan blynyddol i leihau allyriadau carbon.

Bydd y camau gweithredu hyn, gyda'i gilydd, yn ein galluogi i greu'r amgylchedd i'r sefydliad leihau allyriadau a datblygu'r diwylliant o fewn y sefydliad, gyda'r nod bod pob un o'n gweithwyr yn gweithredu i gyfrannu at leihau carbon. Bydd gwelliannau mewn llythrennedd carbon, arweinyddiaeth, cefnogi pontio a rhywfaint o arbedion carbon yn cael eu cyflawni erbyn diwedd y cynllun hwn.

## Datganiad Cydymffurfio'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd (TDdAH)

Mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn bod newid hinsawdd yn risg allweddol, ac felly mae wedi cydymffurfio ag argymhellion TDdAH a'r datgeliadau a argymhellir fel y nodir isod:

**Llywodraethu**
Yr Uwch Swyddog Cyfrifol dros Ddatgarboneiddio yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid.

Yn ystod y flwyddyn, diweddarwyd y FfSB i gynnwys Cynaliadwyedd fel Risg Strategol. Mae hyn yn cynnwys sut mae'r BIP yn perfformio yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau ac effeithiau ar yr hinsawdd.

Gyda'n strategaeth gorfforaethol Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol wedi'i hadnewyddu, mae'r ffordd y bydd rhaglenni strategol yn cael eu llywodraethu wedi'i hadolygu yn ystod 2024-25 er mwyn defnyddio'r strategaeth yn effeithiol. Mae'r Portffolios Strategol bellach wedi'u sefydlu'n llawn i sicrhau y cyflawnir y camau gweithredu a'r cynlluniau a osodwyd i gyflawni'r amcanion strategol yn effeithiol. Bydd y mecanwaith hwn yn destun gwerthuso ac addasu parhaus yn ôl yr angen/fel y nodir ac mae hyn yn cynnig hyd yn oed mwy o gyfleoedd i yrru'r agenda Cynaliadwyedd yn ei blaen.

**Rheoli Risg**
Cydnabyddir y dylid ystyried newid hinsawdd yn risg lefel Bwrdd, felly mae'r FfSB bellach wedi'i ddiweddaru i gynnwys Cynaliadwyedd fel Risg Strategol. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod 2025-26 gan y Tîm Iechyd Cyhoeddus i nodi Risgiau o'r gwaith a fydd yn deillio o'r gweithgor ymaddasu i newid hinsawdd.

**Metrigau a Thargedau**

Ni ellir honni bod metrigau yn cael eu defnyddio fel y cyfryw i nodi risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.
Mae prosiectau wedi tueddu i ddechrau drwy glinigwyr unigol yn cydnabod cyfle i wneud newid a fydd yn cael budd hinsoddol. Mae'r rhain yn aml yn tarddu trwy eu cyfoedion mewn mannau eraill yn y DU, neu lle mae dulliau amgen yn hysbys.

Datgelir allyriadau Cwmpas 1-3 isod;
Cwmpas 1: 26,366 tunnell
Cwmpas 2: 2,975 tunnell
Cwmpas 3: 150,785 tunnell

Mae GIG Cymru wedi gosod targed i leihau allyriadau (pob cwmpas) gan 16% erbyn 2025 a 34% erbyn 2030. Nid oes llwybr clir i gyflawni'r targed hwn.

Mae'r Strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol wedi gosod uchelgais y dylai allyriadau o dan reolaeth Caerdydd a'r Fro leihau 40% erbyn 2027 a 68% erbyn 2035. Bydd cynllun yn cael ei ddatblygu eleni i ddeall sut i fynd i'r afael â'r uchelgais 40%.

Cyfrifir lefelau allyriadau o flwyddyn i flwyddyn yn flynyddol bob mis Medi i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.  Defnyddir un dull ar draws holl sector cyhoeddus Cymru i sicrhau cysondeb.

Mae hyn yn unol ag amserlen gweithredu datgeliadau'r llywodraeth ganolog sydd wedi'i halinio â TDdAH ar gyfer Cam 2.

## Lleihau Carbon

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i geisio cyflawni'r targedau heriol a nodir yng Nghynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru, sy'n nodi cyfres o nodau a mentrau i Fyrddau Iechyd yng Nghymru fynd i'r afael â nhw er mwyn cyfrannu at dargedau datgarboneiddio Cymru, gan gynnwys y nod i'r sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn sero net erbyn 2030.

Mae'r sefydliad yn defnyddio'r dull mesur allyriadau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyfrifo ei allyriadau carbon.

Amcangyfrifir bod y Bwrdd Iechyd wedi cynhyrchu tua 180,126,000 tunnell o CO2e yn 2024/2025. Mae hyn yn ostyngiad o tua 20% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y gellir ei briodoli i ddulliau aeddfetach o adrodd ein hallyriadau cwmpas 3 yn hytrach na chynnydd mentrau lleihau carbon dwfn.

Ers 2018, ar gyfer yr allyriadau sydd o dan reolaeth y Bwrdd Iechyd (allyriadau cwmpas 1 a chwmpas 2), amcangyfrifir bod allyriadau carbon wedi gostwng tua 7%. Mae allyriadau'n cael eu torri i lawr i'r categorïau canlynol ar gyfer 2024/2025:

| Sector | Allyriadau (tunelli CO2e) | % cyfanswm allyriadau |
|---|---|---|
| Adeiladau | 32,009 | 18% |
| Goleuadau stryd | 78 | 0.04% |
| Fflyd ac offer | 437 | 2% |
| Cymudo | 5,522 | 3% |
| Trafnidiaeth busnes | 658 | 0.4% |
| Gwastraff | 1,596 | 0.9% |
| Cadwyn Gyflenwi | 137,859 | 77% |
| Nwyon meddygol | 1,967 | 1% |
| **Cyfanswm** | **180,126** | |

A hynny o bell ffordd, daw'r ffynhonnell fwyaf o allyriadau, ar tua 77%, o'r cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddefnyddir er mwyn darparu gwasanaethau iechyd. Mae cynhyrchion a gwasanaethau yn cynnwys eitemau fel meddyginiaeth, cyfarpar diogelu personol, dyfeisiau llawfeddygol, arlwyo, ac ati. Popeth sydd ei angen i redeg gwasanaeth iechyd. Er mwyn effeithio ar yr allyriadau hyn, mae angen gweithredu ar draws ein sefydliad.

Bydd yr allyriadau ar gyfer 2024/25 yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2025. Dylid nodi bod y ffordd yr adroddir ar ddata allyriadau yn esblygu. Er enghraifft, ar hyn o bryd amcangyfrifir allyriadau sy'n gysylltiedig â chynnyrch yn seiliedig ar ffactor allyriadau sy'n gysylltiedig â'r Cod Diwydiant Safonol
ar gyfer y sefydliad sy'n gwerthu'r cynnyrch hwnnw a'r arian a wariwyd ar y cynnyrch hwnnw. Cynhaliwyd ymarfer o fewn Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru i adolygu sut y dyrennir ffactorau allyriadau i werthwyr a allai achosi symudiadau mewn allyriadau cadwyn gyflenwi ar gyfer 2024/25 pan gânt eu hadrodd ym mis Medi 2025 o gymharu â 2023/24. At hynny, yn y pen draw, nod GIG Cymru yw gallu adrodd ar allyriadau gwirioneddol cynnyrch.

## Nodau ar gyfer 2024-2025

Mae ein cynllun diweddaraf wedi adeiladu ar gynlluniau blaenorol ond wedi esblygu ymhellach. Fe'i nodir dros gyd-destun 3 blynedd, sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau 2027 y strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol. Mae esblygiad wedi digwydd trwy astudiaeth agos o'r elfennau sy'n rhan o'n hôl troed carbon ac efelychu senarios 'beth os' yn eu herbyn i ddeall beth sydd angen newid.

Gellir disgrifio'r esblygiad yn y tair ffordd ganlynol:

1. Er bod y cynllun yn canolbwyntio ar liniaru ein hallyriadau, rydym wedi nodi camau i ddechrau mynd i'r afael â'r her **ymaddasu i newid hinsawdd** drwy gyhoeddi cynllun ymaddasu. Mae angen gwneud hyn oherwydd, er gwaethaf ein hymdrechion i leihau allyriadau, gwyddom fod cynhesu planedol bellach yn sefydledig a byddwn yn gweld cyfnodau amlach o wres eithafol a llifogydd, yn union fel sydd wedi digwydd dros y 12 mis diwethaf, a rhagwelir y bydd hyn yn gwaethygu. Mae tywydd eithafol yn effeithio ar ein hystâd, ein staff a'n preswylwyr, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed.
2. Bod yn glir am rôl **atal afiechyd** wrth leihau ein hallyriadau. Cyflwynir thema Atal newydd gyda'r bwriad penodol o ddeall effaith atal ar garbon yn y llwybr diabetes i ddechrau. Er mwyn creu newid go iawn, mae angen newid yn ein dull o ymdrin ag iechyd a gofal iechyd, gan gynyddu'r pwyslais ar atal afiechyd a lleihau'r angen am ofal acíwt. Hyn fydd yn creu'r effaith fwyaf ar ein hôl troed carbon a'n heffaith amgylcheddol.
3. Y cyflwyniad newydd olaf eleni yw'r gydnabyddiaeth fod ein hymdrechion i fod yn fwy **gweithredol effeithlon**, drwy ein hymateb i 'Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng' Llywodraeth Cymru, er enghraifft, yn cael effaith ar ein hallyriadau. Mae defnyddio technoleg, newid y ffyrdd y mae ein poblogaeth yn derbyn apwyntiadau dilynol, a helpu cleifion i gael eu hoptimeiddio ar gyfer llawdriniaeth i leihau'r tebygolrwydd o gymhlethdodau yn rhai o'r ffyrdd y gall ein mentrau gweithredol presennol effeithio ar ein hôl troed carbon.

## 4. Trefniadau Llywodraethu Ansawdd

Un o nodweddion hanfodol ein fframwaith rheoli yw sicrhau bod system gadarn ar gyfer mesur ac adrodd ansawdd ein gwasanaethau. Mae ein Pwyllgor Ansawdd yn darparu cyngor amserol ar sail tystiolaeth i'r Bwrdd i'w gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau a chyflawni ei gyfrifoldebau o ran ansawdd a diogelwch yn ogystal â rhoi sicrwydd mewn perthynas â gwella profiad pawb sy'n dod i gysylltiad â'n gwasanaethau. Mae pob grŵp yn y strwythur Ansawdd yn adrodd drwy'r Grŵp Diogelwch Clinigol neu Effeithiolrwydd Clinigol.

Mae prosesau Sicrwydd y Bwrdd Iechyd wedi'u trefnu o dan bedwar categori. Mae'r **Fframweithiau Rheoli** yn cynnwys y canllawiau, y llwybrau iechyd a'r datganiadau ansawdd ar sail Tystiolaeth sy'n llywodraethu'r ffordd rydym yn darparu gofal. Mae prosesau **Adolygu Rheolaeth** yn cynnwys strwythur Ansawdd y Bwrdd Iechyd gan gynnwys y grwpiau cynghori clinigol sy'n eistedd o dan y Pwyllgor Ansawdd. Mae systemau **Archwilio Lleol** yn cynnwys archwilio clinigol lleol, adolygiadau marwolaethau a phrosesau adolygu digwyddiadau diogelwch cleifion ac, yn olaf, mae gan y Bwrdd Iechyd gyrff **Sicrwydd Allanol** fel Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Llais, ac adolygiadau a gomisiynwyd gan y Coleg Brenhinol a Chronfa Risg Cymru

### 4.1 Gwaith Ansawdd Digidol a Thrawsnewid

Er bod yr heriau ariannol yng Nghymru yn cael llawer o gyhoeddusrwydd, mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud gyda chynlluniau digidol fel yr amlinellir yn y Cynllun Blynyddol ac adroddiadau'r Pwyllgor Sicrwydd. Mae'r enghreifftiau o gyflawniadau digidol, data a thechnoleg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

## Blaenoriaethau map ffordd digidol

Mae gennym raglen o waith ar y gweill i ymestyn WiFi mewn ardaloedd clinigol mewn ymateb i anghenion nifer o raglenni strategol gan gynnwys Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (CGNC), presgripsiynu a gweinyddu meddyginiaethau yn electronig (PGMe) yn ogystal â rhaglenni presennol fel SganioErDiogelwch

Mae gan holl staff y Bwrdd Iechyd bellach Drwyddedau Microsoft a mynediad at gymwysiadau cyfathrebu corfforaethol a chymwysiadau yn-ôl-yr-angen.

## Sylfeini Digidol

Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu Achos Busnes Rhaglen (ABRh) Ddigidol 5 mlynedd o'r enw Sylfeini Digidol. Bydd yr ABRh yn cael ei ddefnyddio i geisio Cyllid Cyfalaf Mawr Cymru Gyfan ochr yn ochr ag Achos Cyfiawnhad Busnes (ACB) ar gyfer cam 1 o'r 5 cam blynyddol

- Bydd y gwaith hwn yn darparu llwybr, costau a chynlluniau clir ar sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn gwella ei aeddfedrwydd digidol yn barod i fwydo i gynlluniau a threfniadau cenedlaethol ar gyfer Cofnod Cleifion Electronig modiwlaidd. Wedi'i alluogi gan y digidol, data a thechnoleg, rydym yn anelu at wneud gwelliannau yn y meysydd canlynol:
- Lleihau marwolaethau
- Gwella diogelwch clinigol a gyrru gwelliant ansawdd mewn ymarfer
- Gwella bywydau a chyfleoedd bywyd pobl - eu rhai nhw eu hunain a'u teuluoedd
- Datblygu ymyriadau wedi'u targedu a all helpu i wella canlyniadau pobl
- Cefnogi pobl i aros yn iach yn eu cartref eu hunain
- Ailgynllunio prosesau fel eu bod yn addas ar gyfer heddiw yn ogystal â'r dyfodol
- Cefnogi a chyfrannu at ymchwil, arloesi a datblygu triniaethau newydd
- Helpu i ddenu'r bobl orau i weithio gyda ni i gefnogi ein cymunedau

## Dangosydd Cofnod Gofal a Rennir Rhanbarthol ar gyfer Data Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Er mwyn darparu gwasanaethau integredig i bobl, mae angen i ni ddatblygu cofnodion gofal a rennir gan sicrhau bod y data cywir ar gael yn y lle cywir, i'r staff cywir ac yn y fformat cywir.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cefnogi rhaglen Rhanbarth Gofal Digidol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan weithio gyda Chyngor Bro Morgannwg a Chyngor Caerdydd i ddatblygu a chynnal y Gwyliwr Gofal Cryno, cofnod gofal a rennir sy'n integreiddio data iechyd a gofal cymdeithasol at ddibenion gofal uniongyrchol. Mae'r gwyliwr yn fyw ac yn cefnogi gwasanaethau Niwroddatblygiad a gwasanaeth Tîm Adnoddau Cymunedol y Fro.

- Yn 2025/26 mae'r Gwyliwr Gofal Cryno yn cael ei ymestyn i gynnwys data o wasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae nifer o brosiectau newydd yn cael eu gwerthuso gan gynnwys cymorth i wasanaethau diogelu plant ac oedolion a rhyddhau o'r ysbyty.
- Mae'r Rhanbarth Gofal Digidol wedi cychwyn prosiect newydd i rannu cynlluniau gofal rhwng gofal sylfaenol a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.
- Trwy integreiddio a rhannu data iechyd a gofal, bydd y rhaglen Rhanbarthau Gofal Digidol yn cyflawni'r manteision canlynol:
- Gwneud penderfyniadau gwell
- Gwella diogelwch cleifion a staff
- Lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio'n dod o hyd i wybodaeth
- Integreiddio agosach rhwng gwasanaethau iechyd a gofal
- Gwella ansawdd gofal a chydlynu gofal

## Galluogi Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Mae'r BIP wedi sefydlu grŵp llywio Microsoft 365 er mwyn llywodraethu'r broses anghlinigol o fabwysiadu'r offeryn Microsoft Co-Pilot. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys arweinydd gwasanaeth o bob un o adrannau clinigol a thimau corfforaethol y Bwrdd Iechyd. Bydd ei fusnes yn ystyried achosion defnydd ac enillion ar fuddsoddiad o'r costau blynyddol o £300 y drwydded o'r offer hwnnw.

Mae nifer o drwyddedau bellach mewn cylchrediad ar draws timau Corfforaethol a chlinigol. Mae 'Grŵp AI Clinigol' hefyd wedi'i sefydlu o fewn y BIP fel 'Cyngor AI' embryonig.

Mae'r grŵp Awdurdod Dylunio Clinigol (ADC) hefyd wedi penderfynu comisiynu grŵp i ysgrifennu polisi AI ar gyfer y sefydliad (gan ddefnyddio modelau Gwlad yr Haf a Gogledd Swydd Efrog).

## Cymorth Digidol ar gyfer Mentrau Mawr

Mae Gwybodaeth Ddigidol ac Iechyd wedi parhau i gynnig cefnogaeth i nifer o fentrau mawr, gyda ffocws eleni ar Bresgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (PGMe) a defnyddio Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (CGNC)

Mae PGMe yn rhan allweddol o'r Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol sy'n anelu at wneud presgripsiynu, dosbarthu a gweinyddu meddyginiaethau yn haws, yn fwy diogel ac yn fwy effeithlon ac effeithiol i gleifion a chlinigwyr bobman yng Nghymru. Yn ogystal, mae PGMe yn cynnig swyddogaeth cymorth penderfyniadau i helpu i bresgripsiynu a gweinyddu meddyginiaethau'n ddiogel, fel gwirio alergedd a'r rhyngweithio rhwng cyffuriau. Mae'n darparu eglurder ar amserlennu gweinyddu meddyginiaethau

ac yn hawdd ei ddefnyddio ar-lein,
sy’n dileu problemau cynhenid

prosesau papur fel ail-ysgrifennu a chwilio am siartiau cyffuriau coll

Mae PGMe yn darparu cyfoeth o ddata ar bresgripsiynu a gweinyddu meddyginiaeth gyda swyddogaeth archwilio ac adrodd, sy’n darparu gwybodaeth ddefnyddiol i staff sy'n helpu i wella arferion gwaith a gofal cleifion o ddydd i ddydd.

Mae ein timau digidol wedi gweithio i integreiddio'r system PGMe hon i'n hystâd ddigidol graidd, yn bennaf i sicrhau bod gennym ddyfeisiau symudol dibynadwy i'w defnyddio wrth ochr gwely’r claf, gan ganiatáu cysylltiadau diogel â'r platfform PGMe ar y pwynt gofal. Yn ogystal, mae gwaith sylweddol wedi bod yn cael ei wneud i ddatblygu’r platfform i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion amrywiol Gwasanaethau Acíwt Caerdydd a’r Fro. Mae yna hefyd nifer fawr o ffrydiau gwaith ar y gweill i sicrhau bod gwybodaeth a data yn cael eu rhannu'n ddiogel ac yn briodol â'n systemau clinigol perthnasol eraill.

Mae CGNC yn system ddigidol sy'n trawsnewid y ffordd y mae nyrsys yn cofnodi, storio a chael mynediad at wybodaeth bersonol. Mae’n symud i ffwrdd o gofnodi nodiadau wrth ochr gwely claf ar nodiadau papur i allu defnyddio ystod eang o dechnolegau i gofnodi'r wybodaeth hon yn electronig. Mae hyn yn cynnwys cartiau gliniadur symudol, dyfeisiau tabled, ac unrhyw gyfrifiadur sydd wedi'i gysylltu â rhwydwaith GIG Cymru. Mae hyn yn caniatáu i staff nyrsio fewnbynnu gwybodaeth lle bynnag mae angen iddyn nhw wneud hynny.

Trwy fynd yn ddigidol, mae gweithwyr gofal iechyd yn gallu cael mynediad at wybodaeth hanfodol i wneud penderfyniadau gwybodus am ofal claf, waeth ble mae'r gofal hwnnw'n digwydd. Nid oes angen chwilio am nodiadau papur na gofyn i'r claf

ailadrodd gwybodaeth y mae eisoes wedi'i rhoi, gan fod modd cael gafael ar y dogfennau yn hawdd yn CGNC. Mae hyn yn gwella profiad cleifion ac rhoi mwy o amser i ofal.

Yn ddigidol, rydym wedi gweithio gyda gwasanaethau clinigol a chydweithwyr cenedlaethol i weithredu’r platfform craidd yng Nghaerdydd a’r Fro. Mae hyn yn cynnwys ymgyfarwyddo â dyfeisiau symudol, gosod caledwedd penodol (cartiau gliniadur/dyfeisiau tabled a chypyrddau gwefru), a hefyd weithio gyda chydweithwyr Nyrsio i sicrhau bod unrhyw aelod o'r tîm nyrsio sydd angen mynediad at CGNC yn cael hynny.

Mae hyn i gyd wedi'i wneud mewn dull amlddisgyblaethol gyda chydweithwyr ar draws GDd&I yn gweithio'n agos gyda'r timau Nyrsio i sicrhau bod yr holl ofynion a amlinellwyd ar ddechrau'r prosiect wedi'u bodloni.

## Gofal wedi'i Gynllunio - Mesurau Canlyniad yn ôl Claf (MCCau)

### Beth yw MCCau?

Mae Mesurau Canlyniad yn ôl Claf (MCCau) yn dal safbwyntiau cleifion ar statws iechyd, ansawdd bywyd, a chanlyniadau triniaeth. Mae’r defnyddiau allweddol yn cynnwys:

- Gwella gofal cleifion trwy asesu symptomau, effeithiolrwydd triniaeth, a lles.
- Mesur effaith triniaeth y tu hwnt i ddangosyddion clinigol.
- Tracio datblygiad clefyd ar gyfer ymyrraeth amserol.
- Cefnogi penderfyniadau clinigol gyda data a adroddir gan gleifion.
- Gyrru ymchwil a gwelliannau gofal iechyd.
- Gwneud y mwyaf o ganlyniadau gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth.

## Cynnydd

Fel rhan o Raglen Gwerth mewn Iechyd y BIP, mae'r Bwrdd Iechyd wedi trosglwyddo o My Clinical Outcomes (MCO) i'r platfform Promptly, a gaffaelwyd ym mis Hydref 2024. Mae cynllun mudo wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad â'r Rhaglen Gwerth a'r Grŵp Llywio MCCau.

- Aeth y gwasanaeth cyntaf yn fyw ar Promptly ym mis Ionawr 2025, ac yna tri arall ym mis Chwefror.
- Bydd yr 16 gwasanaeth sy'n dal i ddefnyddio MCO yn mudo erbyn Ebrill/Mai 2025.
- Mae 58 o wasanaethau ychwanegol wedi mynegi diddordeb, gyda chynllun cyflwyno yn cael ei ddatblygu.
- Ffocws allweddol dros y chwe mis nesaf yw integreiddio data MCC i'r Warws Data i wella mewnwelediadau gwasanaeth a gofal cleifion.

## Y Darlun Cenedlaethol

Mae chwe Bwrdd Iechyd Cymru yn mabwysiadu Promptly, gyda Bae Abertawe, Hywel Dda a Chwm Taf Morgannwg eisoes yn fyw, a Felindre ac Aneurin Bevan wrthi'n ei weithredu. Mae dull cenedlaethol cydweithredol yn gyrru mabwysiadu MCCau.

## Cyfluniadau Arbed Ynni Digidol (CAYD)

Mae hwn yn brosiect i gyflwyno sgriptiau arbed ynni i ddyfeisiau bwrdd gwaith BIPCaF.
Mae Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru yn gofyn am ostyngiad o 16% mewn allyriadau CO2 yn y Bwrdd Iechyd erbyn 2025.
Mae costau ynni yn parhau i fod yn uchel yn dilyn yr argyfwng ynni. Mae lleihau defnydd ynni'r ystâd ddigidol yn cyfrannu at gwrdd â'r heriau hyn. Cyflawnir arbedion trwy leihau nifer y cyfrifiaduron yn y Bwrdd Iechyd sy'n cael eu gadael yn segur dros nos ac ar benwythnosau. Yn y 4 mis ers dechrau'r peilot ym mis Hydref 2024, rydym yn amcangyfrif bod dros £130,000 wedi'i arbed drwy ddefnyddio llai o ynni, sy'n cyfateb i 115 tunnell o CO2.

# 5. Cyflawni mewn Partneriaeth

Mewn sawl maes, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwella iechyd a lles ein poblogaeth, ac i ddarparu gwasanaethau ar y cyd. Mae ein partneriaid yn cynnwys sefydliadau eraill GIG Cymru, y ddau awdurdod lleol (Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg), y Trydydd Sector a darparwyr annibynnol.

## 5.1 Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro (BPRhCF)

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal y tîm sy'n gweithio ar ran partneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh). Yn ystod y flwyddyn mae'r tîm wedi cefnogi timau iechyd a gofal i ddarparu ystod o fentrau a gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i roi cymorth a chefnogaeth gynnar i ddinasyddion pan fydd ei angen arnynt i gadw pobl i fyw'n ddiogel ac yn iach yn eu cartrefi eu hunain.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol a gofalwyr di-dâl.

Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu o dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae'n gweithredu gyda'r trefniadau llywodraethu canlynol. Ei ddiben yw gwella lles y boblogaeth a gwella sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu.

Mae'r tîm arweinyddiaeth ar gyfer y BPRh yn cynnwys:

- Charles Janczewski, Cadeirydd BIPCaF a Chadeirydd BPRh,
- Sam Austin, Dirprwy Brif Weithredwr Llamau a Dirprwy Gadeirydd BPRh,

- Y Cynghorydd Ash Lister, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Plant), Cyngor Caerdydd a Dirprwy Gadeirydd BPRh
- Cath Doman, Cyfarwyddwr Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Arweinydd Rhanbarthol BPRh

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal tîm cymorth partneriaeth BPRh ar ran y BPRh ac mae'n gweithredu fel y 'banciwr' a'r gweinyddwr ar gyfer ffrydiau cyllido a gyfeirir trwy'r bartneriaeth, yn enwedig y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol o tua £19.2m a ffyrdiau cyllido cyfalaf.

Gellir dod o hyd i adroddiad blynyddol y BPRh ar gyfer 23/24 yma. Bydd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 24/25 yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin '25 a bydd yn cael ei gyhoeddi yma.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r BPRh wedi cyflawni rhai cerrig milltir arwyddocaol ar ran y bartneriaeth:

i) Rhanbarth Gofal Digidol – rhaglen bartner amlasiantaethol i greu gallu digidol i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau gofal integredig (gweler tudalen 83)
ii) Datblygiadau cyfalaf – hwyluso cyflawni ac ariannu cynlluniau cyfalaf ar draws y bartneriaeth
iii) Diogel yn y Cartref - system gofal cymunedol integredig: cynnydd sylweddol
wrth ddatblygu'r modelau gofal ar gyfer Gofal Cymunedol Uwch, yn bennaf trwy Fwrdd Clinigol GSCCh a lansio'r gwasanaeth Diogel yn y Cartref sy'n atal yn uniongyrchol bresenoldeb a derbyniadau dilynol osgoadwy i'r Adran Frys
iv) Ar gyfer dementia, mae Rhwydwaith Pencampwyr Dementia Caerdydd a'r Fro yn cael ei arwain gan bobl sydd â phrofiadau byw ac mae'n gweithredu fel grŵp craffu a synnwyr cyffredin ar gyfer y rhaglen dementia ehangach. Mae wedi dod yn "lle arbennig, ar gyfer dysgu a myfyrio" gyda gweithwyr proffesiynol a phobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia yn ymrwymo i gyd-gynhyrchu newid a gwella gwasanaethau.

Mae'r BPRh yn parhau i arwain rhaglenni cyflawni partneriaeth sylweddol o fewn y portffolios camau bywyd Dechrau'n Dda, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda, gan fynd i'r afael â'i rwymedigaethau i wella sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu. Dyma rywfaint o waith y BPRh mewn rhifau:

- **Gwasanaeth Rhyddhau Integredig yn 2024:**
  - Tua 901 o gleifion y chwarter
  - Lleihau Oedi yn y Llwybr Gofal gan 13%.
  - Datblygu ymddiriedaeth a diwylliant ar draws sefydliadau
  - 78 wedi'u derbyn i welyau cartref gofal rhyddhau i asesu cam-i-lawr
- **Diogel yn y Cartref:** ein gwasanaeth ymateb creisis amlbroffesiynol, amlasiantaethol newydd. Yn 2024:
  - 870 o ddinasyddion wedi'u cefnogi
  - 687 o dderbyniadau i'r ysbyty wedi'u hosgoi
  - Cefnogwyd 23 yr wythnos ar gyfartaledd
  - 6522 diwrnod gwely wedi'u harbed – sy'n cyfateb i oddeutu 18 o welyau ysbyty
- **Goleudy:** tîm amlasiantaethol yn cefnogi plant a phobl ifanc mewn trallod emosiynol eithafol. Yn wreiddiol i gefnogi rhyddhau diogel, bellach yn canolbwyntio ar osgoi derbyniadau. Cefnogwyd 12 o blant a phobl ifanc ar gyfartaledd bob chwarter yn 2024.
- **Gweithio ar sail clwstwr:** gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar atal gan gynnwys presgripsiynu cymdeithasol – cefnogwyd 54,521 o bobl ers 2022, ar gyfartaledd tua 30,000 y chwarter yn 2024.
- **2 aelod o staff â phrofiad byw o anableddau dysgu:** codwyd ymwybyddiaeth ymysg 849 o weithwyr iechyd proffesiynol ac ymgysylltwyd â 411 o bobl â phrofiad byw.

## 5.2 Gwasanaethau Gofal Iechyd Rhanbarthol

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithio gyda'i fyrddau iechyd cyfagos (BIPCTM a BIPAB) a'r Ymddiriedolaeth (YGIGPF) i ddatblygu a gweithredu modelau gwasanaeth rhanbarthol lle mae gwneud hynny'n gwneud synnwyr i sicrhau bod gwasanaeth yn gynaliadwy, yn bodloni safonau allweddol, ac yn darparu'r canlyniadau gorau i gleifion.

Drwy gydol 2024/25 mae'r bartneriaeth ranbarthol wedi bwrw ymlaen â'r gwaith o gynllunio'r ganolfan triniaeth a diagnosteg ranbarthol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn Llantrisant, sydd wedi arwain at yr holl bartneriaid bellach yn cytuno ar y cyd ar yr achos busnes dros ddarparu endosgopïau penodol ar y safle.

Mae gan y bartneriaeth bellach hefyd raglenni gwaith gweithredol sy'n cwmpasu Offthalmoleg, Strôc, Diagnosteg (radioleg ac endosgopi), Patholeg a Chanser.

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld cynnydd parhaus o ran Offthalmoleg, yn arbennig lle gweithredwyd datrysiad rhanbarthol dros dro ar gyfer y gwasanaeth cataractau cyfaint uchel, cymhlethdod isel. Arweiniodd hyn at fabwysiadu a gweithredu rhestr triniaeth cleifion (RhTC) ranbarthol drwy wasanaeth archebu ac amserlennu rhanbarthol ac,
- ar 31 Mawrth 2025, nid oedd unrhyw glaf ledled de-ddwyrain Cymru yn aros dros 104 am eu gweithdrefn.

## 5.3 Gwasanaethau Arbenigol a Thrydyddol

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ffocws ar

ddarparu gwasanaethau arbenigol a thrydyddol diogel, effeithiol a chynaliadwy drwy ei Grŵp Datblygu Gwasanaethau Trydyddol (GDGT) a'r Bartneriaeth Cynllunio Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol Ranbarthol (PCDGAR) gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA).

Mae'r ddau grŵp yn cael eu gweinyddu gan dîm gwasanaethau trydyddol bach sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan BIPBA ac sy'n gyfrifol am ddarparu'r portffolio partneriaeth ar draws y ddau sefydliad.

## Grŵp Datblygu Gwasanaethau Trydyddol (GDGT)

Mae gan y GDGT rôl hanfodol wrth ddarparu cyngor i'r Uwch Fwrdd Arwain ar gyflawni ei bortffolio eang o wasanaethau arbenigol yn effeithiol ac effeithlon. Er mwyn cefnogi'r amcan hwn, yn 2024 datblygodd a gweithredodd y grŵp drefniadau gweithredu safonol a oedd yn nodi'r meini prawf a'r prosesau ar gyfer nodi gwasanaethau arbenigol, asesu a dilysu risgiau cysylltiedig, gwneud penderfyniadau gwybodus ar ddarparu gwasanaethau, ymateb i geisiadau comisiynwyr, a hysbysu comisiynwyr am gau gwasanaethau.  Mae'n cael ei lywio gan yr Asesiad Sylfaenol Gwasanaethau Trydyddol sy'n cael ei adnewyddu'n flynyddol.

## Partneriaeth Cynllunio Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol Ranbarthol

Mae gan y PCDGAR rôl allweddol yn cefnogi'r gwaith o gynllunio gwasanaethau arbenigol ar gyfer poblogaethau De Cymru, Gorllewin Cymru a De Powys, gan gynnwys gwasanaethau nad ydynt yn cael eu comisiynu gan Gydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru (CBCGC). Mae'r grŵp hefyd yn darparu sesiynau briffio rheolaidd i Dîm Rheoli Prif Weithredwr (TRhPW) GIG Cymru, ac wedi gofyn am gyngor a

chefnogaeth ar nifer o fentrau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys:

- Terfynu a chymeradwyo'r Fanyleb Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Clefydau Heintus Arbenigol
- Cynllun gweithredu ar gyfer gwasanaethau Endocrinoleg Oedolion Arbenigol
- Rhaglen Model Gwasanaeth Hepato-Pancreato-Bustlaidd
- Cynigion i ddatblygu strategaeth a chynllun cyflawni ar gyfer Apheresis Therapiwtig

Mae'r tîm gwasanaethau trydyddol hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r CBCGC i hysbysu:

- datblygiad CTCI CBCGC trwy gynnal asesiad risg o wasanaethau arbenigol yn y ddau sefydliad; a
- dull partneriaeth o adolygu gwasanaethau llawfeddygaeth y galon yn Ne Cymru.

O fewn y portffolio partneriaeth, mae'r tîm gwasanaethau trydyddol wedi ymgymryd â gwaith ar draws y rhaglenni canlynol:

- Llawfeddygaeth Canser Oesoffagogastrig – Cytundeb ar y llwybr cleifion lefel uchel a'r model gwasanaeth ar gyfer BIPBA
- Model Gwasanaeth Hepato-Pancreato-Bustlaidd – Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae hon wedi'i hailddynodi fel rhaglen gyda thri cham craidd:
    - Cam 1 – Rhwydwaith Cyflawni a Rennir – bydd hwn yn gyfrifol am ddatblygu dull uwchranbarthol o reoli Pancreatitis Acíwt Difrifol a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau eraill o fewn llwybr y claf.
    - Cam 2 - Cyfarwyddiaeth Cyflawni a Rennir - bydd hon yn disodli'r rhwydwaith a bydd yn gweithredu fel un tîm rheoli ar gyfer y ddau wasanaeth ac yn cynnal momentwm y prosiect.

- o Cam 3 - Gwasanaeth Cwbl Integredig – bydd hwn yn disodli'r tîm rheoli sengl a bydd yn cynnwys gwasanaeth HPB cwbl integredig ar un safle, gyda thîm cyfarwyddiaeth ymroddedig.



Y nod yw sefydlu'r Rhwydwaith Cyflawni a Rennir yn hydref 2025.

- Llawfeddygaeth Oncoleg Gynae – Cynhaliwyd adolygiad ac ymarfer meincnodi'r model gwasanaeth presennol yn Ne Cymru i lywio'r gwaith o ddatblygu model gwasanaeth diogel, effeithiol a chynaliadwy.

Yn ogystal â'r portffolio partneriaeth, trefnodd a chefnogodd y tîm gwasanaethau trydyddol uwchgynhadledd glinigol ar wasanaethau Haemato-Oncoleg ar gyfer poblogaeth De Cymru, Gorllewin Cymru a De Powys.

# 6. Ein Pobl

## 6.1 Cynllun Pobl a Diwylliant

Mae Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol yn nodi ein huchelgais i fod yn lle gwych i hyfforddi, gweithio a byw, lle rydym yn gwrando ar bobl a'u grymuso i fyw bywydau iach. Rydym am i'n cydweithwyr ein hargymell fel lle gwych i weithio, ac i'n gweithlu adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau. Un o'n hamcanion strategol yw Rhoi Pobl yn Gyntaf - sy'n cynnwys ein timau, ein cleifion a'n poblogaeth - gan ein bod yn gwybod bod pobl wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae'r Cynllun Pobl a Diwylliant (2022-25) a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2022 yn allweddol i gyflawni'r amcan hwn gan ein bod yn gwbl ddibynnol ar ein gweithlu i ddiwallu anghenion iechyd a gofal ein poblogaeth yn effeithiol.

Rydym yn parhau i sefydlu'r Cynllun ac yn 2024-25 gwnaed cynnydd yn y Byrddau Clinigol, ac yn gorfforaethol trwy'r tîm Pobl a Diwylliant. Rydym wedi gweld llwyddiannau sylweddol ac rydym ar y trywydd iawn mewn sawl maes yn erbyn y Cynllun, ond rydym wedi parhau i wynebu nifer o heriau ac wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r rhain, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd a sicrhau bod ansawdd, gwelliant ac effeithlonrwydd ar flaen y meddwl yn ein gweithgareddau. Wrth i 7 thema'r Cynllun Pobl a Diwylliant ddod yn fwy sefydledig yn ein 'busnes fel arfer', mae wedi dod yn fwyfwy amlwg, er eu bod yn dal i sefyll fel themâu dilys o fewn y Cynllun, fod llawer iawn o orgyffwrdd o ran y cyflawni o ddydd i ddydd. Ar gyfer 2024/25 cyfunwyd y 7 thema i mewn i 3 amcan a ffurfiodd ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn.

**Mae pobl yn teimlo eu bod yn eu cefnogi a'u cynnwys**

- Gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'n pobl
- Deall a gwella ein diwylliant
- Hyrwyddo a gwella iechyd a lles ein staff
- Darparu addysg a datblygiad o ansawdd uchel i'n gweithlu

**Denu a recriwtio pobl gyda'r sgiliau, galluoedd, gwerthoedd a phrofiadau cywir i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ein poblogaeth**

- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddenu ymgeiswyr gyda'r gwerthoedd a'r ymddygiadau cywir
- Gwella profiad recriwtio ar gyfer ymgeiswyr a rheolwyr
- Sicrhau ein bod yn gyflogwr cynhwysol

**Sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu gan y tîm cywir: gweithlu sy'n fforddiadwy, yn gynaliadwy ac yn integredig i ddiwallu anghenion gwasanaeth nawr ac yn y dyfodol ac sy'n adlewyrchu ein poblogaeth**

- Adeiladu capasiti a gallu cynllunio'r gweithlu ar sail methodoleg safonol
- Gwella cywirdeb ein data pobl a symud o adrodd i ddadansoddeg
- Cofleidio a datblygu systemau sy'n cefnogi'r BIP yn ei ymdrech i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Datblygu ffyrdd newydd o weithio i greu diwylliant sy'n torri trwy rwystrau systemau, sectorau a phroffesiynol

Mae ein staff yn hanfodol i sicrhau y gallwn wneud beth sydd angen i ni ei wneud ar gyfer ein cleifion, ein teuluoedd a'n cymunedau.
Rydym yn hynod ddiolchgar am bopeth y mae ein staff yn ei wneud a'r gwaith caled a'r ymrwymiad y maent yn parhau i'w ddangos. Fel sefydliad sy'n cyflogi dros 17,000

o bobl, ni allwn ddibynnu ar ddod â phobl newydd i'n gweithlu yn unig; mae angen i ni wella sut rydym yn cadw, yn rheoli, yn datblygu ac yn gofalu am les ein gweithlu presennol.

## 6.2 Denu a Recriwtio

Mae prinder gweithwyr proffesiynol a gweithwyr allweddol yn y GIG yn cael llawer o gyhoeddusrwydd ac mae'n her sy'n wynebu holl sefydliadau'r GIG yn genedlaethol. Gall yr anallu i recriwtio staff sydd â'r sgiliau a'r profiad cywir gyfyngu'n ddifrifol ar ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Eleni rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar y 3 thema allweddol ganlynol i sicrhau ein bod yn gallu denu a chadw'r staff sydd eu hangen i ddarparu ein gwasanaethau i safon uchel:

### Hyrwyddo Cyfleoedd Swyddi'r GIG

Nid yw cyfran fawr o'r boblogaeth yn ymwybodol bod gan y GIG dros 350 o rolau gwahanol ar gael ar gyfer cyflogaeth. Bu ffocws mawr dros y flwyddyn ddiwethaf ar sicrhau ein bod yn cyrraedd cymaint o ddarpar ymgeiswyr ag y gallwn i hyrwyddo'r nifer fawr ac amrywiol o gyfleoedd gwaith sydd gennym ni. Mae'r ymateb wedi bod yn ysgubol a byddai llawer o'r rhai y gwnaethom gyfathrebu â nhw nawr yn ystyried dilyn gyrfa gyda BIP Caerdydd a'r Fro.

### Proffesiynau lle ceir Prinder

Rydym wedi gweithio'n agos gyda nifer o brifysgolion, colegau, ysgolion a llawer o sefydliadau cymorth gyrfaol y sector cyhoeddus sydd wedi cael effaith fawr ar recriwtio i lawer o'n swyddi gwag hirdymor. Cyfran fwyaf ein gweithlu yw staff nyrsio a chafwyd llwyddiant mawr wrth leihau ein ffactor swyddi gwag o dros 13% i lai na 5%.

### Recriwtio Cynhwysol

Ffocws allweddol yn 2024-25 oedd parhau i ddatblygu a chynnal cysylltiadau agos â'r grwpiau hynny yn y gymuned leol nad ydynt yn cael eu cynrychioli cystal o fewn ein gweithlu. Roeddem hefyd eisiau gwella cyfleoedd i'r rhai a allai fod yn grediniol eu bod dan anfantais wrth ymgeisio am swyddi yn erbyn ymgeiswyr eraill. Fel sefydliad angori rydym wedi ein gwreiddio'n ddwfn yn ein cymuned leol ac yn defnyddio ein dylanwad i gefnogi lles economaidd a chymdeithasol.
Gan ein bod yn un o'r cyflogwyr mwyaf yn y rhanbarth, mae gennym gyfrifoldeb i greu cyfleoedd, hyrwyddo cyflogaeth gynhwysol a gwella bywydau'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu. O ystyried bod gan Gaerdydd ardaloedd sylweddol o amddifadedd, mae ein ffocws ar brosiectau o fewn y cymunedau hynny.

Mae rhai o'r prif lwyddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys:

- **DFN Project Search** – rhaglen paratoi at gyflogaeth blwyddyn o hyd sy'n helpu pobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau i ennill cyflogaeth barhaol. Ers i'r prosiect **lansio yn 2021**, mae cyfanswm o **38 o bobl ifanc** wedi cymryd rhan, gyda mwy na hanner y rhai a gymerodd ran yn 2023-24 yn ennill cyflogaeth barhaol o ganlyniad. Oherwydd llwyddiant y prosiect, rydym wedi cael ein henwebu ac wedi ennill nifer o wobrau, yn amrywio o Wobrau AD Prydain, DFN Project Search a Gwobrau'r Adran Pobl a Diwylliant.
- **Ysgolion a Cholegau** – Rydym wedi ffurfio partneriaeth ag Addewid Caerdydd a Gyrfa Cymru i hyrwyddo rolau'r GIG i bobl ifanc; aethom i dros 88 o

ddigwyddiadau mewn ysgolion a cholegau ers dechrau blwyddyn academaidd 2024. Yn ogystal, gwnaethom gyflwyno'n rhithwir i

dros 2000 o ddisgyblion i arddangos y rolau a'r cyfleoedd amrywiol y mae'r GIG yn eu cynnig, gyda llawer o’r disgyblion mewn ardaloedd difreintiedig. Bydd y digwyddiadau hyn yn plannu hadau o ran y rolau sydd ar gael ar gyfer gweithlu’r dyfodol.

- **Prentisiaethau** – Mae 2024-25 wedi bod yn flwyddyn dda i'r Academi Brentisiaethau; cawsom ganmoliaeth fel cyflogwr mawr gan ACT Training yn eu Gwobrau 'Llwyddiant trwy Sgiliau' a’n cydnabod fel Partner Busnes Gwerthfawr gan Goleg Caerdydd a'r Fro. Eleni rydym wedi penodi 17 o brentisiaid newydd mewn rolau gweinyddol, digidol, Peiriannydd Cynnal a Chadw dan Hyfforddiant ac wedi ehangu i'n cynnig Gofal Plant cyntaf. Mae trafodaethau llwyddiannus wedi’u cynnal gyda’n tîm arlwyo manwerthu a bydd prentisiaethau newydd yn dechrau yn y flwyddyn ariannol newydd. Mae 9 prentis wedi cwblhau eu rhaglenni a chael cynnig rolau parhaol neu ddilynol yn eu hadran neu mewn maes arall.
- Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn y **sector Carchardai a’r Gwasanaeth Prawf, y sector digartrefedd, y sector gofal a gwasanaethau ffoaduriaid** i gefnogi unigolion i gael profiad gwaith neu gyfleoedd cyflogaeth nad ydynt fel arfer ar gael iddynt.

## 6.3 Cadw ein Pobl

Fel sefydliad sy'n cyflogi dros 16,000 o bobl ac sy'n gweithredu ar adeg lle mae prinder mewn cyflenwadau gweithlu, rydym yn parhau i gadw ffocws parhaus ar wella sut rydym yn cadw, arwain, datblygu a gofalu am les ein gweithlu presennol. Mae hyn wedi parhau i fod yn amcan allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf o dan flaenoriaeth y Cynllun Pobl a Diwylliant sef bod 'bobl

yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu datblygu, eu cefnogi a'u cynnwys'.
Yn ystod 2024/25 mae'r BIP wedi canolbwyntio ar ddeall diwylliant ac arweinyddiaeth mewn gwahanol feysydd

- Mae 2024/25 wedi gweld ffocws ar ddiwylliant ac arweinyddiaeth sydd wedi'i hwyluso trwy weithredu'r 'Rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth' mewn meysydd blaenoriaethol ledled y BIP. Mae'r rhaglen hon wedi galluogi timau i ymgysylltu â chydweithwyr i 'ddarganfod' sut mae'r gweithlu yn teimlo am elfennau allweddol o'u bywyd gwaith, gan hefyd nodi atebion rhagweithiol a chydweithredol i wella neu ddysgu o arfer da.
- Yn 2024 ail-lansiwyd y Rhaglen Datblygiad Gyrfa Mewnol.
  Mae'r rhaglen hon yn darparu cynllun datblygu gyrfa i Nyrsys Band 5 sy'n chwilio am gyfle o fewn y BIP ar yr un band. Gall staff nyrsio nawr ragweld eu llwybr gyrfaol trwy drosglwyddiad; gan eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth glinigol wrth ddatblygu nodau proffesiynol. Yn ogystal, bydd ymdrechion a ddyblygir rhwng yr holl bartïon sydd fel arfer yn ymwneud â phroses recriwtio yn cael eu dileu yn y rhan fwyaf o achosion neu eu lleihau (yn dibynnu ar yr arbenigedd) ac yn hytrach yn cael eu disodli gan broses symlach a di-dor
- Mae gwrando ar yr adborth gan staff bob amser wedi bod yn bwysig, a gweithredu arno hyd yn oed yn bwysicach. Yn 2024, anogodd y BIP gydweithwyr i gymryd rhan yn Arolwg Staff GIG Cymru drwy ystod o sianeli cyfathrebu gan gynnwys ymweliadau â wardiau, mynychu shifftiau nos, copïau papur, a chefnogaeth i ddefnyddio tabledi. Mae'r ymgyrch lwyddiannus hon

wedi arwain at gynnydd mewn cyfranogiad o 21.4% i bron i 28%. Ar hyn o bryd mae'r BIP yn edrych ar ganlyniadau'r arolwg a'r sesiynau ymgysylltu i sicrhau gweithredu ac mae gwaith cyd-gynhyrchu cynlluniau gwella eisoes wedi'i drefnu ar gyfer 2025-26.

## 6.4 Lles y Gweithlu

Mae hyrwyddo a gwella iechyd a lles ein staff wedi parhau i fod yn flaenoriaeth uchel ar gyfer 2024-25 a bydd yn parhau i fod yn thema allweddol wrth i ni symud i mewn i 2025-26. Yn benodol, rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau bod rheolwyr yn teimlo eu bod wedi'u paratoi a'u cefnogi i ddelio â hyn, gyda ffocws arbennig ar gefnogi cydweithwyr sy'n dioddef o straen, gorbryder ac iselder.

Mae'r Gwasanaeth Iechyd a Lles Pobl yn chwarae rhan annatod yn natblygiad parhaus cymorth a darpariaeth i staff. Yn 2024-25 mae hyn wedi cynnwys:

- Parhau i ddarparu gwasanaeth cwnsela mewnol sydd wedi gwella lefelau lles yn weithredol, tra'n cefnogi pobl i deimlo'n ddigon iach i ddychwelyd i'r gwaith yn gyflymach a/neu aros yn y gwaith. Eleni mae'r amseroedd aros rhwng apwyntiadau Adnoddau a Cwnsela wedi gostwng o 77 i 33 diwrnod (targed LlC 182 diwrnod), ac mae canran y staff sy'n aros 'i ffwrdd o'r gwaith' yn dilyn ymyriad gwasanaeth lles cyflogeion wedi gostwng o 17% i 4%
- Mae ystod o therapïau newyddach sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi'u cyflwyno a/neu eu gwella, gan gynnwys Therapi Rhyngbersonol (ThRhB), Therapi Derbyn ac Ymrwymo (ThDY), Therapi Ailbrosesu a Dadsensiteiddio Symudiadau Llygaid (ADSLl), a Therapi sy'n Canolbwyntio ar Ddatrysiad (ThCDd).

- Gyda'r pryder parhaus ynghylch y 'costau byw' mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn rhagweithiol wrth barhau i gefnogi ei weithwyr yn ystod yr amseroedd heriol hyn, mae hyn wedi cynnwys Hyrwyddo llwybr lles ariannol staff drwy Sioeau Teithiol Lles ar draws y BIP a hyrwyddo ac ymgysylltu parhaus â'r Platfform Lles Ariannol, Wagestream.

## 6.5 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) newydd ar gyfer 2024-2028 yn amlinellu ein hymrwymiad i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth, hawliau dynol, a'r Gymraeg ledled y Bwrdd Iechyd. Mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd yn agos â'n strategaethau cyffredinol, gan gynnwys Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol, y Cynllun Pobl a Diwylliant, ein Cynllun Tymor Canolig Canolraddol, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Yn 2024-2025, gwnaethom barhau â'n hymdrechion i greu sefydliad mwy cynhwysol i'n staff a'n cymunedau. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â staff a grwpiau cymunedol, codi ymwybyddiaeth o anghydraddoldebau drwy sesiynau ymwybyddiaeth, gweithio ar y cyd â chydweithwyr ar draws GIG Cymru a'r sector cyhoeddus, a dathlu amrywiaeth ein gweithlu a'n cymuned.  Mae diweddariadau allweddol yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

- Creu ein pedwerydd iteriad o Galendr Cynhwysiant a'i rannu ar draws sefydliadau. Mae'n tynnu sylw at ddyddiadau allweddol drwy gydol y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth a dathlu ein hamrywiaeth.
- Bwrw ymlaen â'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol drwy gyd-gynhyrchu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'n Rhwydwaith Staff Un Llais ac undebau llafur partner.

- Dechrau datblygu ein Cynllun Gweithredu LHDTC+ i alinio â'r fersiwn Cymru gyfan.
- Parhau i hyrwyddo ein Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol.
- Derbyniwyd ein hadroddiad cyntaf ar Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu (SCHG) a dechreuwyd gwaith ar ei ddatblygu.
- Parhau i gefnogi ein rhwydweithiau staff ac ymgymryd ag adolygiad o rwydweithiau staff o fewn y Bwrdd Iechyd.
- Mynychu Pride Cymru gyda chydweithwyr o bob rhan o GIG Cymru.
- Cefnogi datblygiad ein rhwydweithiau staff, gan gynnwys:
    - Rhwydwaith Staff Un Llais – ar gyfer ein staff o gymunedau lleiafrifoedd ethnig
    - Access Ability – ar gyfer ein staff ag anableddau a chyflyrau iechyd tymor hir
    - Rhwydwaith Staff LHDTC+ – ar gyfer ein staff LHDTC+
    - Rhwydiaith – i'n staff sy'n ddefnyddwyr neu'n ddysgwyr Cymraeg
    - Rhwydwaith Cenedlaethau'r Dyfodol – i gefnogi a datblygu ein harweinwyr ar gyfer y dyfodol
- Ymgysylltu â'n cymunedau, gan gynnwys cynnal stondinau Tegwch a Chynhwysiant yn ein ffeiriau gyrfaoedd.
- Parhau i ddatblygu ein rhaglen Llysgenhadon Cynhwysiant, sydd wedi'i hanelu at gefnogi uwch arweinwyr, gan gynnwys ar lefel y Weithrediaeth a'r Bwrdd, i ddeall profiad byw ein gweithlu amrywiol yn well. Y rhaglen i gefnogi pob un o'r nodweddion gwarchodedig a'r iaith Gymraeg.

Eir i'r afael â diogelu'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau cysylltiedig - cydnabuwyd ers tro bod yr agendâu polisi Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn ategu ac yn llywio

ei gilydd. Fe'i cefnogir ymhellach drwy'r nod o fewn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu.
Ein nod yw cynnal ac atgyfnerthu'r egwyddor honno drwy ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a sicrhau eu bod yn hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fynd y tu hwnt i'n rhwymedigaethau cyfreithiol, gan gymhwyso'r egwyddorion sy'n rhan o'r Ddeddf Cydraddoldeb a’r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus i'n holl feddwl, cynllunio a phenderfyniadau er budd ein holl bobl, yn ein sefydliad a'n cymunedau.

## 6.6 Cynllunio’r Gweithlu

Mae gweithlu sydd wedi'i gynllunio'n effeithiol yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau gofal o ansawdd da. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi ystod o staff clinigol ac anghlinigol sy'n darparu gwasanaethau ar draws gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol. Dros y blynyddoedd mae pryderon amlwg wedi codi am gynaliadwyedd gweithlu'r GIG ac mae heriau'n parhau er gwaethaf cynnydd cyffredinol yn ein gweithlu. O ystyried yr heriau presennol, mae cynllunio gweithlu cadarn ac arloesol yn bwysicach nag erioed. Mae cynllunio gweithlu effeithiol yn sicrhau bod gan wasanaethau presennol a gwasanaethau’r dyfodol y gweithlu sydd ei angen i ddarparu lefelau disgwyliedig o wasanaeth yn effeithiol ac yn ddiogel.

Mae cynllunio yn arbennig o bwysig o ystyried yr amser sydd ei angen i hyfforddi rhai grwpiau staff, yn enwedig staff meddygol.

Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau cynllunio'r gweithlu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn 2023 ac mae'r casgliad cyffredinol yn darllen "yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â’i

heriau gweithlu sylweddol. Fodd bynnag, mae angen iddo sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau i gynllunio’r gweithlu er mwyn cefnogi’r gwaith o gyflawni’r cynllun pobl a deall yn well effaith y camau y mae'n eu cymryd. Canfu’r adolygiad fod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'i heriau gweithlu sylweddol." Gwnaed set o chwe argymhelliad fel rhan o'r adroddiad ac mae cynnydd da wedi'i wneud yn erbyn cyflawni'r rhain, gan gynnwys:

- Penodi arweinydd Cynllunio’r Gweithlu a Thrawsnewid Strategol.
- Adolygwyd Amcanion y Cynllun Pobl a Diwylliant ar ddiwedd yr ail flwyddyn o weithredu ac fe’u symleiddiwyd yn dri amcan clir, wedi'u halinio â’n strategaeth hirdymor ddiwygiedig, Llunio Ein Llesiant i’r Dyfodol.
- Un o'r tair blaenoriaeth P&D allweddol y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer CTCI 25/26 yw meithrin arbenigedd cynllunio gweithlu.
- Mae'r broses gomisiynu addysg yn cael ei mireinio a bydd yn cael ei halinio â'r broses CTCI o 25/26.
- Cynhaliwyd cyfres o weithdai Ail-lunio yn ystod 2024-25 ar draws yr holl Fyrddau Clinigol i archwilio sut y gallwn ail-ddylunio ein model gweithlu i adeiladu gweithlu cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- Roedd rhan o Adroddiad Sganio’r Gorwel Rhaglen Gwasanaethau Clinigol Llunio Ein Dyfodol yn cynnwys y gweithlu, a gafodd ei drosi’n rhagdybiaethau cynllunio gweithlu allweddol lefel uchel. Cyhoeddwyd y rhagdybiaethau hyn fel rhan o'r adroddiad hwn; a ddefnyddiwyd fel rhan o ganllaw cynllunio CTCI 2024-25; wedi'i rannu'n eang ar draws y Bwrdd Iechyd ac ar draws Rhwydwaith Cynllunio'r Gweithlu Cymru.

Mae gwaith bellach wedi dechrau i adolygu'r cynnydd yn erbyn gweithredu’r gwahanol Gynlluniau Gweithlu Strategol Cymru Gyfan, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r Cynllun Iechyd Meddwl.

## 6.7 Gweithlu Cynaliadwy a Fforddiadwy

Drwy gydol 24/25 rydym wedi parhau i leihau ein gor-ddibyniaeth ar y gweithlu dros dro, yn enwedig asiantaethau, sydd wedi arwain at ostyngiad costau o oddeutu £13m. Cyflawnwyd hyn trwy nifer o fecanweithiau

- Gweithlu Meddygol - Mudo gweithwyr asiantaeth yn llwyddiannus i swyddi parhaol/cyfnod penodol, yn enwedig ymgynghorwyr acíwt a meddygon arbenigedd seiciatreg, cydymffurfiaeth 100% o ran y cerdyn cyfradd cronfa fewnol, cyfradd llenwi cronfa o >90% yn gyson, ac effeithlonrwydd Ymgysylltu Uniongyrchol o 100%
- Gweithlu Nyrsio – defnyddio'r system e-Roster i yrru effeithlonrwydd a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata, parhau i ymgorffori egwyddorion amserlennu effeithiol yn ein diwylliant, gwella craffu asiantaeth, cronfa a goramser, a chynyddu’r gyfradd llenwi cronfa.

Yn 2025-26 byddwn yn parhau i wella sefyllfa’r gweithlu dros dro, tra'n rhoi mwy o bwyslais ar ddeall twf ein gweithlu. Byddwn yn datblygu cynllun cwtogi’r gweithlu sy'n sicrhau gostyngiad yn y bil cyflog, tra'n sicrhau bod ansawdd gofal a lles a phrofiad ein cydweithwyr yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth.

# 7. Casgliadau a Rhagolwg

Bu llawer o lwyddiannau i'r BIP yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae cyflawni ein cynllun 2024/2025 wedi bod yn dasg anodd; fodd bynnag, mae ein pwyslais wedi parhau i fod ar sicrhau bod ansawdd a gwerth yn sail i'n dull gweithredu ac rydym yn falch o'r perfformiad a'r gofal rydym wedi'u darparu a'u cyflawni ar draws llawer o'n gwasanaethau.

Ein pwyslais yw blaenoriaethu'r cleifion hynny y mae angen gwasanaethau brys ac argyfwng arnynt, a'n hail faes ffocws blaenoriaethol yw cleifion y mae angen gofal amser-gritigol arnynt, gan gynnwys triniaeth canser. Ein trydydd ffocws blaenoriaethol wedyn yw gwasanaethau wedi'u cynllunio a dewisol. Trwy gymhwyso parhaus a chyson, mae cleifion yng Nghaerdydd a'r Fro unwaith eto wedi aros llai o amser am ambiwlans ar gyfartaledd, wedi treulio llai o amser yn ein hadran achosion brys ac wedi derbyn triniaeth canser yn gyflymach nag mewn rhannau eraill o Gymru.

Yn dilyn ad-drefnu ein hadrannau achosion brys a'n hunedau asesu yn llwyddiannus yn 2024/25, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i fod yn eithriad cadarnhaol yng Nghymru mewn perthynas â pherfformiad trosglwyddo ambiwlansys. Yn yr un modd, rydym yn parhau i weld cyfran is o gleifion yn aros dros 12 awr yn ein hadrannau brys.

Mae cymaint o waith gwych yn digwydd bob dydd ar draws y Bwrdd Iechyd, ac mae rhai o uchafbwyntiau allweddol y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys y Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yng nghyfres Savings Lives in Cardiff y BBC. Roedd yn cynnwys 6 phennod a ddarlledwyd ym mis Medi a Hydref 2024 yn dangos sut mae timau clinigol a gweithredol yn gweithio'n galed i roi pobl yn gyntaf yn erbyn cefndir amseroedd aros sylweddol. Trwy agor drysau i'r BBC, rhoddodd y rhaglen gipolwg ar y penderfyniadau anodd y mae llawer o gydweithwyr yn eu gwneud bob dydd a'r arbenigedd, y proffesiynoldeb a'r tosturi sy'n gysylltiedig â gofalu am iechyd pobl.

Mae gennym rai cydweithwyr gwirioneddol ysbrydoledig yn gweithio ar draws y BIP ac roedd yn wych gweld nifer yn cael eu cydnabod am eu hymroddiad i ddarparu gofal o ansawdd rhagorol yn ystod y flwyddyn. Mae rhai o'r cydnayddiaethau'n cynnwys:

- Dyfarnwyd MBEs i'r Meddyg Ymgynghorol **Dr Hamsaraj Shetty** am ei wasanaethau i ofal strôc a'r **Athro Antony Johansen**, Ortho-Geriatregydd Ymgynghorol, am ei wasanaethau i bobl hŷn.
- Enwyd **Madelaine Watkins**, Nyrs Glinigol Arbenigol ar gyfer Seicosis mewn Oedolion Hŷn, yn **Nyrs y Flwyddyn CBC Cymru 2024**.
- Cydnabuwyd **Lisa Franklin, Tim Nicholls, Julia Somerford, Kim Baker, Jade Cole, a Diana Mehrez** hefyd yn y seremoni am eu hymrwymiad rhagorol i ansawdd.

Gweithredwyd y Llwybr Torri Clun Cyflym dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae wedi arwain at welliannau sylweddol yn nhaith y claf i'r fath raddau fel bod BIP Caerdydd a'r Fro bellach yn un o'r unedau torri clun sy'n perfformio orau yn y DU.

Cyflwynwyd Ciosgau eBrysbennu yn yr Uned Argyfwng yn Ysbyty Athrofaol Cymru i wella profiad cleifion, cynyddu effeithlonrwydd a chefnogi'r tîm brysbennu clinigol i flaenoriaethu'r cleifion hynny sydd fwyaf mewn angen.

Yn ein digwyddiad Bywydau Iach a gynhaliwyd ym mis Mawrth yn ystod Ramadan yn Stadiwm Dinas Caerdydd, cynigiwyd cyfle i fenywod o ffydd Islamaidd ddysgu mwy am bwysigrwydd sgrinio’r fron, ceg y groth a'r coluddyn, yn ogystal â brechiadau plentyndod.

**Diogel yn y Cartref** – ehangodd y gwasanaeth gofal sylfaenol, gan ddarparu dewis amgen diogel i bobl hŷn a bregus i'r ysbyty trwy ddarparu gofal yn eu cartrefi eu hunain.

Wrth i ni symud ymlaen ac edrych tuag at 2025/26, bydd ein rhaglen 6 nod yn talu sylw ychwanegol i wella llif yn yr ysbyty a lleihau'r amser y mae cleifion yn ei dreulio yn yr ysbyty. Gan alinio â'r rhaglenni cenedlaethol, gan gynnwys y Fframwaith Llif Ysbyty Optimaidd, rydym wedi ymrwymo i leihau’r hyd arhosiad cyfartalog ar draws ein wardiau meddygaeth yn sylweddol. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a GIG Cymru wrth i ni gryfhau cynaliadwyedd a'r defnydd effeithiol o adnoddau i wella ansawdd, effeithlonrwydd a chynhyrchiant ar draws y sefydliad yng ngoleuni'r statws uwchgyfeiriol Lefel 4 (ymyrraeth wedi'i thargedu) ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio



# Rhan 2

# Adroddiad Atebolrwydd

# 7. Cwmpas yr Adroddiad Atebolrwydd

Pwrpas adran atebolrwydd yr Adroddiad Blynyddol yw bodloni gofynion atebolrwydd allweddol Llywodraeth Cymru, a rhoi trosolwg o'r llywodraethiant, y trefniadau atebolrwydd a'r strwythurau a oedd ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd yn ystod 2024-2025. Mae'n cynnwys:

- Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol
- Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff
- Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru

## 7.1 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae hwn wedi'i gynnwys yn adran 17.4 Rheoli Arian Cyhoeddus yr Adroddiad Atebolrwydd Seneddol ac Archwilio

***Llofnodwyd gan:***

***Suzanne Rankin***
***Prif Weithredwr a Swyddog Atebol***

## 7.2 Cyfansoddiad y Bwrdd

Mae gan BIPCaF 21 o aelodau Bwrdd sy’n cynnwys 11 o Aelodau Annibynnol (gan gynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd), y mae pob un ohonynt yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a 9 Cyfarwyddwr Gweithredol (gan gynnwys y Prif Weithredwr). Mae gan bob aelod o'r Bwrdd hawliau pleidleisio llawn.

Mae 2 swydd Cyfarwyddwr hefyd, y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Deallusrwydd Iechyd a Digidol, sy'n rhan o'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd ond heb unrhyw hawliau pleidleisio.

Yn ogystal, gall Gweinidogion Cymru benodi hyd at 3 Aelod Cyswllt ar lefel Bwrdd. Nid oes gan Aelodau Cyswllt unrhyw hawliau pleidleisio. Ar hyn o bryd mae gan BIPCaF un Aelod Cyswllt a benodwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn argymhelliad gan BIPCaF yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Cyn y gellir penodi unigolyn yn Aelod rhaid iddo fodloni'r gofynion cymhwysedd perthnasol, a nodir yn Atodlen 2 Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009, a pharhau i fodloni'r gofynion perthnasol drwy gydol yr amser y mae’n dal y swydd. Gellir gweld y Rheoliadau drwy'r ddolen ganlynol:

https://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/779/contents

## 7.3 Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol y Bwrdd Iechyd

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai’r Prif Weithredwr ddylai fod Swyddog Atebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra’r cyllid cyhoeddus y maent yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, wedi'u nodi yn y Memorandwm Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gallaf gadarnhau:

- Hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ymwybodol ohoni, ac rwyf wedi cymryd pob cam y dylid bod wedi'i gymryd i wneud fy hun

yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

- Mae adroddiad blynyddol a chyfrifon Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac rwy'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol a'r dyfarniadau sydd eu hangen i bennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.
- Rwy'n gyfrifol am awdurdodi'r broses o gyhoeddi'r datganiadau ariannol ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a nodir yn fy llythyr penodi fel Swyddog Cyfrifol.

***Llofnodwyd gan:***

***Suzanne Rankin***
***Prif Weithredwr a Swyddog Atebol***

***Dyddiad:*** ++++

## 7.4 Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn Perthynas â'r Cyfrifon

O dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cyfarwyddo bod y cyfrifon hyn yn cynnig golwg wir a theg o gyflwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac incwm a gwariant Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- Cymhwyso'n gyson egwyddor gyfrifo a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys
- Llunio barn ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ddoeth
- Nodi a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw ymadawiadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y cyfrif.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr awdurdod yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg ac i'w galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd uchod gan Weinidogion Cymru.

### Trwy Orchymyn y Bwrdd

***Ar ran y Cadeirydd***:

Llofnod:

Charles Janczewski

***Dyddiad:*** ++++

***Prif Weithredwr a Swyddog Atebol:***

Llofnod:

Suzanne Rankin

***Dyddiad:*** ++++

***Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid***

Llofnod:

Catherine

Phillips ***Dyddiad:***

++++

## 8.5 Datganiad Buddiannau

Mae manylion cyfarwyddwyr cwmnïau a buddiannau sylweddol eraill a ddelir gan aelodau'r Bwrdd a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau yn cael eu cadw a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae Cofrestr o Fuddiannau ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd drwy glicio ar y ddolen ganlynol [https://cavuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/register-of-interests-gifts-and-hospitality/.](https://cavuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/register-of-interests-gifts-and-hospitality/)








# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

# 8. Datganiad Llywodraethu Blynyddol

## 8.1 Cwmpas Cyfrifoldeb

Mae'r Bwrdd yn atebol am Lywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol.
Fel Prif Weithredwr y Bwrdd, rwy'n gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethiant priodol, yn ogystal â system rheolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad, tra'n diogelu arian y cyhoedd ac asedau'r sefydliad, yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt. Cyflawnir y rhain yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd gan Swyddog Atebol GIG Cymru.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y bu'n rhaid i'r sefydliad weithio'n fewnol a chyda phartneriaid mewn ymateb i'r pwysau digynsail o ran cynllunio a darparu gwasanaethau.
Mae'n esbonio trefniadau ar gyfer sicrhau bod safonau llywodraethu'n cael eu cynnal, bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru a bod sicrwydd wedi'i geisio a'i ddarparu. Lle bo angen, darperir gwybodaeth ychwanegol yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB). Fodd bynnag, y bwriad oedd lleihau dyblygu lle bo hynny'n bosibl. Felly, mae angen adolygu adrannau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol ochr yn ochr â'r DLlB.

Mae'r DLlB hwn yn manylu ar y trefniadau sydd ar waith yn ystod 2024-2025 i gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Prif Swyddog Gweithredol y Bwrdd Iechyd, ac i reoli adnoddau'r Bwrdd Iechyd. Mae hefyd yn nodi i ba raddau y mae'r sefydliad yn cydymffurfio â'i drefniadau llywodraethu ei hun, sydd ar waith i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddiben cyffredinol, sef ei fod yn gweithredu'n effeithiol ac yn darparu gofal diogel o ansawdd i gleifion, trwy arweinyddiaeth gadarn, stiwardiaeth gref, atebolrwydd clir, craffu a herio cadarn, ymddygiadau moesegol a chydymffurfiaeth â'n gwerthoedd a'n hymddygiadau penodol. Bydd yn nodi rhai o'r heriau a'r risgiau y daethom ar eu traws a'r rhai y byddwn yn parhau i'w hwynebu wrth symud ymlaen.

Mae'r Uwch Fwrdd Arwain yn fy helpu fel Prif Weithredwr i gyflawni fy nghyfrifoldebau ac yn cwrdd bob pythefnos am drafodaeth ffurfiannol, i gynnig cefnogaeth ac i wneud penderfyniadau. Mae'r tîm Swyddogion Gweithredol Rheoli yn cyfarfod yn wythnosol ac mae ganddynt gysylltiadau cryf â'r holl fforymau llywodraethu perthnasol y tu mewn a'r tu allan i BIPCaF.

## 8.2 Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd

O dan y Cyd-drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd, mae Llywodraeth Cymru yn cyfarfod ag Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (Grŵp Teirochrog) ddwywaith y flwyddyn i drafod asesiad cyffredinol pob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Arbennig mewn perthynas â'r trefniadau. Ystyrir ystod eang o wybodaeth a deallusrwydd i nodi unrhyw faterion a llywio'r asesiad.
Mae gan y fframwaith bum lefel uwchgyfeirio:

- Trefniadau arferol
- Maes o Bryder
- Monitro uwch
- Ymyrraeth wedi'i thargedu
- Mesurau arbennig

Ar 11 Mawrth 2025 cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a

Gofal Cymdeithasol yn y Senedd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn cael ei uwchgyfeirio o

drefniadau monitro uwch i Lefel 4, Ymyrraeth wedi'i Thargedu ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio. Mae'r BIP wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i gryfhau cynaliadwyedd a'r defnydd effeithiol o adnoddau i wella ansawdd, effeithlonrwydd a chynhyrchiant ar draws y sefydliad yng ngoleuni'r uwchgyfeiriad.

# Y Fframwaith Llywodraethu

## 8.3 Rheolau Sefydlog Enghreifftiol a Chynllun Cadw'n Ôl a Dirprwyo

Ar lefel leol, mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd yng Nghymru gytuno ar Reolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes. Maent wedi'u dylunio i drosi'r gofynion statudol a nodwyd yn y Rheoliadau BILl (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 yn waith gweithredu dyddiol, ac ynghyd â mabwysiadu cynllun materion a gedwir yn ôl ar gyfer y Bwrdd; Cynllun Dirprwyo ar gyfer swyddogion a phobl eraill; a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maent yn darparu'r fframwaith rheoliadol ar gyfer cyflawni busnes y Bwrdd Iechyd ac yn diffinio ei 'ffyrdd o weithio'. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'r ystod o bolisïau corfforaethol a osodwyd gan y Bwrdd, yn ffurfio'r Fframwaith Llywodraethu.

Mae'r rhain ar gael o https://cavuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/policies-procedures-and-guidelines/

Yn ystod 2024-2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Reolau Sefydlog Enghreifftiol diwygiedig ar gyfer cyrff y GIG yng Nghymru, fel yr amlinellir isod:

- Cyhoeddwyd Ebrill 2024 - Diwygiadau i'r rheolau sefydlog enghreifftiol a dirprwyo a chadw pwerau yn ôl ar gyfer byrddau iechyd lleol yn dilyn sefydlu Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru

Cymeradwywyd y gwelliannau hyn gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 30 Mai 2024.

- Cyhoeddwyd Ionawr 2025, diwygiadau i'r rheolau sefydlog enghreifftiol i sicrhau cysondeb mewn perthynas â:

(i) Gofynion cymhwysedd ar gyfer cadeirydd, is-gadeirydd ac aelodau answyddogol / cyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd.
(ii) Y darpariaethau sy'n ymwneud â phenodi aelod-swyddogion i fyrddau Byrddau Iechyd Lleol.
(iii) Y trefniadau ar gyfer penodi'r Aelod Undeb Llafur i fwrdd Byrddau Iechyd Lleol.
(iv) Yr amserlenni ar gyfer cyhoeddi agendâu a phapurau bwrdd a phwyllgor.

Cymeradwywyd y gwelliannau hyn gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth 2025.

### 9.3.1 Amrywiad i'r Rheolau Sefydlog

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddiadau a allai gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru, wneud trefniadau priodol i swyddogaethau penodol gael eu cyflawni ar ei ran fel y gellir cyflawni busnes beunyddiol y Bwrdd Iechyd yn effeithiol, ac mewn modd sy'n sicrhau y cyflawnir ei nodau a'i amcanion.

## 9.4 Y Bwrdd a'i Bwyllgorau

Mae'r Bwrdd yn darparu arweiniad a chyfarwyddyd i'r sefydliad ac mae'n gyfrifol am lywodraethu, craffu ac atebolrwydd cyhoeddus. Mae'n sicrhau bod ei waith yn agored ac yn dryloyw drwy gynnal ei gyfarfodydd yn gyhoeddus a lle cynhelir cyfarfodydd preifat caiff agendâu'r cyfarfodydd eu cyhoeddi hefyd. Cefnogir y Bwrdd gan nifer o Bwyllgorau, pob un yn cael ei gadeirio gan Aelod Annibynnol. Cyfansoddir pob Pwyllgor i gydymffurfio â Chanllaw Arfer Da Llywodraeth Cymru – Pwyllgorau
Bwrdd Effeithiol. Mae’r Pwyllgorau, sy'n cyfarfod yn gyhoeddus (ac eithrio'r Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth) yn darparu eu cofnodion neu adroddiad ysgrifenedig gan Gadeirydd y Pwyllgor i bob cyfarfod Bwrdd. Mae hyn yn galluogi pob aelod o'r Bwrdd i gael golwg ar y prif faterion a chyfrannu at y gwaith o asesu sicrwydd a chraffu yn erbyn cyflawni amcanion strategol.

Caiff papurau'r Bwrdd eu dosbarthu i Aelodau Annibynnol 5 diwrnod cyn pob cyfarfod yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Mae papurau Bwrdd cyhoeddus hefyd yn cael eu cyhoeddi ar y wefan.

Gellir cael gafael ar y papurau ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd yn https://cavuhb.nhs.wales/ about-us/governance-and-assurance/ board-meetings/ a phapurau ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor yn https://cavuhb. nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/committees-and-advisory-groups/

Mae pob Pwyllgor yn llunio adroddiad blynyddol ar gyfer y Bwrdd. Gellir gweld adroddiadau blynyddol y Pwyllgorau ar gyfer 2024-2025 yn: https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni1/llywodraethu-a-sicrwydd/adroddiadau-blynyddol-a-chyfrifon/

Amlinellir strwythur Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd Iechyd a oedd ar waith yn ystod 2024-2025 isod.

### Strwythur Llywodraethu BIP Caerdydd a'r Fro 2024-2025



**Delwedd 22 – Strwythur Llywodraethu 24-25**

## Newidiadau i Strwythur Llywodraethu BIPCaF yn ystod 2024-25

Mae'n bwysig adolygu effeithiolrwydd pwyllgorau'r Bwrdd yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn addas
i'r diben ac yn cefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau. Ymhellach, i sicrhau bod trefniadau Pwyllgor y Bwrdd yn adlewyrchu proffil risg y sefydliad.  Mae Fframwaith Sicrwydd Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi themâu risgiau strategol a fydd, os na chânt eu rheoli, yn atal y Bwrdd Iechyd rhag cyflawni ei amcanion strategol. Y rhain yw Ansawdd, Cydraddoldeb Iechyd, Pobl, Digidol, Seilwaith a Chynaliadwyedd. Yn unol â hynny, adolygodd y Bwrdd Iechyd ei drefniadau Pwyllgor a gwnaed y newidiadau canlynol i'r trefniadau Pwyllgor yn weithredol o 1 Ebrill 2024:

a) Parhaodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad i gyfarfod bob 6 wythnos yn ystod 2024-2025 er mwyn sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo i wella ansawdd. Ym mis Ionawr 2025, cafodd y Pwyllgor ei ailenwi y Pwyllgor Ansawdd fel y cytunwyd gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2024.
b) Cafodd y Pwyllgor Gwybodaeth Ddigidol ac Iechyd ei ailenwi y Pwyllgor Digidol a Seilwaith o fis Ionawr 2025 i sicrhau dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth briodol o gyflwr materol ystâd
a seilwaith y BIP ar lefel Pwyllgor a Gweithrediaeth.
c) Cafodd yr is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch ei ddileu gydag elfennau o Iechyd a Diogelwch Staff yn bwydo i mewn i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ac elfennau Iechyd a Diogelwch cyffredinol yn bwydo i mewn i'r Pwyllgor Digidol a Seilwaith.
d) Symudwyd gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd o'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant i fwydo i mewn i'r Pwyllgor Ansawdd.

### Strwythur Llywodraethu Trosi Strategaeth yn Weithredu 2025

<table>
<tr><td>Strategaeth</td><td>Rhoi Pobl yn Gyntaf</td><td colspan="3">Darparu Ansawdd Rhagorol</td><td>Cyflawni yn y Lleoedd Cywir</td><td>Gweithredu dros y Dyfodol</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Pwyllgor</td><td>Pobl a Diwylliant</td><td colspan="3">Ansawdd</td><td rowspan="2">Digidol a Seilwaith</td><td rowspan="2">Cyllid a Pherfformiad</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">Deddfwriaeth Iechyd Meddwl</td></tr>
<tr><td colspan="6">Archwilio a Sicrwydd | Cronfeydd Elusennol | Cyflog a Thelerau Gwasanaeth</td></tr>
<tr><td>Portffolio Strategol</td><td>Llunio ein Pobl a'n Diwylliant</td><td>Llunio Iechyd ein Poblogaeth a Phartneriaethau sy'n Seiliedig ar Leoedd</td><td>Llunio ein Hansawdd, Gwerth a Chynaliadwyedd</td><td>Llunio ein Gwasanaethau Clinigol i'r Dyfodol</td><td>Llunio ein Seilwaith yn y Dyfodol</td><td>Llunio Cenedlaethau 'r Dyfodol</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Thema Risg Strategol</td><td rowspan="2">Pobl</td><td colspan="3">Ansawdd</td><td>Digidol</td><td rowspan="2">Cynaliadwyedd</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cydraddoldeb Iechyd</td><td>Seilwaith</td></tr>
</table>

**Llun 23 - Strwythur Llywodraethu Strategaeth i Weithredu**

## 9.5 Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd

Roedd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn ystod 2024-2025, gan ddarparu'r arbenigedd gofynnol, fel a ganlyn:

| Enw | Rôl | Dyddiadau |
|---|---|---|
| **AELODAU ANNIBYNNOL** | | |
| Rhian Thomas | Cadeirydd y Pwyllgor ac Aelod Annibynnol – Cyfalaf ac Ystadau | Cadeirydd Pwyllgor: Ebrill 2024 – Mawrth 2025<br>Aelod Annibynnol - Cyfalaf ac Ystadau: Ebrill 2024 – Mawrth 2025 |
| David Edwards | Is-Gadeirydd y Pwyllgor ac Aelod Annibynnol - TGCh | Ebrill 2024 – Mawrth 2025 |
| Mike Jones | Aelod Annibynnol Undeb Llafur | Ebrill 2024 – Mawrth 2025 |
| Ceri Phillips | Is-Gadeirydd | Ebrill 2024 – Mawrth 2025 |





## 9.6 Cyfansoddiad y Bwrdd

### Roedd yr eitemau a ystyriwyd gan y Bwrdd yn 2024-2025 yn cynnwys:

- Cynllunio Cyllid 2024/25
- Gofal Nyrsio a Ariennir: Pennu Cyfradd Interim 2024/25 a'r Codiad Ffioedd Darparwr Gofal Angenrheidiol ar gyfer 2024/25
- Siarter Rhianta Corfforaethol
- Briff Strategol Ymchwiliad Gwaed Heintiedig
- Achosion Busnes
- Adduned Arweinyddiaeth Dosturiol
- Cynllun Cyfalaf 2024/25
- Arolwg Staff
- Clinig Diagnosis Cyflym – Data Cleifion
- Cytundebau Hirdymor y GIG a Dull Ariannol ar gyfer 2024/25
- Cytundeb Cynnal a Memorandwm Cytundeb y Cydbwyllgor Comisiynu
- Fframwaith Llywodraethu'r Cydbwyllgor Comisiynu
- Treial ELLIPSE
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Llythyr Blynyddol ac Ymateb
- Cynllun Hirdymor ar gyfer Iechyd y Cyhoedd
- Adroddiad Diogelu Blynyddol 2023/24
- Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

Cyflwynir aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor a'r Rolau Hyrwyddwyr yn ystod 2024-2025 er gwybodaeth yn Atodiad 1 i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

Bu nifer o newidiadau i gyfansoddiad y Bwrdd yn ystod 2024-25.

Ffarweliodd y Bwrdd Iechyd ag:

- Akmal Hanuk – Aelod Annibynnol, Cymuned ar 31 Mawrth 2025
- Marie Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cynllunio Strategol ar 31 Ionawr 2025
- Fiona Jenkins a adawodd y rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau ar 30 Ebrill 2024.

Gwnaethom hefyd groesawu'r canlynol i'r Bwrdd:

- Emma Cooke fel Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau ar 1 Mehefin 2024 yn dilyn swydd dros dro o 1 Mai 2024
- Steve Riley fel aelod annibynnol dros Brifysgolion ar 1 Hydref 2024
- Dr David Fluck - Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ar 7 Hydref 2024
- Rachna Upadhya fel Aelod Annibynnol Cyffredinol ar 1 Ionawr 2025

I'w nodi: Cymerodd Dr Richard Skone y rôl Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro o 1 Ebrill 2024 tan 6 Hydref 2024.

## 9.7 Pwyllgorau

Yn unol ag Adran 2 o Reolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd sy'n darparu, *"Gall y Bwrdd a, lle y cyfarwyddir hynny gan LIC, rhaid iddo benodi Pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd naill ai i ymgymryd â swyddogaethau penodol ar ran y Bwrdd neu i roi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd wrth arfer ei swyddogaethau",* mae gan y Bwrdd strwythur pwyllgor sefydledig, gyda phob Pwyllgor Statudol yn cael ei gadeirio gan Aelod Annibynnol.

**Roedd y Pwyllgorau Bwrdd canlynol ar waith yn ystod 2024-2025:**

| Pwyllgor | Eitemau a Ystyriwyd |
|---|---|
| **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd**<br>Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yw cynghori a sicrhau'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol fod trefniadau effeithiol ar waith - trwy ddylunio a gweithredu fframwaith sicrwydd y BIP. | · Cyflwynwyd Adroddiadau Archwilio Mewnol i bob cyfarfod gan ddarparu manylion yn ymwneud â chanlyniadau, canfyddiadau allweddol a chasgliadau.<br>· Mae Archwilio Cymru yn adrodd ar archwiliadau cyfredol a chynlluniedig<br>· Adroddiadau Datgan Buddiannau<br>· Adroddiadau Tracio Cydymffurfiaeth Reoleiddiol<br>· Adroddiadau Tracio Archwilio Mewnol ac Allanol<br>· Adroddiadau Cydymffurfiaeth Caffael, Cydymffurfiaeth y Gweithlu a Gwrth-dwyll<br>· Mapio sicrwydd a Strategaeth Rheoli Risg<br>· Cyfrifon drafft ac Adroddiad Blynyddol yr Elusen Iechyd<br>· Cyfrifon Blynyddol, Adroddiadau Atebolrwydd a Thaliadau Cydnabyddiaeth ar gyfer 2024-2025<br>· Colledion a Thaliadau Arbennig. |
| **Cyllid a Pherfformiad Pwyllgor**<br>Diben y Pwyllgor hwn yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd wrth gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'i sefyllfa ariannol, ei berfformiad a'i ddarpariaeth bresennol a rhagweledig. | · Adroddiadau perfformiad<br>· Adroddiadau Ariannol Misol<br>· Ffurflenni Monitro Ariannol<br>· Cynllun Ariannol a Thraciwr Arbedion 2024/25<br>· Rhaglen RISP<br>· Adroddiad Chwarterol ar Gynnydd y Cynllun Blynyddol<br>· Dyraniad Cyfalaf 2023-24<br>· Achosion Busnes Amrywiol (gan gynnwys Achos Busnes Amlinellol Strategol-Haematoleg / BMT a Therapi Celloedd Datblygedig, Gwaith Diogelu CRI (gan gynnwys MEP), Achos Busnes Thrombectomi, Achos Radioleg Ymyrraethol, Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig, Patholeg Cellog Ddigidol, Sylfeini Digidol, Diogelu Iechyd Rhanbarthol, System Gwybodaeth Gofal Dwys Cymru) |

| | |
|---|---|
| **Deddfwriaeth Iechyd Meddwl Pwyllgor**<br>Rôl y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl yw ceisio a darparu sicrwydd i'r Bwrdd neu uwchgyfeirio meysydd pryderon a chynghori ar gamau i'w cymryd mewn perthynas â chydymffurfio ag: | · Adroddiad Monitro'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a Monitro TDAR<br>· Adroddiad Eithriad Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl<br>· Adrodd Monitro Mesurau Iechyd Meddwl gan gynnwys Adroddiad Diweddaru Cynlluniau Gofal a Thriniaeth<br>· Adran 117 Dyfarniad y Goruchaf Lys<br>· Ymateb y BIP i'r Ymgynghoriad ar y Bil Safonau Gofal Iechyd Meddwl (Cymru) |

<table>
<tr><th>Pwyllgor</th><th>Eitemau a Ystyriwyd</th></tr>
<tr><td>

- Dyletswyddau Rheolwyr Ysbytai o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983;
- y darpariaethau a nodir yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005;
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010;
- Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983;
- Cod Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005;
- Cod Ymarfer Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid Deddf Galluedd Meddyliol 2005;
- y Rheoliadau cysylltiedig.

</td><td>

- Protocol RAMP a'r Cynllun Rhan 1
- Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles / Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio
- Goblygiadau Dyfarniad Adran 117 y Goruchaf Lys

</td></tr>
<tr><td>

**Pwyllgor Ansawdd**

Pwrpas y Pwyllgor Ansawdd yw rhoi cyngor i'r Bwrdd o ran ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd a phrofiad y claf, gan gynnwys iechyd y cyhoedd, hybu iechyd a gweithgareddau diogelu iechyd.

Bydd hefyd yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch trefniadau'r BIP ar gyfer diogelu a gwella ansawdd
a diogelwch gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar y claf, a thrwy hynny wella'r profiad i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

</td><td>

- Adroddiadau Sicrwydd y Bwrdd Clinigol
- Adroddiad Dangosyddion Ansawdd
- Dadansoddiadau Dwys
- Cynllun Gweithredu Tegwch, Cydraddoldeb, Profiad a Diogelwch Cleifion
- Rhaglen Ymchwil COVID-19
- Diweddariad ar y Cynllun Adfer Hepatitis B/C
- Diweddariad a Chynllun Gwella’r Cyd-ymchwiliad Trefniadau Amddiffyn Plant (JICPA)
- Diweddariad Ymchwil a Datblygu
- Plant sy'n Derbyn Gofal – Ôl-groniadau Asesu
- Rheoliadau Arholwyr Meddygol (Cymru) 2024 a Gofal ar ôl Marwolaeth
- Mesurau Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI)
- Diweddariad Deddfwriaeth Ddi-Fwg
- Uned Argyfwng, Meddygaeth Acíwt ac Arddangosfa Bregusrwydd
- Diweddariad Cwest Carchar

</td></tr>
</table>

| Pwyllgor | Eitemau a Ystyriwyd |
| --- | --- |
| **Pwyllgor Cronfeydd Elusennol**<br><br>Pwrpas y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yw gwneud a monitro trefniadau ar gyfer rheoli Cronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd.<br><br>Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro (yr Elusen) yw'r elusen swyddogol sy'n cefnogi holl waith y Bwrdd Iechyd. Crëwyd yr Elusen Iechyd ar 3 Mehefin 1996 gan Ddatganiad o Ymddiriedolaeth ac, yn dilyn ad-drefnu gwasanaethau iechyd, cafodd ei diwygio gan Weithred Atodol ar 12 Gorffennaf<br><br>2001 a 2 Rhagfyr 2010.<br><br>Y Bwrdd Iechyd yw Ymddiriedolwr Corfforaethol yr Elusen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am reoli'r arian i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol. Nod yr Ymddiriedolwr Corfforaethol (Ymddiriedolwr) yw codi a defnyddio cronfeydd elusennol i ddarparu'r budd mwyaf posibl i gleifion y Bwrdd Iechyd a gwasanaethau iechyd lleol cysylltiedig yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, drwy ategu yn hytrach na dirprwyo cyllid y llywodraeth ar gyfer gwasanaethau craidd y GIG. | · Sefyllfa Ariannol a Diweddariad Buddsoddi Elusen Iechyd<br>· Dros £25,000 o geisiadau i'w cymeradwyo<br>· Adrodd Adborth ar Gynigion CFC Llwyddiannus<br>· Adroddiad Panel Cynigion Loteri Staff<br>· Cylch Gorchwyl Panel Cynigion Loteri Staff<br>· Adroddiad Codi Arian Elusen Iechyd<br>· Adroddiad Grŵp Buddiannau Staff<br>· Darparwr Rheolwr Cysylltiadau Cwsmeriaid (RhCC) Newydd a Diweddariad Trwydded Weithredu<br>· Llofnodwr ar gyfer Rathbones - Diweddariad<br>· Gweithredu'r Cadeirydd – Adolygiad Elusen Iechyd – Cynnig Ymgynghorydd Allanol<br>· Cyfrifon Elusen BIPCaF 2023-24 - Cynllun Archwilio AC 2024<br>· Cais i Drosglwyddo Bwrdd Clinigol Plant a Menywod o gyfalaf parhaus i gronfeydd gwaddol<br>· Diweddariad Portffolio Buddsoddi – Cyflwynwyd gan Rathbones<br>· Newidiadau Statws Ein Dôl Iechyd<br>· Estyniad Contract Gwasanaethau Rheoli Buddsoddi Cronfeydd Elusennol<br>· Cronfa Synnwyr Bwyd Cymru<br>· Polisi Gêmio Cyfrifol |

| Pwyllgor | Eitemau a Ystyriwyd |
|---|---|
| **Digidol a Seilwaith Pwyllgor**<br>Mae'r Pwyllgor Digidol a Seilwaith yn adlewyrchu'r galluogwyr allweddol a nodwyd yn y Strategaeth y gellir eu mynegi'n fwyaf syml fel 'brics a beitiau'. | · Adroddiadau Cynnydd Trawsnewid Digidol<br>· Gofynion gwarcheidwad Caldicott<br>· Rhyddid Gwybodaeth<br>· Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR);<br>· Adroddiadau Mynediad Diawdurdod at Ddata;<br>· Data Perfformiad Codio Clinigol<br>· Diwygio'r Strategaeth Ddigidol |
| **Pwyllgor Pobl a Diwylliant**<br>Pwrpas y Pwyllgor yw cynghori a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ar ddatblygu, monitro a chyflawni Cynllun Pobl a Diwylliant y Sefydliad yng nghyd-destun y Cynllun Gweithlu Strategol Cenedlaethol | · Straeon Staff<br>· Fframwaith Sicrwydd Bwrdd – Gweithlu, Recriwtio a Lles<br>· Dangosyddion Perfformiad Gweithlu Allweddol<br>· Sbotoleuadau Bwrdd Clinigol<br>· Hysbysiadau Comisiynydd y Gymraeg<br>· Diweddariadau Iechyd a Diogelwch<br>· Amcanion Cydraddoldeb Strategol<br>· Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol<br>· Polisïau Staff<br>· Effaith Costau Byw<br>· Adroddiad Bwlch Cyflog Rhywedd |
| **Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth**<br>Diben y Pwyllgor yw darparu'r canlynol:<br>(i) cyngor i'r Bwrdd ar daliadau cydnabyddiaeth a thelerau gwasanaeth i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch staff eraill o fewn y fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru; a<br>(ii) sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â threfniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer taliadau cydnabyddiaeth a thelerau gwasanaeth, gan gynnwys trefniadau | · Materion taliadau cydnabyddiaeth a thelerau gwasanaeth |

| | |
|---|---|
| cytundebol, i'r holl staff, yn unol â'r gofynion a safonau sy'n cael eu pennu ar gyfer y GIG yng Nghymru. | |

Mae'r adroddiadau, cynlluniau gwaith a'r cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgorau yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan: https://cavuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/committees-and-advisory-groups/

Mae Atodiad 1 i'r DLlB hwn yn nodi manylion y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol ac yn cadarnhau aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau ar gyfer 2024-2025 a dyddiadau'r cyfarfodydd a fynychwyd yn ystod deiliadaeth yr unigolyn.

Mae Tabl 1 yn Atodiad 1 yn nodi Rolau Hyrwyddwyr y Bwrdd yn ystod 2024-2025.

Mae Tabl 2 yn Atodiad 1 o'r DLlB yn nodi Dyddiadau cyfarfodydd Grŵp Cynghori a gynhaliwyd yn ystod 2024-2025.

Mae Cadeirydd pob Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd am weithgareddau'r Pwyllgor gan amlinellu risgiau allweddol a thynnu sylw at feysydd y mae angen eu dwyn i sylw'r Bwrdd er mwyn cyfrannu at ei asesiad o sicrwydd a darparu craffu yn erbyn y gwaith o gyflawni amcanion. Mae'r Pwyllgorau, yn ogystal ag adrodd i'r Bwrdd, hefyd yn gweithio gyda'i gilydd ar ran y Bwrdd i sicrhau, lle bo angen, bod croes-adrodd ac ystyriaeth yn digwydd a bod sicrwydd a chyngor yn cael ei roi i'r Bwrdd a'r sefydliad ehangach.

Mae copïau o bapurau a chofnodion y Pwyllgor, crynodeb o gyfrifoldebau pob Pwyllgor a Thelerau Gorchwyl ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd: https://cavuhb.nhs.wales/about- us/our-board/committees-and-advisory-groups/

Mae pob Pwyllgor yn cynnal Cofnod Gweithredu sy'n cael ei fonitro ym mhob cyfarfod.

Lle y bo’n briodol cefnogir pob un o brif bwyllgorau'r Bwrdd gan strwythur is-bwyllgor sy'n ategu cylch gwaith ei rolau a'i gyfrifoldebau.

## 9.8 Grwpiau Cynghori a Chydbwyllgorau

I gefnogi'r Bwrdd, gall y Bwrdd Iechyd gael tri Grŵp Cynghori.

Mae'r Grwpiau Cynghori a'r Cydbwyllgor yn cynnwys:

### Grwpiau Cynghori

### Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCRh)

Mae’r GCRh yn cynnwys ystod o sefydliadau partner o bob rhan o ardal y Bwrdd Iechyd. Ei rôl yw darparu cyngor annibynnol ar unrhyw agwedd ar fusnes y Bwrdd Iechyd. Mae’n hwyluso ymgysylltiad llawn a thrafodaeth weithredol ymysg rhanddeiliad o ledled y cymunedau a wasanaethir gan y Bwrdd Iechyd, gyda’r nod o gyflwyno persbectif rhanddeiliaid cydlynol a chytbwys er mwyn arwain y Bwrdd Iechyd wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau.

Roedd materion pwysig y bu'r GCRh yn ymgysylltu â nhw yn ystod 2024-2025 yn cynnwys:

- Strategaeth Llunio Ein Llesiant i’r Dyfodol
- Trafnidiaeth a theithio cynaliadwy
- Rhwydwaith Cyflenwi Strôc Canolbarth De Cymru
- Fframwaith a Phecyn Cymorth Cydgynhyrchu, Ymgysylltu ac Ymgynghori
- Ymgysylltiad gwasanaethau Offthalmoleg rhanbarthol
- Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan
- Cynllun Blynyddol
- Cynllun Gwasanaethau Clinigol
- Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio
- Amcanion Cydraddoldeb Strategol

## Fforwm Partneriaeth Lleol a Grwpiau Ymgysylltu â Chyflogeion eraill

Mae gan y BIP ddyletswydd statudol i "ystyried sylwadau a wneir gan bobl sy'n cynrychioli buddiannau'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu". Cyflawnir hyn yn rhannol gan ddau Grŵp Cynghori i'r Bwrdd; un ohonynt yw'r Fforwm Partneriaeth Lleol (FfPLl).

Mae'r FfPLl yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Gadeirydd Cynrychiolwyr Staff a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant.  Mae'r aelodau'n Gynrychiolwyr Staff (gan gynnwys yr Aelod Annibynnol dros Undebau Llafur), y Tîm Gweithredol a'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, ac uwch aelodau o'r tîm Pobl a Diwylliant. Cyfarfu'r FfPLl 5 gwaith yn ystod 2024-25.

Y FfPLl yw'r mecanwaith ffurfiol i'r Bwrdd Iechyd a Chynrychiolwyr Undebau Llafur/Sefydliadau Proffesiynol gydweithio i wella gwasanaethau iechyd.
Mae'r materion pwysig a drafodwyd gan y Fforwm Partneriaeth Lleol yn ystod 2024-25 yn cynnwys:

- Elfennau nad ydynt yn talu o Fargen Cyflog 2022-23 a 2023-24
- Canlyniadau'r Arolwg Staff
- Cynllun Gwasanaethau Clinigol
- Blaenoriaethau Iechyd y Boblogaeth
- Cadw Staff
- Codi Llais yn Ddiogel
- Diogelwch Rhywiol yn y Gweithle
- Safonau Cydraddoldeb Hiliol yn y Gweithle (SCHG)
- Prosesau a Rhagdybiaethau Cynllunio'r Bwrdd Iechyd
- Adroddiad blynyddol y Ddeddf Staff Nyrsio
- Cynllun Cyfathrebu Pobl a Diwylliant
- Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 a'r BIP

- Mae gan y FfPLl 3 is-grŵp:
  - Grŵp Partneriaeth y Gweithlu
  - Is-grŵp Polisïau Cyflogaeth
  - Grŵp Buddiannau Staff

Yn fwy lleol, mae pob Bwrdd Clinigol a fforwm Corfforaethol hefyd yn cynnal Fforymau Partneriaeth Lleol misol neu bob deufis, sy'n galluogi tîm arweinyddiaeth y Bwrdd Clinigol i ymgysylltu â chynrychiolwyr undeb llafur ar faterion lleol.

### Pwyllgor Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru (PGRGC)

Sefydlwyd Pwyllgor PGRGC yn 2012 ac fe'i cynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae'n gofalu am y swyddogaethau a rennir ar gyfer GIG Cymru, megis caffael, recriwtio a gwasanaethau cyfreithiol. Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, a derbynnir adroddiadau rheolaidd gan y Bwrdd.

### Cydbwyllgorau

Nodir bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC) a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (PGAB) wedi cael eu dileu ar 31 Mawrth 2024, a'u disodli gan y Cydbwyllgor Comisiynu o 1 Ebrill 2024.

## 9.9 Penodiadau Cyhoeddus

Gwnaethom groesawu'r canlynol i'r Bwrdd:

- Yr Athro Steve Riley – Aelod Annibynnol, Prifysgol ar 1 Hydref 2024
- Dr Rachna Upadhya – Aelod Annibynnol ar 2 Ionawr 2025

## 9.10 Datganiad Budd y Cyhoedd

Mae pob Aelod o'r Bwrdd wedi datgan yn ysgrifenedig ei fod wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd er mwyn gwneud archwilwyr yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol. Mae'n ofynnol i holl Aelodau'r Bwrdd ac Uwch Reolwyr a'u perthnasau agos (gan gynnwys Cyfarwyddwyr yr holl Sefydliadau Cynnal) ddatgan unrhyw fuddiannau ariannol a rolau o ddylanwad a allai arwain at wrthdaro â'u cyfrifoldebau. Mae cofrestr lawn o fuddiannau ar gyfer 2024-2025 ar gael ar gais gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol neu drwy'r ddolen ganlynol https://cavuhb.nhs.wales/about-us/governance-and-assurance/register-of-interests-gifts-and-hospitality/

## 9.11 Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd a Phwyllgorau 2024-2025

Cyfansoddwyd y Bwrdd i gydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Mae'r tablau sydd ynghlwm wrth Atodiad 1 i'r DLlB hwn yn amlinellu Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau a'r cofnod o bresenoldeb ar gyfer y cyfnod Ebrill 2024 - Mawrth 2025.

# 9. Risg

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi ei chynllunio i reoli risgiau i lefel resymol yn hytrach na dileu'r holl risgiau; felly gellir ond rhoi sicrwydd rhesymol, nid absoliwt, o effeithiolrwydd.

Seilir y system rheolaeth fewnol ar broses barhaus wedi'i dylunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau er mwyn cyflawni'r polisïau, y nodau a'r amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau a'r effaith pe byddent yn digwydd, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith hyd at y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol.

Mae gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd Bwrdd sy'n nodi, dadansoddi, gwerthuso a rheoli'r risgiau sy'n bygwth y nod o gyflawni ei amcanion strategol. Defnyddir Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (FfSB) y Bwrdd Iechyd gan y Bwrdd i nodi, monitro a gwerthuso risgiau sy'n effeithio ar Amcanion Strategol ac fe'i hystyrir ochr yn ochr ag offer rheoli allweddol arall, megis y Gofrestr Risg Gorfforaethol, dangosfyrddau perfformiad ac ansawdd ac adroddiadau ariannol, i roi darlun cynhwysfawr i'r Bwrdd o'r proffil risg sefydliadol.

Mae Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd Bwrdd (FfSB) y Bwrdd Iechyd yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i gymryd i bob cyfarfod Bwrdd. Mae hyn yn nodi cyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg strategol a gweithredol i'r Bwrdd a staff ledled y sefydliad ac yn disgrifio'r gweithdrefnau sydd i'w defnyddio wrth nodi, dadansoddi, gwerthuso a rheoli risgiau i gyflawni amcanion strategol. Mae risgiau strategol yn risgiau sylweddol sydd â'r potensial i effeithio ar y nod o gyflawni amcanion strategol ac sy'n cael eu codi a'u monitro gan y

Tîm Gweithredol a'r Bwrdd. Mae risgiau gweithredol yn risgiau allweddol sy'n effeithio ar Fyrddau Clinigol unigol a Chyfarwyddiaethau Corfforaethol ac yn cael eu rheoli o fewn y Byrddau Clinigol a'r Cyfarwyddiaethau Corfforaethol ac, os oes angen, yn cael eu huwchgyfeirio trwy strwythur adrodd risg y Bwrdd Iechyd fel y nodir isod.



Mae'r FfSB yn darparu gwybodaeth allweddol i'r Bwrdd am y Risgiau Strategol allweddol a allai effeithio ar gyflawni Strategaeth y Bwrdd Iechyd. Mae'n cynnwys 6 thema risg sy'n berthnasol i bob un o'r 4 amcan strategol.

Y 2 thema risg sy'n canolbwyntio ar gyflawni yw:
1. Ansawdd
2. Cydraddoldeb Iechyd

Ac mae 4 thema risg allweddol:
3. Pobl
4. Digidol
5. Seilwaith
6. Cynaliadwyedd

Mae pob thema risg yn berthnasol i bob amcan strategol; fodd bynnag, maent wedi'u cysylltu â phortffolio strategol a Phwyllgor y Bwrdd i ddarparu llinyn priodol o'r strategaeth trwy gyflawni ac i mewn i berfformiad, a modd o ddarparu sicrwydd a chraffu trwy Bwyllgorau ac i mewn i'r Bwrdd.

Gellir dod o hyd i'r FfSB o fis Mawrth 2025 yma ar dudalen 38 o'r bwndel sy'n amlinellu'r rheolaethau, y sicrwydd a'r sgoriau sydd ar waith. Caiff newidiadau eu tracio i dynnu sylw'r Bwrdd atynt yn gyflym ac yn syml ym mhob cyfarfod lle bu newidiadau.

Ochr yn ochr â'r FfSB, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnal Cofrestr Risg Gorfforaethol sy'n nodi'r risgiau gweithredol eithafol (y rhai a sgoriwyd yn 20/25 neu uwch) y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu.

Ym mis Mawrth 2025, roedd 120 o risgiau eithafol wedi'u nodi ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol, ac roedd pob un ohonynt wedi cofnodi sgôr o 20/25. Gellir gweld y FfSB a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol mewn unrhyw becyn agenda cyfarfod Bwrdd.

## 9.1 Sicrwydd Archwilio ar Reoli Risg

Nododd Adroddiad Asesu Strwythuredig Archwilio Cymru, a dderbyniwyd ym mis Chwefror 2025, y canlynol mewn perthynas â Rheoli Risg o fewn y Bwrdd Iechyd:

"Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i wella ei drefniadau rheoli risg strategol a chorfforaethol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i egluro trefniadau uwchgyfeirio risg a chraffu ar risg corfforaethol."

Cynhaliwyd Adolygiad Archwilio Mewnol o'r prosesau Rheoli Risg ym mis Mai 2024 a dderbyniwyd sgôr Sicrwydd Rhesymol ar Reoli Risg a'r FfSB. Canfu bod risgiau strategol wedi'u halinio â'r amcanion strategol, eu bod wedi'u mynegi'n dda, a'u bod yn amlwg gysylltiedig â meysydd gweithredol allweddol.
Mae'r adolygiad hefyd yn canmol y ffaith fod y FfSB yn ddogfen fyw gyda chysylltiadau clir â'r cofrestrau risg corfforaethol a gweithredol.

# 10. Datgeliadau Gorfodol

## 10.1 Safonau Iechyd a Gofal Diwygiedig

Mae safonau Iechyd a Gofal wedi cael eu diwygio o dan Ddyletswydd Ansawdd ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2024-25.

## 11.2 Parodrwydd am Argyfwng

Roedd gan y Bwrdd Iechyd drefniadau argyfwng a pharhad busnes ar waith yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25, yn unol â'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl a'r Canllawiau Cynllunio Brys a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gweithredwyd trefniadau Parhad Busnes mewn ymateb i nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys colli pŵer a gollyngiadau dŵr oherwydd cyflwr ein prif gyfleusterau ysbyty, problemau capasiti cleifion, methiannau pŵer a gweithredu diwydiannol. Mae ein trefniadau parhad busnes yn ein galluogi i reoli'r gwaith parhaus o ddarparu ein gwasanaethau yn dilyn tarfu ar fusnes. Cynhaliwyd nifer o sesiynau hyfforddi ac ymarferion cynllunio argyfwng yn ystod y flwyddyn, gan uwchsgilio'r gweithlu i fynd i'r afael â pharhad busnes hyd eithaf gallu'r sefydliad.

## 11.3 Cyfarwyddydau Gweinidogol a Chylchlythyron Iechyd Cymru (CICau)

Mae Cyfarwyddydau Gweinidogol a CICau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod Ebrill 2024-M a wrth 2025 wedi cael eu hystyried a'u gweithredu lle y bo'n briodol. Nodir manylion y Cyfarwyddydau Gweinidogol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2024/45 yn Atodiad 3 ynghlwm wrth y DLIB hwn.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 derbyniwyd diweddariadau rheolaidd ar weithrediad Cylchlythyr Iechyd Cymru ac mae manylion CICau newydd wedi'u derbyn a'u rhannu gyda'r Timau priodol ar draws y Bwrdd Iechyd.

## 11.4 Adroddiadau Rheoleiddio ac Archwilio

Mae gan y Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol system ffurfiol ar waith i dracio adroddiadau rheoleiddio ac arolygu yn erbyn gofynion statudol. Cyflawnir hyn drwy adroddiad Traciwr Deddfwriaethol a Rheoleiddiol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i roi sicrwydd bod argymhellion a wneir o fewn adroddiadau o'r fath yn cael eu gweithredu'n briodol. Cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, mae'r traciwr yn cael ei boblogi â gwybodaeth gan unigolion dirprwyedig sy'n atebol am gydymffurfiaeth reoleiddiol.

Mae'r Traciwr Deddfwriaethol a Rheoleiddiol yn cynnwys y canlynol:

- Pob Corff Rheoleiddio sy'n archwilio'r Bwrdd Iechyd.
- Y Safon Reoleiddio sy'n cael ei harchwilio.
- Arweinydd Gweithredol ar gyfer pob archwiliad.
- Pwyllgor sicrwydd lle gellir cyflwyno adroddiadau Rheoleiddio hefyd ynghyd â chynlluniau gweithredu ar gyfer gwella lle bo angen.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn tracio'r holl Argymhellion Archwilio Mewnol ac Argymhellion Archwilio Cymru ynghyd ag ymatebion rheoli ar y system Rheoli a Thracio Archwilio (AMaT). Ychwanegir argymhellion at y system i'w monitro unwaith y bydd yr adroddiadau wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

## 11.5 Diogelwch Data a Llywodraethu Gwybodaeth

Rheolir risgiau sy'n ymwneud â gwybodaeth yn unol â gofynion Polisi Llywodraethu Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd drwy'r Pwyllgor Digidol a Seilwaith (PDaS), sy'n cael ei gadeirio gan yr Aelod Digidol Annibynnol.

Y Gwarcheidwad Caldicott sy'n gyfrifol am ddiogelu gwybodaeth cleifion. Mae'r holl faterion Llywodraethu Gwybodaeth yn cael eu huwchgyfeirio drwy'r Pwyllgor Digidol a Seilwaith (PDaS).

Gellir gweld papurau'r PDaS yma: https://cavuhb.nhs.wales/ about-us/governance-and-assurance/ committees-and-advisory-groups/digital-and-health-intelligence-committee/

Cafodd yr eitemau canlynol eu hystyried gan PGDdI yn 2024-25:

- Strategaeth Ddigidol Ddiwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Adroddiad Cynnydd Trawsnewid Digidol a'r Strategaeth Ddigidol
- TRhD ar y cyd a Chofrestr Risg Gorfforaethol Llywodraethu Gwybodaeth
- Data a Chydymffurfiaeth Llywodraethu Gwybodaeth (Offerynnau Statudol, Diogelu Data, GDPR, Rhyddid Gwybodaeth, Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth, monitro cofnodion mynediad, Staffio a Hyfforddiant Gorfodol)
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol Gwasanaethau Digidol

Y Cyfarwyddwr Gwybodaeth Ddigidol ac Iechyd sy'n ymgymryd â'r rôl Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (UBRG) sy'n cyflawni rôl hanfodol wrth sicrhau bod risgiau diogelwch gwybodaeth a nodwyd yn cael sylw a bod digwyddiadau'n cael eu rheoli'n briodol.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldebau llym i sicrhau bod data a gwybodaeth bersonol yn

cael eu cadw'n ddiogel. Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud â llywodraethu gwybodaeth yn cael eu hymchwilio a'u hadolygu gan y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth.

Yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, cyrhaeddodd cyfanswm o 6 achos o dorri data y trothwy i adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn unol â GDPR y DU. Amlinellir crynodeb o'r themâu allweddol isod;

- Achoswyd tri thoriad gan wallau gweinyddol yn effeithio ar gywirdeb data personol a gedwir gan y BIP. Arweiniodd hyn at oedi wrth adrodd ar ganlyniadau, llythyr yn cael ei anfon i'r cyfeiriad anghywir a dau gofnod cleifion yn cael eu cymysgu
- Achoswyd dau doriad yr adroddwyd arnynt gan staff yn cael mynediad i gofnodion cleifion heb awdurdodiad.
- Roedd un toriad oherwydd ymosodiad seiber cadwyn gyflenwi yn effeithio ar nifer fach o staff BIP.

Mae'r holl achosion o dorri data a adroddwyd wedi cael eu cau gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth
heb unrhyw gamau pellach, er mewn nifer o achosion, cafodd nifer o argymhellion eu gwneud a'u gweithredu.

Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, ni wnaeth BIP Caerdydd a'r Fro ddioddef unrhyw ddiffygion diogelwch data, ac eithrio'r toriadau data hynny a amlinellir yn yr adran uchod a adroddwyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
Felly, nid oes unrhyw doriadau wedi'u hadrodd i'r Uned Gwydnwch Seiber.

## 11.6 Cynllun Pensiwn y GIG

Fel cyflogwr staff sydd â hawl i fod yn aelod o Gynllun Pensiwn y GIG, caiff mesurau rheoli eu rhoi ar waith i sicrhau bod holl rwymedigaethau cyflogwyr

yn cael eu cynnwys yn rheoliadau'r Cynllun ac y cydymffurfir â nhw. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau cyflog, cyfraniadau cyflogwyr a thaliadau i'r Cynllun yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion Cynllun Pensiwn aelodau yn cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r amserlenni â nodir yn y Rheoliadau.

## 11.7 Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU

Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU (y Cod) yw'r prif gyfeiriad a throsolwg o arfer da ar gyfer llywodraethu corfforaethol yn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog. Er nad oes gofyniad i gydymffurfio â phob elfen o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn ei fod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod, lle bo hynny'n berthnasol, ac yn dilyn ysbryd y Cod yn effeithiol, yn cynnal ei fusnes mewn modd agored a thryloyw, ac yn unol â'r Cod.

## 11.8 Adolygu Effeithiolrwydd

Fel y Swyddog Cyfrifol, mae gennyf gyfrifoldeb am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o'r system rheolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, a'r Swyddogion Gweithredol o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan Archwilio Cymru yn eu Llythyr Archwilio Blynyddol ac mewn adroddiadau eraill.

| Ffynonellau Mewnol | Ffynonellau Allanol |
|---|---|
| • Adroddiadau rheoli perfformiad<br>• Adroddiadau rheoli newid gwasanaethau<br>• Gwybodaeth ac arolygon o'r gweithlu<br>• Meincnodi<br>• Adroddiadau archwilio mewnol a chlinigol<br>• Adroddiadau Bwrdd a Phwyllgor<br>• Gwaith Gwrth-dwyll lleol<br>• Asesiadau Safonau Iechyd a Gofal<br>• Archwiliadau Cerdded Diogelwch Aelodau Gweithredol ac Annibynnol<br>• Canlyniadau ymchwiliadau mewnol ac adroddiadau Digwyddiadau Difrifol<br>• Pryderon a chanmoliaeth<br>• Codi Llais yn Ddiogel<br>• Adroddiadau atal a rheoli heintiau<br>• Hunanasesiad pecyn cymorth llywodraethu gwybodaeth<br>• Arolygon ac adroddiadau profiad cleifion<br>• Cydymffurfio â deddfwriaeth (e.e. y Ddeddf Iechyd Meddwl/Iechyd a Diogelwch, Diogelu Data) | • Gwybodaeth Iechyd y Boblogaeth<br>• Archwilio Cymru<br>• Adroddiadau Asesu Cronfa Risg Cymru (CRC)<br>• Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)<br>• Adroddiadau ymweliadau a chraffu Cyngor Iechyd Cymuned<br>• Adborth gofal iechyd a phartneriaid trydydd sector<br>• Ymweliadau'r Coleg Brenhinol a'r Ddeoniaeth<br>• Cyrff rheoleiddio, trwyddedu ac arolygu<br>• Meincnodi allanol ac ystadegau<br>• Cynlluniau Achredu<br>• Archwiliadau cenedlaethol<br>• Adolygiadau cymheiriaid<br>• Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth<br>• Rhwydweithiau lleol (e.e. rhwydweithiau canser)<br>• Adroddiadau ac adborth Llywodraeth Cymru |

Nodir ffynonellau sicrwydd pellach o fewn fframwaith rheoli perfformiad a sicrwydd y Bwrdd ei hun ac maent yn cynnwys, heb fod yn gyfyngedig i:

- Sicrwydd uniongyrchol gan reolwyr ar weithredu rheolaethau mewnol trwy'r gadwyn atebolrwydd ar-i-fyny
- Perfformiad a asesir yn fewnol yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal
- Canlyniadau swyddogaethau cydymffurfio mewnol gan gynnwys Dilysu Gwrth-dwyll, Ôl-Dalu Lleol, a rheoli risg
- Cydymffurfiaeth â Chronfa Risg Cymru ynghylch safonau hawliadau a safonau arbenigol penodol eraill a adolygwyd yn ystod y cyfnod
- Adolygiadau a gwblhawyd gan gyrff rheoleiddio ac arolygu allanol gan gynnwys Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Mae effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei gynnal a'i adolygu gan Bwyllgorau'r Bwrdd mewn perthynas â sicrwydd a dderbynnir. Cefnogir hyn hefyd gan FfSB gyda risgiau strategol yn cael eu monitro'n agos gan y Bwrdd a'r Pwyllgorau priodol.

# Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

## 11.9 Effeithiolrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau

Er mwyn gwerthuso a dangos effeithiolrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd, cymerwyd y camau canlynol yn ystod 2024-2025:

- Mae Cadeirydd y Bwrdd a Chadeirydd pob Pwyllgor yn adolygu effeithiolrwydd cyfarfodydd unigol fel rhan o'r agenda ym mhob cyfarfod priodol.
- Datblygodd holl Bwyllgorau'r Bwrdd Adroddiad Blynyddol a adolygir gan bob Pwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyhoeddus. Mae'r Adroddiadau Blynyddol yn cael eu cymeradwyo gan Gadeirydd y Pwyllgor ac yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y Pwyllgorau wedi cyflawni eu Cylch Gorchwyl.
- Mae dwy sesiwn Datblygu Bwrdd y flwyddyn yn cael eu neilltuo i alluogi'r Bwrdd i ymgymryd â gwaith hunanasesu ac, yn bwysicach fyth, gwella sy'n canolbwyntio ar alluoedd unigol a chyfunol y Bwrdd.
- Ym mis Mehefin 2024 canolbwyntiodd y sesiwn hon ar wydnwch unigol a chyfunol.
- Yn Rhagfyr 2024 adeiladwyd ar y sesiwn gwytnwch i mewn i les gyda phob Aelod o'r Bwrdd yn cwblhau profion seicometrig yr Asesiad Gwydnwch yn y Gweithle (AGG), gan arwain at waith grŵp a thrafodaeth. Hwyluswyd y sesiwn hon hefyd gan adolygiad dan arweiniad Myfyrwyr Graddedig y GIG ar elfennau craidd cyfrifoldebau'r Bwrdd.

## 11. Archwilio Mewnol

Mae Archwilio Mewnol yn rhoi i mi, fel y Swyddog Cyfrifol, a'r Bwrdd trwy'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, lif o sicrwydd ar y system rheolaeth fewnol. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio sydd wedi'i wneud yn unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru. Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ac mae'n canolbwyntio ar feysydd sydd â risgiau sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethiant a rheoli risg yn rhan o swyddogaeth y rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg, ac mae'n cyfrannu at y darlun sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hawydd i weld gwelliant parhaus.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y cafwyd cwmpas archwilio mewnol digonol yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn darparu Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth ffurfio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn.

## 11.1 Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC), mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol (PAM) ddarparu barn flynyddol, yn seiliedig ar ac yn gyfyngedig i'r gwaith a gyflawnir ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad. Cyflawnir hyn drwy ddarparu cynllun archwilio sydd wedi canolbwyntio ar feysydd risg strategol a gweithredol allweddol a chyfleoedd gwella hysbys, y cytunwyd arno â rheolwyr gweithredol ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio, a ddylai ddarparu lefel briodol o sicrwydd.

Pwrpas barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yw cyfrannu at y sicrwydd sydd ar gael i'r Swyddog Atebol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n sail i asesiad y Bwrdd ei hun o effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y sefydliad.

Mae'r farn gyffredinol yn seiliedig yn bennaf ar ganlyniad y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn archwilio 2024/25. Rydym hefyd yn ystyried gwybodaeth arall sydd ar gael i ni megis ein gwybodaeth gyffredinol am y sefydliad, canfyddiadau darparwyr ac arolygwyr sicrwydd eraill, a'r gwaith rydym yn ei wneud mewn sefydliadau eraill yn GIG Cymru. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn ystyried canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ac yn arfer barn broffesiynol i lunio'r farn fwyaf priodol ar gyfer pob sefydliad.

Nodir barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd cyffredinol ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad isod.

| | | |
|---|---|---|
| **Sicrwydd rhesymol** |  - + | Gall y Bwrdd gael **sicrwydd rhesymol** bod trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi'u dylunio'n addas a'u rhoi ar waith yn effeithiol. Mae angen sylw'r rheolwyr ar rai materion yn y meysydd dylunio rheolaeth neu gydymffurfiaeth ag effaith isel i gymedrol o ran y lefel risg bosib, nes y cânt eu datrys. |

Nid yw'r farn yn awgrymu bod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r holl risgiau a sicrwydd sy'n ymwneud â'r Bwrdd Iechyd. Mae'r farn yn deillio'n sylweddol o gynnal gwaith archwilio sy'n seiliedig ar risg a luniwyd o amgylch detholiad o systemau a risgiau sefydliadol allweddol. O'r herwydd, mae'n elfen allweddol y mae'r Bwrdd yn ei hystyried ond ni fwriedir iddi ddarparu barn gynhwysfawr.

Crynhoir manylion yr archwiliadau a gynhaliwyd yn y flwyddyn a'r canlyniadau yn y tabl canlynol:

| Sicrwydd Sylweddol | Sicrwydd Rhesymol |
|---|---|
| • Systemau Cyfalaf<br>• Systemau Ariannol Craidd (Llyfr Cyfrifon Cyffredinol a Chyfrifon Derbyniadwy)<br>• Camau dilynol: Costau Staffio Dros Dro | • Adrodd ar Berfformiad (o Gynllun 23/24)<br>• Gofal mamolaeth – adolygiad Ockenden (o Gynllun 23/24)<br>• Iechyd a Diogelwch<br>• Diogelu<br>• Llywodraethu BC Gwasanaethau Arbenigol<br>• Proses Ganiatâd<br>• Rhoi'r Gorau i Ysmygu<br>• Adnewyddu'r Marwdy yn YAC<br>• Fframwaith Rheoli Risg/Sicrwydd Bwrdd<br>• Cynllunio Parhad Busnes<br>• Rheoli Cofnodion<br>• Moderneiddio Lifft YAC<br>• Llywodraethu BC Llawdriniaeth (Drafft)<br>• Asiantaeth Therapïau a Gwyddorau Iechyd, Oriau Ychwanegol a Goramser (Drafft)<br>• Gwireddu Buddion Office 365 (Drafft)<br>• Rheoli Rhestr Aros (Drafft) |
| **Sicrwydd Cyfyngedig** | **Cynghorol a Dim Barn** |
| • INNU<br>• Camau dilynol: Gweithredu'r Rhestr Cyfrifoldebau Iechyd<br>• Camau dilynol: Cynlluniau Swyddi Meddygon Ymgynghorol BC Llawdriniaeth<br>• Storfa Data Lleol<br>• Gwaith dilynol: Safonau Alcohol | • Gwasanaethau Cyfreithiol<br>• Gwneud Penderfyniadau<br>• Buddsoddiad Uned Endosgopi<br>• Ansawdd Data<br>• Rheoli Contractau (Drafft) |

Ar adeg cynhyrchu'r Adroddiad Blynyddol, roedd un archwiliad o'r Model Meddygaeth CB - Meddygaeth Acíwt yn dal i fynd rhagddo ond nid oedd wedi datblygu'n ddigonol i bennu'r sgôr sicrwydd yn ddibynadwy. Felly, bydd canlyniad yr archwiliad hwn yn bwydo i'r Farn ar gyfer 2025/26.

## 11.2 Sicrwydd Cyfyngedig

Fel y manylir yn y tabl uchod, mae Archwilio Mewnol wedi cyhoeddi pum adroddiad archwilio gyda chasgliad o sicrwydd cyfyngedig.

Mae rheolwyr y Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar gamau gweithredu i weithredu argymhellion Archwilio Mewnol ac felly'n mynd i'r afael â'r meysydd gwendid sylweddol a nodwyd trwy'r adroddiadau archwilio sicrwydd cyfyngedig hyn. Mae cynnydd tuag at weithredu'r camau rheoli y cytunwyd arnynt yn cael ei fonitro drwy broses tracio argymhellion y Bwrdd Iechyd ar y system AMaT ac yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn rheolaidd.

Fodd bynnag, dylid nodi bod tri o'r pum archwiliad sicrwydd Cyfyngedig yn ymwneud â chamau dilynol archwiliadau a adroddwyd yn wreiddiol fel Cyfyngedig yn ystod 2023/24. Mae'r sicrwydd Cyfyngedig parhaus yn dangos nad oedd cynnydd wedi'i wneud wrth weithredu'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn flaenorol ac felly nid yw'r materion a godwyd yn yr archwiliadau gwreiddiol wedi'u datrys.

Nid oedd unrhyw feysydd archwiliedig lle cafodd y Bwrdd Iechyd sgôr asesu "Dim sicrwydd".

# 12. Archwiliad Allanol - Archwilio Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw Archwilydd Allanol statudol y Bwrdd Iechyd ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal archwiliadau ar ei ran. Gelwir Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gyda'i gilydd yn Archwilio Cymru. Mae Archwilio Cymru yn craffu ar systemau a phrosesau ariannol y Bwrdd Iechyd, rheoli perfformiad, meysydd risg allweddol a'r swyddogaeth Archwilio Mewnol (https://www.audit.wales/)

## 12.1 Adroddiad Archwilio Blynyddol ar gyfer 2024

Mae rhaglen waith flynyddol Archwilio Cymru yn y Bwrdd Iechyd wedi'i nodi yn y Cynllun Archwilio. Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio manwl 2024 ar 20 Mai 2024. Ar 4 Chwefror 2025 derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Gynllun Archwilio Amlinellol 2025 Archwilio Cymru.

Mae adroddiadau a gynhyrchwyd gan Archwilio Cymru yn unol â'r Cynllun Archwilio yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae Ymateb Rheolwyr yn cael ei baratoi ar gyfer adroddiadau sy'n cynnwys argymhellion. Mae'r holl argymhellion yn cael eu cofnodi wedyn yn y Traciwr Argymhellion Archwilio Allanol. Darperir Adroddiad Tracio i bob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i roi sicrwydd ar ei weithrediad.

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith y Bwrdd Iechyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd:

| Adroddiad | Mis |
|---|---|
| Diweddariadau Archwilio Ariannol | Mai, Medi a Thachwedd 2024<br>Chwefror 2025 |
| Diweddariadau Archwilio Perfformiad | Mai, Medi a Thachwedd 2024<br>Chwefror 2025 |
| Adroddiad Archwilio Cyfrifon - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Gorffennaf 2024 |
| Adroddiad Dilynol Gofal Sylfaenol<br><br>Cynllun Archwilio Manwl 2024 | Mai 2024 |
| Adroddiad Atodol Archwilio Cyfrifon | Medi 2024 |
| Cronfeydd Elusennol (Cyfrifon 2022-25) | Ionawr 2025 |
| Asesiad Strwythuredig 2024<br>Gofal Brys ac Argyfwng Adroddiad Llif Allan o'r Ysbyty<br>Diweddariad Cynnydd Cynllun<br>Rhyddhau<br>Adolygiad o Drefniadau Arbed<br>Costau<br>Cynllun Archwilio Amlinellol 2025 | Chwefror 2025 |
| Adroddiad Archwilio Blynyddol 2024<br>(Gellir cael copi gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Adroddiad Archwilio Blynyddol 2024 \| Archwilio Cymru) | Chwefror 2025 |

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd hefyd yn adolygu canlyniadau adolygiadau cenedlaethol traws-sectoraidd yn y cyfarfod cynharaf posibl yn dilyn eu cyhoeddi.
Nid oedd Adroddiad Archwilio Blynyddol 2024 yn nodi unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel sy'n berthnasol i'r archwiliad)

Cafodd Cynllun Archwilio manwl ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 20 Mai 2024.

## 12.2 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Asesiad Strwythuredig

Mae Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru ar gyfer 2024 yn darparu asesiad o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Gwnaeth yr Asesiad Strwythuredig ar gyfer 2024 nifer o ganfyddiadau y mae rhai ohonynt yn cynnwys:

- • Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd gorfforaethol gadarn at gynhyrchu strategaethau a chynlluniau corfforaethol a goruchwylio'r gwaith o'u cyflawni. Canfuom fod trefniadau ar gyfer cynhyrchu, goruchwylio a chraffu ar strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn parhau i gryfhau, a bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i weithredu ac ymgorffori ei amcanion strategol diwygiedig
- Gwnaethom ystyried a yw Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Canfuom fod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i gynnal eu busnes yn dryloyw, yn parhau i weithredu'n effeithiol, ac yn parhau'n ymrwymedig i welliant parhaus. Mae cyfleoedd i wella rhai agweddau ar lywodraethu gweinyddol ac i wella dysgu o archwiliadau cerdded diogelwch cleifion ac adolygiadau effeithiolrwydd y Bwrdd.
- Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ymagwedd gorfforaethol gadarn o ran rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Canfuom fod y Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau ei systemau corfforaethol sicrwydd. Mae cyfleoedd i egluro trefniadau goruchwylio ar gyfer risgiau strategol a chorfforaethol ac i ddiweddaru'r Fframwaith Rheoli Perfformiad.
- Gwnaethom ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol. Canfuwyd, er gwaethaf prosesau clir ar gyfer cynllunio ariannol, rheoli a monitro, fod sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn parhau'n heriol. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â gorwariant a chryfhau ei ymagwedd at nodi a chyflawni arbedion rheolaidd er mwyn cyflawni ei uchelgeisiau cynaliadwyedd ariannol.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i feddu ar drefniadau da ar gyfer cynnal goruchwyliaeth y Bwrdd o strategaethau a chynlluniau corfforaethol allweddol. Mae Cynllun Blynyddol 2024-25 yn cynnwys cynllun cyflawni clir, wedi'i ategu gan drefniadau adrodd newydd, fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar eu heffeithiolrwydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y Cynllun Blynyddol ac wedi gosod amodau atebolrwydd sy'n gysylltiedig â chyflawni a gwella'r cynllun diffyg, gan leihau'r risg ymhellach i'r cynllun ariannol i sicrhau bod y cynllun arbed yn cael ei gyflwyno yn ystod y flwyddyn, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd effeithlonrwydd
a chynhyrchiant ac atebion rhanbarthol ar gyfer endosgopi a heriau clinigol eraill. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu defnyddio'r portffolios strategol i lywio datblygiad ei CTCI 2025-28.

Gellir cael gafael ar yr Asesiad Strwythuredig trwy'r ddolen ganlynol:

[Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Asesiad Strwythuredig 2024 | Archwilio Cymru]

## 13. Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 - Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi

Cyhoeddwyd Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ym mis Mai 2017 i dynnu sylw at yr angen, ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi, i sicrhau bod arferion cyflogaeth da yn bodoli ar gyfer pob

gweithiwr, yn y DU a thramor. Mae disgwyl y bydd holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn cofrestru ar gyfer y Cod.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi egwyddorion a gofynion y Cod a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn llawn ac mae wedi ymrwymo i chwarae ei rôl fel cyflogwr sector cyhoeddus mawr i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesol, megis:

- Caethwasiaeth Fodern a Thorri Hawliau Dynol;
- Gweithredu cosbrestrau/rhestrau gwaharddedig;
- Hunangyflogaeth ffug;
- Defnydd annheg o gynlluniau ymbarél a chontractau dim oriau; a
- Thalu'r Cyflog Byw.

Mae'r **camau canlynol ar waith** sy'n cyflawni ymrwymiadau'r Cod:

- Mae gennym Weithdrefn Codi Pryderon sy'n rhoi proses deg a thryloyw i'r gweithlu, i'w grymuso a'u galluogi i godi amheuon am unrhyw fath o gamymddwyn gan naill ai ein staff neu gyflenwyr/contractwyr sy'n gweithio ar safle'r Bwrdd Iechyd;
- Mae gennym darged ar waith i dalu ein cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys;
- Rydym yn cydymffurfio â chwe gofyniad gwiriadau cyn cyflogaeth y GIG i wirio bod ymgeiswyr yn bodloni rhagamodau'r rôl y maent yn gwneud cais amdani. Mae hyn yn cynnwys gwiriad hawl i weithio;
- Rydym wedi cyflwyno prosesau IR35 cadarn i sicrhau ymgysylltiad teg a phriodol i'r holl weithwyr ac atal unigolion rhag osgoi talu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol;
- Nid ydym yn cyflogi staff na gweithwyr ar gontractau dim oriau;
- Mae gennym Bolisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol ar waith sy'n sicrhau nad oes unrhyw ymgeisydd, cyflogai neu weithiwr posibl, yr ymgysylltir â nhw mewn unrhyw ffordd, o dan anfantais ormodol o ran cyflog, hawliau cyflogaeth, cyflogaeth na chyfleoedd gyrfa;
- Rydym hefyd yn gofyn am sicrwydd gan gyflenwyr, drwy'r broses dendro, nad ydynt yn defnyddio cosbrestrau/rhestrau gwaharddedig.
- Yn unol â'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) bydd unrhyw staff Bwrdd Iechyd y gallai fod gofyn iddynt drosglwyddo i drydydd parti yn cadw eu Telerau ac Amodau Gwasanaeth GIG;
- Rydym yn defnyddio traciwr cydymffurfiaeth Deddf Caethwasiaeth Fodern (2015) ar ffurf contractau a gaffaelwyd gan Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru (PGRGC) ar ran y Bwrdd Iechyd. Mae PGRGC yr un mor ymrwymedig i sicrhau bod gweithgarwch caffael a gynhelir ar ran GIG Cymru yn cael ei gynnal mewn ffordd foesegol. Ar ein rhan, maent yn sicrhau bod gweithwyr o fewn y cadwyni cyflenwi y maent yn dod o hyd i'n nwyddau a'n gwasanaethau drwyddynt yn cael eu trin yn deg, yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol ac undebau llafur partner i ddatblygu a gweithredu camau gweithredu sy'n nodi ein hymrwymiad i

sicrhau bod egwyddorion cyflogaeth foesegol o fewn ein cadwyni cyflenwi yn cael eu gweithredu a'u dilyn.

## 14. Casgliad

Fel Swyddog Cyfrifol, yn seiliedig ar y broses sicrwydd a amlinellir uchod, rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a'r sicrwydd perthnasol mewn perthynas â rheolaeth fewnol. Gallaf gadarnhau bod y Bwrdd a'i Gyfarwyddwyr Gweithredol yn effro i'w rhwymedigaethau mewn perthynas â rheolaeth fewnol.

Yn ystod 2024-2025, rydym unwaith eto wedi nodi meysydd sydd angen eu gwella yn rhagweithiol ac wedi gofyn i Archwilio Mewnol gynnal asesiadau manwl er mwyn rheoli a lliniaru risgiau cysylltiedig. Mae nifer o adroddiadau a gyhoeddwyd gan Archwilio Mewnol yn cytuno â'n barn ac o ganlyniad wedi rhoi argymhellion clir i'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod camau rheoli penodol a brys ar waith i fynd i'r afael â diffygion a nodwyd. Yna caiff y camau hyn eu monitro drwy'r Bwrdd a'i Bwyllgorau i sicrhau y gellir rhoi sicrwydd priodol.

Mae Adroddiad Asesiad Strwythuredig 2024 a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCaF) yn tynnu sylw at nifer o ganlyniadau allweddol. Mae'r adroddiad yn pwysleisio heriau parhaus y Bwrdd Iechyd, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant, prinder gweithlu. Yn gyffredinol, mae trefniadau llywodraethu corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn effeithiol, ac mae camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i weithredu ei strategaeth hirdymor.

Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod statws uwchgyfeirio ein Bwrdd Iechyd wedi'i godi i Lefel 4 ar gyfer cyllid, strategaeth a chynllunio. O ganlyniad byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a GIG Cymru i wella cynaliadwyedd, effeithlonrwydd adnoddau a chynhyrchiant.

I grynhoi, mae fy adolygiad yn cadarnhau bod gan y Bwrdd systemau cadarn o reolaeth fewnol ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau polisi a'n hamcanion corfforaethol ac nad oes unrhyw faterion rheolaeth fewnol neu lywodraethu sylweddol i'w hadrodd ar gyfer 2024-2025.

***Llofnodwyd gan***

***Suzanne Rankin,***

***Prif Weithredwr***

***Dyddiad:*** ++++

# Atodiad 1

**Dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod 2024-2025**

## Pwyllgor Ansawdd

| Presenoldeb | 21.05.24 | 16.07.24 | 08.10.24 | 26.11.24 | 18.02.25 | Canran Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ceri Phillips (Cadeirydd) | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Rhian Thomas (Is-Gadeirydd) | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Akmal Hanuk | √ | √ | √ | X | √ | 80.00% |
| Mike Jones | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Jason Roberts | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Paul Bostock | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Richard Skone | √ | √ | √ | Dd/B | Dd/B | 100.00% |
| Emma Cooke | √ | X | √ | √ | √ | 80.00% |
| Claire Beynon | √ | √ | √ | √ | X | 80.00% |
| Matt Phillips | X | X | √ | √ | √ | 60.00% |
| David Fluck | Dd/B | Dd/B | Dd/B | √ | √ | 100.00% |
| **Cyfanswm** | | | | | | **91%** |

## Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl

| Presenoldeb | 30.04.24 | 06.08.24 | 29.10.24 | 28.01.25 | Canran Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Ceri Phillips (Cadeirydd) | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Sara Moseley (Is-Gadeirydd) | √ | X | √ | √ | 75.00% |
| Rhian Thomas | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Susan Lloyd-Selby | X | √ | √ | √ | 75.00% |
| Rachna Upadhya | Dd/B | Dd/B | Dd/B | √ | 100.00% |
| Jason Roberts | X | √ | √ | √ | 75.00% |
| Matt Phillips | √ | √ | X | √ | 75.00% |
| **Cyfanswm** | | | | | **75%** |

## Pwyllgor Cronfeydd Elusennol

| Presenoldeb | 11.06.24 | 17.09.24 | 10.12.24 | 06.01.25 | 18.03.25 | Canran Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| John Union (Cadeirydd) | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Susan Lloyd-Selby | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Sara Moseley | X | √ | √ | X | √ | 60.00% |
| Catherine Phillips | √ | √ | √ | √ | X | 80.00% |
| Rachel Gidman | √ | X | √ | √ | √ | 80.00% |
| Emma Cooke | X | √ | X | X | X | 20.00% |
| Matt Phillips | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| **Cyfanswm** | | | | | | **77%** |

## Pwyllgor Pobl a Diwylliant

| Presenoldeb | 09.05.24 | 09.07.24 | 10.09.24 | 19.11.24 | 21.01.25 | 12.03.25 | Canran Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sara Moseley | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Akmal Hanuk | √ | √ | √ | √ | X | √ | 83.33% |
| Rhian Thomas | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Mike Jones | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Susan Lloyd-Selby | √ | √ | √ | X | √ | √ | 83.33% |
| Rachel Gidman | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Paul Bostock | √ | √ | √ | X | √ | √ | 83.33% |
| Claire Beynon | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Matt Phillips | X | √ | √ | √ | √ | √ | 83.33% |
| **Cyfanswm** | | | | | | | **93%** |

## Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd

| Presenoldeb | 20.05.24 | 02.07.24 | 11.07.24 | 03.09.24 | 05.11.24 | 04.02.25 | Canran Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhian Thomas | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| David Edwards | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Mike Jones | √ | √ | √ | √ | √ | X | 83.33% |
| John Union | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Ceri Phillips | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Rachna Upadhya | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | X | 0.00% |
| Catherine Phillips | √ | X | X | √ | X | √ | 50.00% |
| Rachel Gidman | X | X | √ | √ | √ | X | 50.00% |
| Matt Phillips | √ | √ | √ | √ | √ | X | 83.33% |
| **Cyfanswm** | | | | | | | **74%** |

## Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad

| Presenoldeb | 17.04 .24 | 22.05 .24 | 19.06 .24 | 17.07 .24 | 21.08 .24 | 18.09 .24 | 23.10 .24 | 20.11 .24 | 22.01 .25 | 19.02 .25 | 19.03 .25 | Canran Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| John Union | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| David Edwards | √ | √ | √ | √ | √ | X | X | √ | √ | √ | X | 72.73% |
| Ceri Phillips | X | √ | √ | √ | X | X | √ | X | √ | √ | √ | 63.64% |
| Steve Riley | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | X | √ | X | 33.33% |
| Rachna Upadhya | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | X | √ | √ | 66.66% |
| Catherine Phillips | √ | √ | X | √ | √ | √ | √ | √ | √ | X | √ | 81.82% |
| Paul Bostock | √ | √ | X | √ | √ | √ | √ | X | √ | √ | X | 72.73% |
| Matt Phillips | √ | √ | √ | √ | X | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 90.91% |
| **Cyfanswm** | | | | | | | | | | | | **73%** |

## Digidol a Seilwaith

| Presenoldeb | 28.05.2024 | 13.08.2024 | 12.11.2024 | 11.02.2025 | Canran Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| David Edwards | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Akmal Hanuk | √ | √ | X | √ | 75.00% |
| Steve Riley | Dd/B | Dd/B | Dd/B | X | 0.00% |
| Susan Lloyd-Selby | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Rachna Upadhya | Dd/B | Dd/B | Dd/B | √ | 100.00% |
| David Thomas | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Matt Phillips | √ | X | √ | √ | 75.00% |
| **Cyfanswm** | | | | | **79%** |

## Pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth

| Presenoldeb | 26.06.24 | 01.08.24 | 05.11.24 | 27.01.25 | Canran Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Charles Janczewski | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Ceri Phillips | X | X | √ | √ | 50.00% |
| Suzanne Rankin | √ | √ | X | √ | 75.00% |
| Rachel Gidman | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| David Edwards | √ | X | √ | √ | 75.00% |
| Rhian Thomas | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Sara Moseley | √ | √ | X | X | 50.00% |
| John Union | X | √ | √ | √ | 75.00% |
| Matt Philips | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| **Cyfanswm** | | | | | **81%** |

## Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

| Presenoldeb | 09.05.2024 | 24.09.2024 | 23.01.2025 | Canran Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|
| Charles Janczewski | √ | X | √ | 66.67% |
| Ceri Phillips | X | √ | √ | 66.67% |
| Akmal Hanuk | √ | √ | X | 66.67% |
| Susan Lloyd-Selby | √ | √ | √ | 100.00% |
| Steve Riley | Dd/B | Dd/B | X | 0.00% |
| Rhian Thomas | √ | √ | √ | 100.00% |
| John Union | √ | X | √ | 66.67% |
| Sara Moseley | X | √ | X | 33.33% |
| Mike Jones | X | √ | √ | 66.67% |
| David Edwards | X | √ | √ | 66.67% |
| Rachna Upadhya | Dd/B | Dd/B | √ | 100.00% |
| Suzanne Rankin | √ | X | √ | 66.67% |
| Claire Beynon | √ | X | √ | 66.67% |
| Paul Bostock | √ | √ | √ | 100.00% |
| Emma Cooke | √ | √ | X | 66.67% |
| Marie Davies | √ | √ | X | 66.67% |
| Rachel Gidman | √ | X | √ | 66.67% |
| Catherine Phillips | √ | √ | √ | 100.00% |
| Jason Roberts | √ | X | √ | 66.67% |
| Richard Skone | √ | √ | √ | 100.00% |
| David Fluck | Dd/B | Dd/B | X | 0.00% |
| Matt Phillips | √ | √ | √ | 100.00% |
| Joanne Brandon | √ | √ | √ | 100.00% |
| **Cyfanswm** | | | | 71% |

## Bwrdd

| Presenoldeb | 13.05 .24 | 11.07 .24 | 25.07 .24 | 26.09 .24. | 28.11 .24 | 30.01 .25 | 27.03 .25 | Canran Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Charles Janczewski | √ | √ | √ | X | √ | √ | √ | 85.71% |
| Ceri Phillips | √ | √ | X | √ | √ | √ | √ | 85.71% |
| Akmal Hanuk | √ | √ | √ | √ | √ | X | X | 71.43% |
| Susan Lloyd-Selby | √ | √ | √ | √ | √ | X | X | 71.43% |
| Rhian Thomas | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Steve Riley | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | X | √ | √ | 66.67% |
| John Union | √ | √ | √ | √ | X | √ | √ | 85.71% |
| Sara Moseley | X | √ | √ | √ | √ | X | √ | 71.43% |
| Mike Jones | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| David Edwards | √ | √ | √ | √ | √ | X | X | 71.43% |
| Rachna Upadhya | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | √ | √ | 100.00% |
| Suzanne Rankin | √ | √ | √ | X | √ | √ | √ | 85.71% |
| Claire Beynon | √ | √ | √ | √ | √ | √ | X | 85.71% |
| Paul Bostock | √ | √ | √ | √ | √ | √ | X | 85.71% |
| Emma Cooke | √ | √ | √ | √ | X | √ | X | 71.43% |
| Marie Davies | √ | √ | √ | √ | √ | √ | Dd/B | 100.00% |
| Rachel Gidman | √ | √ | √ | √ | √ | √ | X | 85.71% |
| Catherine Phillips | √ | X | √ | √ | √ | √ | X | 71.43% |
| Jason Roberts | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| Richard Skone | √ | √ | √ | X | X | √ | Dd/B | 66.67% |
| David Fluck | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | √ | X | √ | 66.67% |
| Matt Phillips | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| David Thomas | √ | √ | √ | √ | √ | √ | √ | 100.00% |
| **Cyfanswm** | | | | | | | | 84% |

Roedd yr holl gyfarfodydd a gynhaliwyd yn gworwm ac eithrio'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a gynhaliwyd 18 Mawrth 2025.

Lle nad oes cworwm, mae trefniadau uwchgyfeirio yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau y gellid codi unrhyw faterion o bryder sylweddol na ellid eu dwyn i sylw'r Pwyllgor gyda Chadeirydd y Bwrdd Iechyd.

Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr Gweithredol nad ydynt yn gallu mynychu cyfarfod anfon dirprwy lle bo hynny'n briodol.

**Tabl 1 - Rolau Hyrwyddwyr Bwrdd yn ystod 2024-2025**

| Aelod Bwrdd | Rôl Hyrwyddwr |
|---|---|
| Charles Janczewski | Gweithio i Wella<br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Ceri Phillips | Iechyd Meddwl |
| David Edwards | Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr |
| Susan Lloyd-Selby | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) |
| Akmal Hanuk | Atal a Rheoli Heintiau |
| Sara Moseley | Cydraddoldeb |
| Rhian Thomas | Plant a Phobl Ifanc |
| Mike Jones | Mynegi Pryderon |
| Jason Roberts | Plant a Phobl Ifanc<br>Gweithio i Wella |
| Paul Bostock | Nodwedd Warchodedig Oedran |
| Catherine Phillips | Cynllunio at Argyfwng |
| Matt Phillips | Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr |
| Rachel Gidman | Diogelwch Tân<br>Trais ac Ymddygiad<br>Ymosodol Yr Iaith<br>Gymraeg |
| Claire Beynon | Nodwedd Warchodedig Rhyw/Rhywedd |
| David Thomas | Cydraddoldeb |

**Tabl 2 - Dyddiadau'r cyfarfodydd Grŵp Cynghori a gynhaliwyd yn ystod 2024-2025**

| Dyddiadau cyfarfodydd: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid | 28.05.24 | 09.09.24 | 26.11.24 | 26.03.25 | 13.02.25 |
| Fforwm Partneriaeth Lleol | 11.04.24 | 13.06.24 | 05.08.24 | 09.10.24 | 11.04.24 |

Cynrychiolwyd y Bwrdd Iechyd hefyd ar y Cydbwyllgorau canlynol:

- Pwyllgor Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru (PGRGC)
- Cydbwyllgor Comisiynu (JCC)

Mae adroddiadau/bwletinau sicrwydd o'r Pwyllgorau uchod yn cael eu cofnodi ar agenda'r Bwrdd yn ôl yr angen.

# Atodiad 2

Mae Atodiad 2 yn amlinellu Cylchlythyrau Iechyd Cymru (CICau) a Chyfarwyddiadau Gweinidogol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru drwy gydol 2024/25.

**Rhestr CIC 2024/25 a dderbyniwyd gan y sefydliad**

Cylchlythyrau iechyd: 2024 i 2027 | LLYW.CYMRU

| Cylchlythyr Iechyd Cymru | Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu |
|---|---|
| Gweithredu'r rhannau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau o gydgytundeb 2022 i 2024 (CIC/2024/017) | 05.04.2024 |
| Llwybr amheuaeth o ganser: canllawiau (CIC/2024/07) | 09.04.2024 |
| Rhaglen Plant Iach Cymru: ar gyfer plant oedran ysgol (CIC/2024/016) | 11.04.2024 |
| Newidiadau i reolau sefydlog mewn byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG (CIC/2024/019) | 23.04.2024 |
| Cyflwyno codau daearyddol SYG i'w defnyddio fel safon yn GIG Cymru (CIC/2024/014) | 07.05.2024 |
| Cronfa driniaeth newydd: cyfarwyddiadau ar yr eithriadau ar gyfer byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd (CIC/2024/020) | 13.04.2024 |
| Dogfen ymatebion gorfodol cydweithredol gwrth-drais (CIC/2024/024) | 21.05.2024 |
| Cynllun archwilio clinigol ac adolygu canlyniadau cenedlaethol GIG Cymru 2024 i 2025 (CIC/025/24) | 04.06.2024 |
| Canllaw monitro ariannol GIG Cymru 2024 i 2025 (CIC/2024/026) | 11.06.2024 |
| Ardystio amhariad ar y golwg mewn gofal sylfaenol a chymunedol (CIC/2024/029) | 11.06.2024 |
| Rhaglen imiwneiddio ffliw genedlaethol 2024 i 2025 (CIC/2024/028) | 12.06.2024 |
| Rhaglen lleihau'r gweithlu asiantaeth a fframwaith rheoli 2024 i 2025 (CIC/2024/031) | 17.06.2024 |
| Canllawiau uwchgyfeirio gofal critigol (CIC/2024/027) | 19.06.2024 |
| Cyflwyno rhaglen frechu RSV 2024 (CIC/2024/032) | 25.06.2024 |
| Llwybr meddyginiaeth rheoli pwysau cyhoeddedig (CIC/2024/030) | 03.07.2024 |
| Rhaglen frechu anadlol y gaeaf 2024 i 2025 (CIC/2024/033) | 02.08.2024 |
| Llywodraethu ar benodiadau dros dro i swyddi gweithredol ac uwch swyddi (CIC/2024/013) | 22.08.2024 |

| Cylchlythyr Iechyd Cymru | Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu |
|---|---|
| Fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth (CIC/2024/0234) | 28.08.2024 |
| Silindrau ocsigen: adroddiad rheoliad 28 a nodyn atgoffa diogelwch cleifion 041 (CIC/2024/036) | 30.08.2024 |
| Safoni'r broses o reoli dirywiad acíwt (CIC/2024/035) | 17.09.2024 |
| Nodau gwella heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd 2024 i 2025 (CIC/2024/038) | 27.09.2024 |
| Fframwaith anadlol y gaeaf 2024 i 2025 (CIC/2024/037) | 20.09.2024 |
| Cymryd samplau cyn trallwyso (CIC/2024/039) | 03.10.2024 |
| Mabwysiadu dull uwchgyfeirio a gychwynnir gan gleifion a theuluoedd (CIC/2024/040) | 04.10.2024 |
| Canllawiau trosglwyddo cleifion ambiwlans (CIC/2024/041) | 25.10.2024 |
| Modiwl e-ddysgu gwrth-hiliaeth (CIC/2024/044) | 05.11.2024 |
| Brechiad pertwsis ar gyfer gweithwyr gofal iechyd (CIC/2024/043) | 15.11.2024 |
| Gweld sepsis mewn plant, taflen ymwybyddiaeth (CIC/2024/045) | 18.11.2024 |
| Fframwaith integreiddio ar gyfer nyrsys sydd wedi'u haddysgu'n rhyngwladol (CIC/2024/021) | 25.11.2024 |
| Newid i'r rhaglen frechu rhag y ffliw 2024 i 2025 (CIC/2024/046) | 04.12.2024 |
| Rhaglen frechu'r gwanwyn COVID-19 2025 (CIC/2024/047) | 19.12.2024 |
| Ymchwiliad Gwaed Heintiedig: cyflawni argymhelliad 8a ac 8b (CIC/2024/050) | 20.12.2024 |
| Dyraniadau byrddau iechyd: 2025 i 2026 (CIC/2024/051) | 27.01.2025 |
| Dyledion sy'n destun dadl rhwng sefydliadau'r GIG: canllawiau (CIC/2024/022) | 03.02.2025 |
| Amserlenni a chyfrifoldebau ar gyfer Sgoriau Rhybudd Cynnar (SRhC) (CIC/2025/002) | 04.03.2025 |
| Cynhadledd a gwobrau cynaliadwyedd GIG Cymru (CIC/2025/005) | 06.03.2025 |
| Diwrnod arweinyddiaeth ac ymaddasu i'r argyfwng hinsawdd (CIC/2025/005) | 12.03.2025 |

# Atodiad 2

**Cyfarwyddydau Gweinidogol 2024/25 a dderbyniwyd gan y sefydliad**

Cyhoeddiadau | LLYW.CYMRU

| Cyfarwyddydau Gweinidogol (CGau) | Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu |
|---|---|
| Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ar Ddatganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio) (Rhif 2) 2024 | 19.04.2024 |
| Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru 2003 a Chyfarwyddydau Cyflwyno Meddyginiaethau Newydd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru Dan Reolaeth 2009 (Diwygio) (Cymru) 2024 | 29.04.2024 |
| Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwasanaethau Atodol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2024 | 24.06.2024 |
| Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Imiwneiddio Pertwsis ar gyfer Menywod Beichiog ac Ôl-enedigol) (Gwasanaethau Atodol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2024 | 24.06.2024 |
| Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Y Ffliw a'r Cynllun Imiwneiddio Niwmococaidd) (Gwasanaeth Atodol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2024 | 24.06.2024 |
| Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwrthgeulo Geneuol gyda Warfarin) (Gwasanaethau Atodol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2024 | 24.06.2024 |
| Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Triniaeth Hormonau ar gyfer Cleifion Trawsryweddol sy'n Oedolion) (Gwasanaeth Atodol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2024 | 24.06.2024 |
| Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Gwrthfeirysau ar gyfer Proffylacsis Ffliw Tymhorol mewn Achosion Cartrefi Gofal) (Gwasanaeth Atodol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2024 | 24.06.2024 |
| Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cynllun Gofal Diabetes Mellitus Math 2 i Oedolion) (Gwasanaeth Atodol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2024 | 24.06.2024 |
| Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Darparwyr Amgen (Cymru) 2024 | 05.07.2024 |
| Cyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Gwasanaethau wedi'u Contractio: Imiwneiddio) (RSV) 2024 | 23.08.2024 |
| Y Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth 2024 | 28.08.2024 |

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) (Diwygio) 2024 | 30.09.2024 |

| Cylchlythyr Iechyd Cymru | Dyddiad/Blwyddyn Mabwysiadu |
|---|---|
| Cyfarwyddydau i Gyfarwyddydau Byrddau Iechyd Lleol o ran y Datganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio) (Rhif 3) 2024 | 10.10.2024 |
| Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ar Ddatganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio) (Rhif 4) 2024 | 28.10.2024 |
| Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Bwrdd Iechyd Lleol (Cymru) 2024 | 03.12.2024 |
| Cyfarwyddydau gwasanaethau atodol o dan gyfarwyddyd a manyleb ar gyfer aml-forbidrwydd cymhleth a bregusrwydd 2024 | 19.12.2024 |
| Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ar Ddatganiad o Hawliau Ariannol Cyfarwyddydau Gwasanaethau Deintyddol Personol (Diwygio) 2025 | 10.02.2025 |
| Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ar Ddatganiad o Hawliau Ariannol Cyfarwyddydau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (Diwygio) (Rhif 2) 2025 | 10.02.2025 |
| Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ar Ddatganiad o Hawliau Ariannol Cyfarwyddydau Gwasanaethau Deintyddol Personol (Diwygio) (Rhif 2) 2025 | 10.02.2025 |
| Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ar Gyfarwyddydau Datganiad o Hawliau Ariannol (Diwygio) 2025 | 11.02.2025 |
| Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ar Ddatganiad o Hawliau Ariannol Cyfarwyddydau Gwasanaethau Deintyddol Personol (Diwygio) (Rhif 3) 2025 | 18.02.2025 |
| Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ar Ddatganiad o Hawliau Ariannol Cyfarwyddydau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (Diwygio) (Rhif 3) 2025 | 18.02.2025 |
| Cyfarwyddydau datganiad taliadau a ffioedd gwasanaethau offthalmig cyffredinol: 2025 | 21.02.2025 |
| Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ar Ddatganiad o Hawliau Ariannol Cyfarwyddydau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (Diwygio) 2025 | 21.02.2025 |
| Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2025 | 28.03.2025 |

# Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

## *Rhan 2b*

# 15. Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff

## 15.1 Niferoedd Staff

Mae proffil gweithlu'r Bwrdd Iechyd yn nodi bod tua 76% o'r gweithlu yn fenywaidd. Nid yw hyn yn gynrychioliadol o'r gymuned leol lle mae ychydig dros hanner y boblogaeth yn fenywaidd. Roedd nifer y cyfarwyddwyr, rheolwyr a chyflogeion benywaidd a gwrywaidd ar 31 Mawrth 2024 fel a ganlyn:

| | Benyw | Gwryw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr | 9 | 10 | 19 |
| Rheolwr | 213 | 129 | 342 |
| Cyflogai | 13,685 | 4,329 | 18,014 |
| Cyfanswm | 13,907 | 4,468 | 18,375 |

## 15.2 Cyfansoddiad Staff

Mae gennym weithlu amrywiol o 18,375 o staff sy'n gweithio mewn sawl math gwahanol o rôl, ac ynghyd â gwirfoddolwyr, cydweithwyr gofal cymdeithasol a gofalwyr, rydym yn cael effaith enfawr ar ein poblogaeth. Mae'n rhaid i ni wybod a deall siâp ein gweithlu os ydym am fonitro ac adolygu cynlluniau sy'n arwain yn llwyddiannus at greu'r gweithlu cywir ar yr adeg gywir, gan alluogi a grymuso'r gweithlu i weithio i 'frig eu trwydded' neu gwmpas ymarfer. Mae ein Cynllun Pobl a Diwylliant yn cydnabod, yn ogystal â'r heriau a ddaw yn sgil y pandemig a'r cyfnod adfer angenrheidiol, ein bod ni, ynghyd â'r GIG ehangach yng Nghymru, yn wynebu newidiadau cymdeithasol, economaidd, technolegol a demograffig. O ganlyniad i hyn, mae angen i ddemograffeg ein gweithlu newid hefyd, a rhaid i ni addasu'r ffordd yr ydym yn recriwtio, cadw a chefnogi ein pobl.

Mae'r siartiau isod yn nodi'r heriau canlynol wrth benderfynu ar y ffyrdd gorau posibl o ddefnyddio'r gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol a sut i ystyried cyflenwad yn erbyn blaenoriaethau gwasanaeth yn y dyfodol:

- Mae gan y BIP weithlu sy'n heneiddio a'r categorïau oedran mwyaf yw 31-35 oed (2,417 o staff), 36-40 oed (2,546 o staff) a 41-45 oed (2,254 o staff).
- Y categorïau gradd mwyaf yw'r staff ym Mandiau Agenda ar gyfer Newid 2, 5 a 6. Mae adolygu cymysgedd sgiliau a ffyrdd newydd o weithio yn barhaus yn bwysig er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o sgiliau yn y dyfodol yn y lle cywir ac ar y radd gywir. Mae hefyd angen moderneiddio'r gweithlu ymhellach, rolau newydd a sgiliau estynedig, wedi'i ategu gan ddeallusrwydd gweithlu a sgiliau cynllunio'r gweithlu gwell. Mae hyn yn cynnwys datblygu mesurau effeithlonrwydd a chynhyrchiant priodol sy'n helpu i hwyluso meincnodi a dangos gwerth wrth i siâp ein gweithlu barhau i newid.
- Mae'r rhan fwyaf o'r gweithlu'n fenywaidd (75.68%) gyda rhaniad gweddol gyfartal yn y grŵp hwn rhwng gwaith llawn-amser (51.10%) a rhan-amser (48.90%). Mae defnyddio ein polisïau cyflogaeth, fel y Polisi Gweithlu Addasadwy a'r Polisi Gweithio Hyblyg, yn hanfodol i gadw talent a chadw diddordeb staff.

- Mae mwyafrif y gweithlu yn wyn (72.88%) gyda 18.10% mewn categorïau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a 11.31% heb ddatgan. Mae gan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol nifer o gamau i barhau i adolygu ein gweithlu yn hyn o beth er mwyn sicrhau ei fod yn ymdrechu i adlewyrchu'r boblogaeth leol lle bo hynny'n berthnasol e.e. mewn arferion recriwtio.
- Mae staff nyrsio a bydwreigiaeth cofrestredig a staff nyrsio anghofrestredig yn cyfrif am ychydig dros 43% o'r gweithlu cyfan. O ystyried bod prinder cenedlaethol cydnabyddedig o nyrsys cofrestredig, mae'r BIP wedi gwneud cynaliadwyedd nyrsio yn flaenoriaeth uchel ar ei agenda gweithlu. Er na allwn ddylanwadu ar y cyflenwad o weithlu cofrestredig yn y tymor byr, gallwn ganolbwyntio ein hymdrechion ar ddenu pobl drwy wella brandio'r BIP, hyrwyddo manteision gweithio yma, a thargedu grwpiau penodol mewn cymdeithas.

Mae gwybodaeth proffil y gweithlu a gasglwyd ar gyfer y BIP ym mis Mawrth 2025 yn dangos bod 7.84% o staff yn ystyried bod ganddynt anabledd, ond nid yw'r wybodaeth hon yn hysbys ar gyfer nifer sylweddol o staff (16.14%).



## 16.3 Data Absenoldeb Salwch

Mae iechyd a lles staff BIP Caerdydd a'r Fro o'r pwys mwyaf, yn enwedig ar yr adeg ddigynsail hon, ac mae llawer o'r gwaith a wnaed yn 2024-25 wedi'i ddisgrifio yn yr Adroddiad Perfformiad.

Mae **absenoldeb salwch** yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r BIP. Y gyfradd salwch gronnol ar gyfer y cyfnod o 12 mis hyd at a chan gynnwys mis Mawrth 2025 yw 6.33%, sydd 0.33% yn uwch na tharged diwedd blwyddyn 2024/25, sef 6.00%

Priodolwyd 66.04% o'r salwch hwn i absenoldeb hirdymor a 33.96% i absenoldeb byrdymor. Y prif resymau a gofnodwyd yn y BIP dros absenoldeb yn ystod 2024-25 oedd 'Gorbryder/straen/iselder/salwch seiciatrig eraill' ac 'Annwyd, Peswch, Ffliw – Ffliw'.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch yn ystod 2023-24 a 2024-25

| | 2024-25 | 2023-24 |
|---|---|---|
| | Nifer | Nifer |
| Diwrnodau Calendr CALl a gollwyd (hirdymor) | 231,569.64 | 220,631.64 |
| Diwrnodau Calendr CALl a gollwyd (byrdymor) | 119,080.94 | 115,748.36 |
| **Cyfanswm diwrnodau calendr CALl a gollwyd** | **350,650.58** | **336,380.00** |
| **Cyfanswm diwrnodau calendr CALl sydd ar gael /365.25 = cyfartaledd staff CALl mewn swydd** | 15,166.43 | **14,813.19** |
| Diwrnodau calendr CALl cyfartalog a gollwyd (h.y. fesul CALl) | 23.12 | 22.72 |
| Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (cyfrif pen) | 17,454 | 17,096 |
| Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod heb absenoldeb (cyfrif pen) | 5,197 | 5,404 |

## 16.4 Polisïau Staff

Yn BIP Caerdydd a'r Fro mae gennym 6 Pholisi cyflogaeth BIP lleol:

- Recriwtio a Dethol
- Gweithlu Addasadwy
- Iechyd a Lles Cyflogeion
- Dysgu, Addysg a Datblygu
- Polisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol
- Mamolaeth, Mabwysiadu, Tadolaeth ac Absenoldeb Rhiant a Rennir

Mae'r rhain yn nodi ein hymrwymiadau sefydliadol a'r hyn yr ydym yn anelu at ei gyflawni. Cefnogir pob un ohonynt gan nifer o Weithdrefnau sy'n disgrifio'r prosesau i'w dilyn, rolau a chyfrifoldebau, ac unrhyw hawliau neu rwymedigaethau. Mae hyn yn golygu bod llai o ddyblygu, mwy o dryloywder a gwybodaeth sy'n haws ei deall. Mae'r rhain yn ychwanegol at y Polisïau Cymru Gyfan sy'n berthnasol i ni a phob Bwrdd Iechyd arall yng Nghymru.
Mae'n ofynnol i bob polisi, gweithdrefn

a chanllaw cyflogaeth, ynghyd â rhai eraill sy’n gysylltiedig â Gwasanaethau Pobl (Adnoddau Dynol) a Phobl a Diwylliant, gael o leiaf ddau awdur, h.y. cynrychiolydd rheolwyr a staff, a rhaid iddynt fod yn destun prosesau ymgynghori cadarn. Mae hyn yn cynnwys cael eu cyhoeddi ar safle Sharepoint y BIP am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf ac ystyriaeth yn Is-Grŵp Polisïau Cyflogaeth y Fforwm Partneriaeth Lleol.

Fel cyflogwr, rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfle cyfartal a chynhwysiant ystyrlon i bob gweithiwr, waeth beth yw eu nodweddion gwarchodedig, fel y dangosir gan ein **Polisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol**. Mae ei gylch gwaith yn mynd y tu hwnt i gydymffurfiad llym â'r gyfraith ac mae'n gweithredu fel pwynt cyfeirio pe bai unrhyw anghydfodau dilynol.

Mae'r BIP wedi ymrwymo i gyfle cyfartal wrth recriwtio, ac yn dangos hyn drwy arddangos y symbol Arweinydd Hyderus o ran Anabledd (sy'n disodli'r cynllun 'dau dic') ym mhob hysbyseb, yn ogystal â symbolau Oed-gyfeillgar, Cyflogwr Ystyriol a Stonewall Cymru.

Mae’r **Polisi Iechyd a Lles Cyflogeion** yn amlinellu ein hymrwymiad i annog a grymuso pob aelod o staff i gymryd cyfrifoldeb personol am eu ffordd o fyw ac iechyd a lles. Mae hefyd yn nodi ein hymrwymiad i arwain a chefnogi rheolwyr yn eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cefnogi gweithleoedd ac arferion gwaith iach, ac i gymryd rhan mewn sgyrsiau effeithiol gydag unigolion a thimau. Cydnabyddir hefyd gyfrifoldeb y BIP yw darparu gweithle, diwylliant ac amgylchedd sy'n galluogi pobl i fod yn iach ac iawn yn y gwaith.

Mae **Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith** GIG Cymru yn cynorthwyo rheolwyr i gefnogi staff pan fyddant yn sâl, rheoli eu habsenoldeb a helpu i hwyluso eu dychweliad amserol i'r gwaith mewn ffordd dosturiol. Mae'r polisi'n rhagweithiol drwy roi cyfrifoldeb ar reolwyr llinell i nabod eu staff a chanolbwyntio ar eu hiechyd a'u lles i'w cadw'n iach ac yn y gwaith.

Mae'r Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith yn cynnwys nifer o becynnau cymorth. Mae un o'r rhain yn ymdrin ag addasiadau rhesymol/wedi'u teilwra – mae'n atgoffa rheolwyr o'n dyletswydd gyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau nad yw gweithwyr ag anableddau, neu namau corfforol neu iechyd meddwl, dan anfantais wrth wneud eu gwaith neu yn ystod y broses recriwtio. Mae'r Polisi yn nodi nad yw pob salwch yn anabledd, fodd bynnag, os yw gweithiwr yn gofyn am gymorth gyda chyflwr iechyd a lles, y peth gorau yw darparu'r cymorth yn unol â hynny, gan dybio bod gwneud hynny’n gymesur. Mae llawer o fanteision i hyn gan gynnwys cefnogi'r gweithiwr yn ôl i'r gwaith a'i helpu i aros yn y gwaith.

Yn 2024, mae mwy na 200 o reolwyr wedi mynychu sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb ar Reoli Presenoldeb yn y Gwaith. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu i adolygu'r sesiynau hyfforddi hyn, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn berthnasol i roi’r sgiliau a'r hyder i reolwyr gefnogi staff a sicrhau cymaint o bresenoldeb yn y gwaith â phosibl. Fel rhan o'r adolygiad hwn, bydd y grŵp hefyd yn datblygu cyfres o fodiwlau hyfforddi digidol byr, pwrpasol sy'n cwmpasu

pynciau allweddol fel addasiadau rhesymol, negeseuon salwch byrdymor ac adolygiadau, cyfarfodydd salwch hirdymor a phrosesau ymddeoliad ar sail afiechyd. Bydd yr adnoddau hyn ar gael yn rhwydd i reolwyr, gan ddarparu'r offer sydd eu hangen i reoli a chefnogi eu timau yn effeithiol. Yn ogystal, bydd yr hyfforddiant yn cynnig arweiniad ar yr opsiynau a'r prosesau sydd ar gael, tra hefyd yn cyfeirio rheolwyr a staff at wahanol rwydweithiau iechyd, lles a chymorth.

Mae'r **Weithdrefn Adleoli** yn cefnogi gweithwyr y mae eu cyflogaeth mewn perygl i ddod o hyd i gyflogaeth amgen addas ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan sicrhau parhad cyflogaeth. Mae adleoli yn rhoi cyfle i ni fod yn arloesol, gan wneud defnydd llawn o sgiliau a phrofiad yr holl staff i ymateb i'r heriau hyn.

Dylid defnyddio adleoli i gadw a datblygu staff profiadol a medrus. Mae nifer o resymau pam y gall swydd gweithiwr fod mewn perygl, gan gynnwys rhesymau fel: newid sefydliadol, salwch, disgyblu, gallu/perfformiad, chwalfa perthynas a pheidio ag adnewyddu contract cyfnod penodol.

Nod y weithdrefn yw sicrhau bod dull gweithredu teg a chyfartal o adleoli yn cael ei ddilyn, wrth ddarparu canllaw cynhwysfawr i reolwyr a gweithwyr sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau, a'r egwyddorion a'r broses adleoli.

Adolygwyd y weithdrefn adleoli ddiwethaf yn 2024 ac mae'r ffocws wedi symud i ddull mwy tosturiol a chadarnhaol. Cyflawnwyd hyn yn bennaf drwy newid yr iaith a ddefnyddir a hefyd amlinellu prif bwrpas ac ethos y weithdrefn drwyddi draw. Mae'r ffocws wedi symud o ganolbwyntio ar adleoliadau salwch yn unig i ehangu'r cyd-destun i bob rheswm arall dros adleoli, fel yr amlinellir uchod.

Yr ethos sydd wedi cael ei amlygu drwy gydol y weithdrefn ddiwygiedig hon yw cadw a datblygu staff profiadol a medrus ac edrych ar adleoli fel proses fwy cadarnhaol.

## 16.5 Hawliau Cyflog a Phensiwn Uwch Reolwyr 2024-2025

Darperir manylion llawn taliadau cydnabyddiaeth uwch reolwyr ar gyfer 2024-25 yn y tablau archwiliedig sy'n dilyn:
Mae'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth a Staff hwn yn cynnwys gwybodaeth am daliadau cydnabyddiaeth uwch reolwr. Y diffiniad o "Uwch Reolwyr" at y diben hwn yw:

*"y bobl hynny mewn swyddi uwch sy'n meddu ar awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau corff y GIG. Mae hyn yn golygu'r rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r endid yn ei gyfanrwydd yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiaethau neu adrannau unigol.'*

**ADRODDIAD TALIADAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2024-25**

**Cyflogau Uwch Reolwyr**

| | 31-Maw-2025 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw a theitl** | **Cyflog Cyfwerth â Blwyddyn Lawn** | **Cyflog** | **Taliadau Cydnabyddiaeth eraill** | **Taliadau Bonws** | **Buddion mewn nwyddau** | **Buddion Pensiwn** | **Cyfanswm** |
| | **(bandiau o £5,000)** | **(bandiau o £5,000)** | **(bandiau o £5,000)** | **(bandiau £5,000)** | **(Wedi'i dalgrynnu i'r £00 agosaf)** | **(Wedi'i dalgrynnu i'r £000 agosaf)** | **(bandiau o £5,000)** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£00** | **£000** | **£000** |
| **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro** | | | | | | | |
| Swyddog-Aelodau | | | | | | | |
| Suzanne Rankin, Prif Weithredwr | 240-245 | 240-245 | 0 | 0 | 0 | 0 | 240-245 |
| Paul Bostock, Prif Swyddog Gweithredu | 165-170 | 165-170 | 0 | 0 | 0 | 82 | 245-250 |
| Jason Roberts, Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol | 155-160 | 155-160 | 0 | 0 | 17 | 44 | 200-205 |
| Richard Skone, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro | 205-210 | 105-110 | 0 | 0 | 9 | 161 | 265-270 |
| David Fluck, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | 215-220 | 100-105 | 5-10 | 0 | 0 | 25 | 135-140 |
| Catherine Phillips, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | 195-200 | 195-200 | 0 | 0 | 14 | 83 | 280-285 |
| Rachel Gidman, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant | 160-165 | 160-165 | 0 | 0 | 15 | 77 | 235-240 |
| Emma Cooke, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd | 140-145 | 130-135 | 0 | 0 | 10 | 236 | 365-370 |
| Fiona Jenkins, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd | 75-80 | 5-10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5-10 |
| Marie Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Dros Dro | 155-160 | 125-130 | 0 | 0 | 0 | 235 | 365-370 |
| Claire Beynon, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd | 140-145 | 140-145 | 0 | 0 | 0 | 115 | 255-260 |
| Cyfarwyddwyr Eraill | | | | | | | |
| Matt Phillips, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol | 130-135 | 130-135 | 0 | 0 | 7 | 32 | 160-165 |
| David Thomas, Cyfarwyddwr Gwybodaeth Ddigidol ac Iechyd | 130-135 | 130-135 | 0 | 0 | 15 | 35 | 165-170 |
| Aelodau Annibynnol (AA) | | | | | | | |
| Charles Janczewski, Cadeirydd | 65-70 | 65-70 | 0 | 0 | 0 | 0 | 65-70 |
| Ceri Phillips, Aelod Annibynnol - Is-gadeirydd | 55-60 | 55-60 | 0 | 0 | 0 | 0 | 55-60 |
| John Union, Aelod Annibynnol - Cyllid | 15-20 | 15-20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15-20 |
| David Edwards, Aelod Annibynnol - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 15-20 | 15-20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15-20 |
| Sara Moseley, Aelod Annibynnol - Trydydd Sector (Gwirfoddol) | 15-20 | 15-20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15-20 |
| Akmal Hanuk, Aelod Annibynnol - Cymuned Leol | 15-20 | 15-20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15-20 |
| Rhian Thomas, Aelod Annibynnol - Cyfalaf ac Ystadau | 15-20 | 15-20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15-20 |
| Rachna Upadhya, Aelod Annibynnol - Cyffredinol | 15-20 | 0-5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0-5 |
| Mike Jones, Aelod Annibynnol - Undeb Llafur | 0 | 0 | 50-55 | 0 | 0 | 0 | 50-55 |
| Susan Lloyd-Selby, Aelod Annibynnol - Awdurdod Lleol | 15-20 | 15-20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15-20 |
| Aelod Annibynnol Anrhydeddus | | | | | | | |
| Steve Riley - Prifysgolion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0-5 |
| Aelodau Cyswllt | | | | | | | |
| Lani Tucker, Aelod Bwrdd Cyswllt - Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0-5 |

**Nid yw'r buddion pensiwn yn swm sydd wedi'i dalu i unigolyn gan y BIP yn ystod y flwyddyn, ond yn gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau yng nghyflog person, p'un a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog ai peidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd.**

**ADRODDIAD TALIADAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2024-25**

**Cyflogau Uwch Reolwyr**

| | 31-Maw-2024 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw a theitl** | **Cyflog Cyfwerth â Blwyddyn Lawn** (bandiau o £5,000) £000 | **Cyflog** (bandiau o £5,000) £000 | **Taliadau Cydnabyddiaeth eraill** (bandiau o £5,000) £000 | **Taliadau Bonws** (bandiau o £5,000) £000 | **Buddion mewn nwyddau** (Wedi'i dalgrynnu i'r £00 agosaf) £000 | **Buddion Pensiwn** (Wedi'i dalgrynnu i'r £000 agosaf) £000 | **Cyfanswm** (bandiau o £5,000) £000 |
| **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro** | | | | | | | |
| Swyddog-Aelodau | | | | | | | |
| Suzanne Rankin, Prif Weithredwr | 230-235 | 230-235 | 0-5 | 0 | 4 | 0 | 230-235 |
| Paul Bostock, Prif Swyddog Gweithredu | 155-160 | 155-160 | 0 | 0 | 0 | 0 | 155-160 |
| Jason Roberts, Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol | 145-150 | 145-150 | 0 | 0 | 9 | 0 | 145-150 |
| Abigail Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol | 145-150 | 145-150 | 0 | 0 | 0 | 0 | 145-150 |
| Catherine Phillips, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | 190-195 | 190-195 | 0 | 0 | 15 | 0 | 190-195 |
| Rachel Gidman, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant | 150-155 | 150-155 | 0 | 0 | 15 | 29 | 180-185 |
| Fiona Jenkins, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd | 70-75 | 70-75 | 0 | 0 | 0 | 0 | 70-75 |
| Meriel Jenney, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | 195-200 | 195-200 | 0 | 0 | 0 | 0 | 195-200 |
| Fiona Kinghorn, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd | 135-140 | 100-105 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100-105 |
| Claire Beynon, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd | 135-140 | 30-35 | 0 | 0 | 0 | 25 | 55-60 |
| Cyfarwyddwyr Eraill | | | | | | | |
| James Quance, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol Dros Dro | 115-120 | 40-45 | 0 | 0 | 2 | 24 | 60-65 |
| Matt Phillips, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol | 120-125 | 80-85 | 0 | 0 | 1 | 17 | 95-100 |
| David Thomas, Cyfarwyddwr Gwybodaeth Ddigidol ac Iechyd | 125-130 | 125-130 | 0 | 0 | 13 | 29 | 150-155 |
| Aelodau Annibynnol (AA) | | | | | | | |
| Charles Janczewski, Cadeirydd | 65-70 | 65-70 | 0 | 0 | 0 | 0 | 65-70 |
| Ceri Phillips, Aelod Annibynnol - Is-gadeirydd | 55-60 | 55-60 | 0 | 0 | 0 | 0 | 55-60 |
| John Union, Aelod Annibynnol - Cyllid | 15-20 | 15-20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15-20 |
| David Edwards, Aelod Annibynnol - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 15-20 | 15-20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15-20 |
| Sara Moseley, Aelod Annibynnol - Trydydd Sector (Gwirfoddol) | 15-20 | 15-20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15-20 |
| Susan Elsmore, Aelod Annibynnol - Awdurdod Lleol | 15-20 | 5-10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5-10 |
| Michael Imperato, Aelod Annibynnol - Cyfreithiol | 15-20 | 5-10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5-10 |
| Akmal Hanuk, Aelod Annibynnol - Cymuned Leol | 15-20 | 15-20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15-20 |
| Rhian Thomas, Aelod Annibynnol - Cyfalaf ac Ystadau | 15-20 | 15-20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15-20 |
| Keith Harding, Aelod Annibynnol - Prifysgol | 15-20 | 10-15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10-15 |
| Mike Jones, Aelod Annibynnol - Undeb Llafur | 0 | 0 | 50-55 | 0 | 0 | 0 | 50-55 |
| Susan Lloyd-Selby, Aelod Annibynnol - Awdurdod Lleol | 15-20 | 0-5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0-5 |
| Aelodau Cyswllt | | | | | | | |
| Lance Carver, Aelod Cyswllt - Awdurdod Lleol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0-5 |
| Lani Tucker, Aelod Bwrdd Cyswllt - Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0-5 |
| Sam Austin, Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0-5 |

**Nid yw'r buddion pensiwn yn swm sydd wedi'i dalu i unigolyn gan y BIP yn ystod y flwyddyn, ond yn gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau yng nghyflog person, p'un a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog ai peidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd.**

**Ar gyfer Swyddogion, Aelodau a Chyfarwyddwyr Eraill mae'r bandiau cyflog yn cynnwys cynnydd o 5% mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023/24 - talwyd y taliad ym mis Mawrth 2024. Roedd y taliad hwn ar ôl i geisiadau Greenbury gael eu gwneud i'r asiantaeth bensiynau; oherwydd hyn bydd rhai gwahaniaethau rhwng y ffigurau yn yr adroddiadau tâl a'r rhai a geir ar gyflogau diwygiedig.**

**Effeithiwyd ar Paul Bostock, Jason Roberts, Abigail Harris, Fiona Kinghorn a Catherine Phillips gan y Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus a symudwyd eu haelodaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 yn ôl i Gynllun 1995/2008 ar 1 Hydref 2023. Nid yw gwerthoedd negyddol yn cael eu datgelu yn y tabl hwn - fe'u disodlir gyda sero.**

**Ymddeolodd Fiona Kinghorn ar 29 Rhagfyr 2023 a chymerodd fuddion pensiwn ar 30 Rhagfyr 2023.**

### Hawliau Cyflog a Phensiwn Uwch Reolwyr

Nid yw Mike Jones yn cael ei dalu fel Aelod Bwrdd, ond mae'n gyflogai i'r Bwrdd Iechyd a dangosir ei gostau cyflog yn y golofn Taliadau Eraill.

Roedd Jason Roberts, Catherine Phillips, Rachel Gidman, Richard Skone, Emma Cooke, David Thomas, a Matt Phillips yn aelodau o gynllun budd Cyflog Car Prydlesu GIG Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol, sy'n agored i holl gyflogeion y BIP. Mae elfen o gyflog cyflogai yn cael ei 'chyfnewid' am ddefnyddio car newydd. Yn y tabl Taliadau Cydnabyddiaeth ar gyfer 2024-25 mae'r swm o £59,526 a gyfnewidiwyd at ddefnydd y car wedi'i gynnwys yn y golofn Cyflog fel a ganlyn:
J Roberts
£12,609 C Phillips
£7,717 R Gidman
£10,690 R Skone
£4,999
E Cooke £7,778
D Thomas
£9,087 M Phillips
£6,646

**Newidiadau i Aelodaeth y Bwrdd yn 2024-25**

(1) Dechreuodd **Marie Davies** yn y rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol Dros Dro ar 1 Ebrill 2024; a gadawodd y sefydliad a'i rôl fel Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol Dros Dro ar 31 Ionawr 2025.

(2) Dechreuodd **Richard Skone** yn y rôl Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro ar 1 Ebrill 2024, a gorffennodd ei rôl fel Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro ar 6 Hydref 2024.

(3) Dechreuodd **David Fluck** fel Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ar 7 Hydref 2024.

(4) Gadawodd **Fiona Jenkins** y rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau ar 30 Ebrill 2024.

(5) Dechreuodd **Emma Cooke** yn y rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau Dros Dro ar 1 Mai 2024. Yna dechreuodd yn y rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau parhaol ar 1 Mehefin 2024.

(6) Dechreuodd **Steve Riley** fel Aelod Annibynnol Anrhydeddus ar gyfer Prifysgolion ar 1 Hydref 2024.

(7) Dechreuodd **Rachna Upadhya** fel Aelod Annibynnol Cyffredinol ar 2 Ionawr 2025.

### Perthynas â'r Taliadau

**Adroddir ar fanylion y Berthynas Taliadau yn adran 9.6 o'r Datganiadau Ariannol.**

ADRODDIAD TALIADAU BWRDD IECHYD LLEOL PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO 2024-25

**Buddion Pensiwn**

| Enw a theitl | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn ôl oedran pensiwn (bandiau o £2,500) £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad pensiwn ar oedran pensiwn (bandiau o £2,500) £000 | Cyfanswm y pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/25 (bandiau o £5,000) £000 | Cyfandaliad ar oedran pensiwn sy'n gysylltiedig â phensiwn cronedig ar 31/03/2025 (bandiau o £5,000) £000 | Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2025 £000 | Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2024 £000 | Cynnydd (gostyngiad) gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod £000 | Cyfraniad y cyflogwr at bensiwn cyfranddeiliaid I'r £100 agosaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Paul Bostock, Prif Swyddog Gweithredu | 2.5-5 | 2.5-5 | 60-65 | 155-160 | 1,413 | 1,220 | 90 | - |
| Jason Roberts, Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol | 2.5-5 | 0-2.5 | 65-70 | 170-175 | 1,490 | 1,330 | 53 | - |
| Richard Skone, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro | 7.5-10 | 12.5-15 | 55-60 | 135-140 | 1,131 | 902 | 75 | - |
| David Fluck, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | 0-2.5 | 0 | 0-5 | 0 | 67 | 31 | 10 | - |
| Catherine Phillips, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | 5-7.5 | 2.5-5 | 85-90 | 230-235 | 2,064 | 1,815 | 99 | - |
| Rachel Gidman, Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant | 2.5-5 | 2.5-5 | 55-60 | 145-150 | 1,304 | 1,126 | 83 | - |
| Emma Cooke, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd | 10-12.5 | 25-27.5 | 40-45 | 110-115 | 950 | 660 | 210 | - |
| Marie Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Dros Dro | 10-12.5 | 10-12.5 | 65-70 | 75-80 | 1,286 | 1,000 | 170 | - |
| Claire Beynon, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd | 5-7.5 | 10-12.5 | 30-35 | 75-80 | 696 | 534 | 109 | - |
| Matt Phillips, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol | 0-2.5 | 0 | 0-5 | - | 48 | 17 | 15 | - |
| David Thomas, Cyfarwyddwr Gwybodaeth Ddigidol ac Iechyd | 2.5-5 | 0 | 10-15 | - | 212 | 155 | 31 | - |

Nodyn 1 - Nid yw Suzanne Rankin, Prif Weithredwr yn aelod o gynllun Pensiwn y GIG ac felly ni adroddir unrhyw ffigurau pensiwn.
Nodyn 2 - Nid oedd Fiona Jenkins, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau tan 30 Ebrill 2024 yn aelod o gynllun Pensiwn y GIG yn 24/25 chwaith.

Gan nad yw aelodau nad ydynt yn Swyddogion yn derbyn tâl pensiynadwy, ni fydd unrhyw gofnodion mewn perthynas â phensiynau ar gyfer aelodau nad ydynt yn swyddogion.

**Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod**

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (GTCAP) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, a asesir gan actiwari. Y buddion y rhoddir gwerth iddynt yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTCAP yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae ffigurau'r GTCAP a'r manylion pensiwn eraill yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Cyfrifir GTCAPau o fewn y canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a Chyfadran Actiwarïaid.

Mae ffigurau GTCAP yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau gostyngiad ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2025.

**Cynnydd Gwirioneddol mewn GTCAP**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTCAP a ariennir i bob pwrpas gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar ddechrau a diwedd y cyfnod.

## 16.6 Gwariant Ymgynghori

Fel y datgelwyd yn nodyn 3.3 o'i gyfrifon blynyddol, gwariodd y Bwrdd Iechyd £1.443m ar wasanaethau ymgynghori yn ystod 2024-25 o gymharu â £1.207m yn 2023-24. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant hwn yn mynd tuag at brosiectau sydd â'r nod o sicrhau canlyniadau clinigol ac effeithlonrwydd gwell.

## 16.7 Sicrwydd Treth i Benodeion Oddi Ar y Gyflogres

**Tax assurance for off-payroll appointees**

**Highly paid off-payroll worker engagements as at 31st March 2025 earning £245 per day or greater.**

| | |
|---|---|
| No. of existing engagements as of 31 March 2025 | 0 |
| Of which: | |
| No that existed at the time of reporting less than 1 year | 0 |
| for between 1 and 2 years | 0 |
| for betwwen 2 and 3 years | 0 |
| for between 3 and 4 years | 0 |
| for 4 or more years | 0 |

While the UHB is not responsible for deducting tax and national insurance in respect of Agency staff, we have written to the agencies concerned stating that we believe that our relationship with the staff is one of employment and so they should be paying these employees under deduction of tax and national insurance.

**All highly paid off-payroll workers engaged at any point during the year ended 31st March 2025, earning £245 per day or greater**

| | |
|---|---|
| No. of temporary off payroll workers, during the year ended 31st March 2025 | 23 |
| Not subject to off-payroll legislation | 23 |
| Subject to off-payroll legislation and determined as in scope of IR35 | 0 |
| Subject to off-payroll legislation and determined as out of scope of IR35 | 0 |
| No.of engagements reassessed for compliance of assurance purposes during the year | 0 |
| Of which: Number of engagements that saw a change to IR35 status following the consistency review | 0 |

**For any off-payroll engagements of board members, and/or, senior officials with significant financial responsibility, between 1 April 2024 and 31 March 2025**

| | |
|---|---|
| No. of off-payroll engagements of board members, and/or, senior officials with significant financial responsibility, during the financial year. | 0 |
| No. of individuals that have been deemed "board members, and/or senior officials with significant financial responsibility", during the financial year. | 0 |

Please note that the UHB considers that its Board members are the only officials who have significant responsibility within the Health Board.

# Rhan 2c

# Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru

## 17.1 Rheoleidd-dra Gwariant

Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer y cyfnod 2024-2027 yn rhoi gofyniad ar Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru (BILlau) i baratoi a chyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig i Lywodraeth Cymru. Ni chyflwynodd BILl Caerdydd a'r Fro Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer y cyfnod 2024-2027.

Cyflwynodd BILl Caerdydd a'r Fro Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer y cyfnod 2022-2025 yn unol â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, ond ni chafodd hwn ei gymeradwyo oherwydd na allai'r Cynllun ddarparu sefyllfa ariannol gytbwys.

Hyd nes y gellir cyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd cytbwys, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i BILl Caerdydd a'r Fro gyflwyno Cynllun Gweithredol Un Flwyddyn.

Yn absenoldeb Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy, cyflwynodd y BILl Gynllun Gweithredol un flwyddyn mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2024-25.

Roedd y cynllun hwn yn rhagweld diffyg arfaethedig o £15.9m i ddechrau. Fodd bynnag, diwygiwyd y diffyg arfaethedig i ddiffyg o £27.7m yn dilyn dirywiad yn yr arbedion cyflawni a diffygion gweithredol cynyddol. Cefnogwyd y diffyg cynyddol hwn, yn rhannol, trwy gyllid ychwanegol o £6.8m gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r perfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn, fel sydd wedi'i gynnwys yn y cyfrifon, yn ddiffyg diwedd blwyddyn o £27.267m ar gyfer 2024-25.

Roedd gan y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £26.789m yn 2022/23 a diffyg o £16.404m yn 2023/24. Mae hyn yn golygu, dros y cyfnod o dair blynedd, mai'r diffyg cyfanredol yw £70.820m. Mae'r gwariant hwn yn cynrychioli gwariant afreolaidd.

### 17.1.2 Cynlluniau Gwariant Hirdymor 2020-2025

| | 2020-21 £'000 | 2021-22 £'000 | 2022-23 £000 | 2023-24 £000 | 2024-25 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau gweithredu net am y flwyddyn** | 1,220,369 | 1,228,135 | 1,309,705 | 1,388,556 | 1,536,764 |
| Llai gwariant gwasanaethau offthalmig cyffredinol a gwariant heb derfyn arian parod arall | (13,386) | (14,237) | (13,361) | (13,794) | (13,833) |
| Llai canlyniadau refeniw heb eu hariannu o ddod â chynlluniau MCP i SoFP | (1,028) | (222) | (222) | (222) | (222) |
| Cyfanswm y gwariant gweithredol | 1,205,955 | 1,213,676 | 1,296,122 | 1,374,540 | 1,522,709 |
| Dyrannu Adnoddau Refeniw | 1,206,045 | 1,213,908 | 1,269,333 | 1,358,136 | 1,495,082 |
| **Tan/(gor)wariant yn erbyn Dyraniad** | **90** | **232** | **(26,789)** | **(16,404)** | **(27,627)** |

Nid yw BILl Caerdydd a'r Fro wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw y 3 blynedd rhwng 2022-23 a 2024-25.

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd £21m o gymorth arian parod yn unig gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2024-25, £9.1m o gymorth strategol a £11.9m o gymorth cyfalaf gweithio. Darparwyd y cymorth hwn gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i wneud taliadau i staff a chyflenwyr; nid oes gofyniad i'r cyllid hwn gael ei ad-dalu.

# Perfformiad yn erbyn y Terfyn Adnoddau Cyfalaf

**2.2 Capital Resource Performance**

| | 2022-23 £000 | 2023-24 £000 | 2024-25 £000 | Total £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gross capital expenditure** | 56,111 | 46,218 | 68,197 | **170,526** |
| Add: Losses on disposal of donated assets | 8 | 4 | 0 | **12** |
| Less NBV on disposal of property, plant and equipment, right of use and intangible assets | (140) | (114) | (206) | **(460)** |
| Adjustment for transfers (to)/from NHS Trusts | 0 | 0 | (7,799) | **(7,799)** |
| Less capital grants received | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Less donations received | (414) | (577) | (572) | **(1,563)** |
| Less IFRS16 Peppercorn income | (143) | 0 | (712) | **(855)** |
| Less **initial recognition** of RoU Asset Dilapidations | (100) | 0 | 0 | **(100)** |
| Charge against Capital Resource Allocation | 55,322 | 45,531 | 58,908 | **159,761** |
| Capital Resource Allocation | 55,410 | 45,603 | 59,156 | **160,169** |
| **(Over) / Underspend against Capital Resource Allocation** | **88** | **72** | **248** | **408** |

Cardiff and Vale University LHB has met its financial duty to break-even against its Capital Resource Limit over the 3 years 2022-23 to 2024-25.

**Perfformiad yn erbyn y Terfyn Adnoddau Cyfalaf**

| | 2022-23 £000 | 2023-24 £000 | 2024-25 £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant cyfalaf gros** | 56,111 | 46,218 | 68,197 | **170,526** |
| Ychwanegu: Colledion wrth waredu asedau a roddwyd | 8 | 4 | 0 | **12** |
| Llai GAN ar waredu eiddo, offer a chyfarpar, hawl defnyddio ac asedau anniriaethol | (140) | (114) | (206) | **(460)** |
| Addasiad ar gyfer trosglwyddiadau (i)/o Ymddiriedolaethau'r GIG | 0 | 0 | (7,799) | **(7,799)** |
| Llai grantiau cyfalaf a dderbyniwyd | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Llai rhoddion a dderbyniwyd | (414) | (577) | (572) | **(1,563)** |
| Llai incwm hedyn pupur IFRS16 | (143) | 0 | (712) | **(855)** |
| Llai cydnabyddiaeth gychwynnol o Adfeilio Asedau Hawl Defnyddio | (100) | 0 | 0 | **(100)** |
| Tâl yn erbyn Dyraniad Adnoddau Cyfalaf | 55,322 | 45,531 | 58,908 | **159,761** |
| Dyraniad Adnoddau Cyfalaf | 55,410 | 45,603 | 59,156 | **160,169** |
| **(Gor)/tanwariant yn erbyn Dyraniad Adnoddau Cyfalaf** | **88** | **72** | **248** | **408** |

Mae BILI Caerdydd a'r Fro wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf dros y 3 blynedd rhwng 2022-23 a 2024-25.

## Sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn ei Gyllid Refeniw
**2024/25**



**2023/24**

Annual Income £1,970m




**2022/23**

Annual Income £1,835m



**2021/22**




**2020/21**




Fel y datgelir yn y tabl perfformiad yn erbyn dyletswydd mantoli uchod, caniateir i'r BIP ddileu rhai elfennau o wariant (y mae'n eu hysgwyddo ond nad oes ganddo reolaeth lwyr drostynt) wrth gymharu ei wariant â'i derfyn adnoddau refeniw blynyddol. At ddibenion cymhariaeth ystyrlon o incwm a chost, mae hyn wedi'i drin fel incwm tybiannol yn yr uchod. Felly dangosir y ffigurau gwariant a ddangosir isod yn gros (heb dynnu unrhyw wariant).

## Sut mae'r BIP wedi defnyddio ei Gyllid Refeniw

**2024/25**




**2023/24**



**2022/23**




**2021/22**



**2020/21**




## 17.3 Ffioedd a Thaliadau

Mae'r Bwrdd Iechyd yn codi taliadau neu ffioedd ar ei gleifion mewn nifer o feysydd. Pan fo'r Bwrdd Iechyd yn codi taliadau neu ffioedd o'r fath, mae'n gwneud hynny yn unol â Chylchlythyrau Iechyd Cymru perthnasol a chanllawiau codi tâl.

Yn gyffredinol, codir taliadau ar sail cost lawn. Nid yw'r un o'r eitemau y gwneir taliadau ar eu cyfer yn berthnasol i'r BIP, fodd bynnag, datgelir manylion rhai o'r eitemau mwy (Ffioedd Deintyddol, incwm Cleifion Preifat a Thramor) o fewn Nodyn 4 o'r Cyfrifon Blynyddol.

## 17.4 Rheoli Arian Cyhoeddus

Dyma'r Datganiad gofynnol ar gyfer Deiliaid Gwybodaeth Sector Cyhoeddus fel y cyfeirir ato yn Adran 8.4 (tudalen 69) o Adroddiad y Cyfarwyddwyr. Yn unol â chyrff GIG eraill Cymru, mae'r BIP wedi datblygu Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog sy'n gorfodi'r egwyddorion a amlinellir yn Nhrysorlys EF ar Reoli Arian Cyhoeddus. O ganlyniad, dylai'r BIP fod wedi cydymffurfio â gofynion dyrannu costau a chodi tâl y canllawiau hyn ac nid yw'r BIP wedi cael gwybod am unrhyw achosion lle nad yw hyn wedi'i wneud.

## 17.5 Rhwymedigaethau amodol annhebygol perthnasol

Fel y datgelwyd yn nodyn 21.2 o'i gyfrifon blynyddol, roedd gan y Bwrdd Iechyd rwymedigaethau amodol annhebygol net, fel ar 31 Mawrth 2025, o £0.316m. Mae hyn yn ymwneud â hawliadau Esgeulustod Clinigol ac Anafiadau Personol yn erbyn y Bwrdd Iechyd, lle mae ein cynghorwyr cyfreithiol yn ein hysbysu bod siawns yr hawlwyr o lwyddo yn annhebygol.

## 17.6 Tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

### Barn ar ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 o dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu perthnasol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol ac yn safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglir ac addesir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 31 Mawrth 2025 ac o'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn

a orffennodd bryd hynny;

- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglir ac addesir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddydau a wnaed oddi tani gan Weinidogion Cymru.

## Barn ar reolaidd-dra

Yn fy marn i, ac eithrio'r mater a ddisgrifir yn yr adran Sail ar gyfer Barn Gymwys ar Reoleidd-dra yn fy adroddiad, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail ar gyfer Barn Gymwys ar Reoleidd-dra

Rwyf wedi cymhwyso fy marn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi torri ei derfyn adnoddau drwy wario £70.820 miliwn dros y swm y cafodd ei awdurdodi i'w wario yn y cyfnod o dair blynedd o 2022-23 i 2024-25. Mae'r gwariant hwn yn cynrychioli gwariant afreolaidd.

Nodir rhagor o fanylion yn fy Adroddiad ar dudalen xxx

## Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith gymwys a Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (SARhau [DU]) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio

Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran Cyfrifoldebau'r Archwilydd wrth Archwilio'r Datganiadau Ariannol ar fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gwaith o archwilio'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio sydd wedi dod i law yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiedir y sail busnes hyfyw o gyfrifyddu ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes hyfyw o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle'r oedd yn rhagweld y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd gyda hynny. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicr arni. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson gyda'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu'n ymddangos ei bod wedi cael ei chamddatgan. Os byddaf yn dod ar draws anghysonderau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol, mae gofyn i mi benderfynu a yw hyn wedi arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi ei wneud, bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae gofyn i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad taliadau cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddydau

a wnaed oddi tani gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r rhannau o’r Adroddiad Atebolrwydd sy’n destun archwiliad wedi’u paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddydau a wnaed oddi tani gan Weinidogion Cymru; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

## Materion rwy'n adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o’r Bwrdd Iechyd a’i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i’w adrodd o ran y materion canlynol, yr adroddaf i chi os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a’r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy;
- nad yw’r datganiadau ariannol a’r rhannau o’r Adroddiad Atebolrwydd sy’n destun archwiliad yn gytûn â’r cofnodion cyfrifyddu a’r ffurflenni;
- na ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF neu Weinidogion Cymru ynghylch taliadau cydnabyddiaeth a thrafodion eraill;

- na wnaed datgeliadau penodol o daliadau cydnabyddiaeth a bennir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn gytûn â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nad yw’r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu y cydymffurfiwyd â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a’r Prif Weithredwr o ran y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiadau Cyfarwyddwyr a Chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr, a nodir ar dudalennau 69 a 70, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu digonol
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol fel y mae'r Cyfarwyddwyr a’r Prif Weithredwr yn pennu eu bod yn angenrheidiol yn galluogi paratoi datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu’r Bwrdd Iechyd i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio’r sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai bod y Cyfarwyddwyr a’r Prif Weithredwr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

chyfreithiau a rheoliadau

## Cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Fy nod yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed trwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyflwyno tystysgrif sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol â SARhau (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli.
Gall camddatganiadau ddigwydd oherwydd twyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd o ran:
    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â

ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a'r
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, cydnabod gwariant, cofnodion ariannol anarferol a/ac (ychwanegwch fel y bo'n briodol i'r archwiliad);
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Bwrdd Iechyd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Bwrdd Iechyd; a
- chael dealltwriaeth o gydberthnasau parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau a phrofion y datganiad ariannol i ddogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;

- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai fu'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r graddau y mae fy ngweithdrefnau yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, wedi ei effeithio gan anhawster canfod unrhyw afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau'r Bwrdd Iechyd, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a ddefnyddir.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau archwilio eraill

Mae'n ofynnol i fi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a adroddwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Gweler fy Adroddiad ar dudalen 135.

Adrian Crompton
1 Cwr y Ddinas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Stryd Tyndall
12
Gorffennaf
2024
Caerdydd

CF10 4BZ

## 17.7 Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn y Senedd

### Cyflwyniad

O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004, rwy'n gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Rwy'n adrodd ar y datganiadau ariannol hyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 i dynnu sylw at ddau fater allweddol ar gyfer fy archwiliad. Dyma'r methiant yn erbyn y ddyletswydd ariannol gyntaf a chymhwysiad dilynol fy marn 'reoleidd-dra'; a methiant yr ail ddyletswydd ariannol. Nid wyf wedi cymhwyso fy marn 'wir a theg' mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion hyn.

### Dyletswyddau Ariannol

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) fodloni dwy ddyletswydd ariannol statudol - sef y ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail. Ar gyfer 2023-24, methodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro â chyflawni'r ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail.

### Methiant y ddyletswydd ariannol gyntaf

Mae'r ddyletswydd ariannol gyntaf yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i BILlau drwy ganiatáu iddynt gydbwyso eu hincwm â'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd. Y cyfnod tair blynedd sy'n cael ei fesur o dan y ddyletswydd hon eleni yw 2022-2023 i 2024-25. Fel y dangosir yn Nodyn 2.1 i'r Datganiadau Ariannol, nid oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn rheoli ei wariant refeniw o fewn ei ddyraniad adnoddau dros y cyfnod tair blynedd hwn, gan fynd y tu hwnt i'w derfyn adnoddau refeniw cronnus o £4,122 miliwn gan £70.820 miliwn
£4,122 million by £70.820 million. Pan nad yw BILl yn mantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd, mae unrhyw wariant dros y dyraniad adnoddau (h.y. terfyn gwariant) ar gyfer y tair blynedd hynny yn fwy nag awdurdod y BILl i wario ac felly mae'n 'afreolaidd'. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n ofynnol i mi gymhwyso fy 'marn reolaidd-dra' waeth beth yw gwerth y gwariant gormodol.

### Methiant yr ail ddyletswydd ariannol

Mae'r ail ddyletswydd ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i BILlau baratoi cynllun tymor canolig integredig tair blynedd a'i gael wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae'r ddyletswydd hon yn sylfaen hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd o ansawdd cynaliadwy. Bernir bod BILl wedi cyflawni'r ddyletswydd hon ar gyfer 2024-25 pe bai wedi cyflwyno cynllun 2024-2025 i 2026-2027 wedi'i gymeradwyo gan ei Fwrdd i Weinidogion Cymru, y bu'n ofynnol iddynt adolygu ac ystyried cymeradwyo'r cynllun. Fel y dangosir yn Nodyn 2.3 i'r Datganiadau Ariannol, ni chyflawnodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ei ail ddyletswydd ariannol i gael cynllun tymor canolig integredig tair blynedd cymeradwy ar waith ar gyfer y cyfnod 2024-2025 i 2026-2027.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**27 Mehefin 2025**